# Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

# CANLLAWIAU ADDYSGU

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagarweiniad | 3 |
| 2. | Nodau'r Canllawiau Addysgu | 4 |
| 3. | Trosolwg o Amcanion Asesu'r Fanyleb | 5 |
| 4. | Rhaglen Astudio: Uned orfodol 330 | 8 |
| | 4.1 Testun 2 | 36 |
| | 4.2 Testun 3 | 71 |
| | Testun 4 | 113 |
| | Testun 5 | 113 |
| 5. | ASESIAD DI-ARHOLIAD | 157 |
| 6. | Adnoddau | 208 |


© WJEC CBAC Ltd.

# 1. CYFLWYNIAD

Mae cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori CBAC, a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020, ar gael i:

- ysgolion sy'n gwasanaethu'r grŵp oedran Ôl-16
- colegau/darparwyr addysg bellach.

Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2021.

Amlinellir y set gyflawn o ofynion yn y fanyleb sydd ar gael ar wefan y Consortiwm. https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/

Mae'r Canllawiau Addysgu yn cynnwys rhaglen astudio awgrymedig, a all fod yn sail i ddatblygu cynllun gwaith.

Yn ogystal â'r Canllawiau hyn, darperir cymorth fel a ganlyn:

- deunyddiau asesu enghreifftiol
- DPP wyneb yn wyneb ac ar-lein a digwyddiadau ar-lein
- adroddiadau'r arholwyr ar bob papur cwestiynau
- mynediad rhad ac am ddim at gyn-bapurau cwestiynau a chynlluniau marcio
- adnoddau ar-lein rhad ac am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

Gall Athrawon/Tiwtoriaid/Darlithwyr hefyd gysylltu â swyddog pwnc y cymhwyster yn uniongyrchol. Byddant yn gallu ateb cwestiynau am ofynion y fanyleb. Gellir gweld manylion cyswllt ar y wefan.

© WJEC CBAC Ltd.

## 2. NODAU'R CANLLAWIAU ADDYSGU

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb CBAC Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.

**Ni fwriedir i'r Canllawiau fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr**; bwriedir iddynt, yn hytrach, roi cymorth i athrawon proffesiynol ddatblygu gweithgareddau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau eu dysgwyr eu hunain yn eu sefydliadau penodol.

Mae'r canllawiau'n cynnig cymorth i athrawon o ran gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau at adnoddau digidol defnyddiol (ein deunyddiau digidol ni sydd ar gael am ddim a hefyd deunyddiau digidol o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer dysgu diddorol a deniadol.

Bydd cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, dulliau plentyn-ganolog i ofal, chwarae a dysgu
- hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain
- gwerthuso ymchwil a damcaniaethau i ategu ymarfer
- ymwybodol o bolisïau allweddol yn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- gallu myfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu swydd.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mae angen i ddysgwr eu meithrin yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys gwybodaeth y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd.

Sylwer: un o'r gofynion a nodir yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yw y bydd angen cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ar unigolyn sy'n gweithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant: Craidd ac un o'r cymwysterau canlynol i weithio mewn rolau swyddi penodol:

- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

© WJEC CBAC Ltd.

# 3. TROSOLWG O AMCANION ASESU'R FANYLEB

I gyflawni'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfanswm o 72 credyd o leiaf:

- rhaid ennill 30 credyd o Grŵp Gorfodol 1
- Rhaid ennill o leiaf 4 credyd o Grŵp Dewisol A
- Gellir ennill yr 16 credyd sy'n weddill o unedau Grwpiau Dewisol A, B neu C
- Rhaid ennill 22 credyd o Grŵp Gorfodol 2.

Mae angen isafswm o 720 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Elfen ymarfer:**

Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth broffesiynol.

**Dull asesu**

Bydd cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer yn cael ei asesu'n fewnol drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Bydd cyfres o **dasgau strwythuredig** yn cael eu defnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, ac i ddarparu fframwaith i gasglu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr unedau a ddewisir o Grwpiau dewisol A a B. Fel rhan o'r tasgau hyn arsylwir ar ymgeiswyr yn cefnogi dysgu a datblygiad plant drwy gwblhau a gwerthuso pedwar arsylwad, cyn cynllunio pedwar gweithgaredd datblygiadol ar wahân a chynnal y gweithgareddau hynny.

- Bydd **portffolio o dystiolaeth** yn cael ei gadw ochr yn ochr â'r tasgau strwythuredig. Diben y portffolio yw gweithredu fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw unedau/deilliannau nad yw'n debygol y byddant yn cael eu gweld yn rhan o'r tasgau strwythuredig nac yn ffurfio rhan o'r drafodaeth. Bydd hyn yn cynnwys elfennau sail sy'n rhan o'r cynnwys gorfodol, lle mae'r dystiolaeth yn fwyaf tebygol o ddod o'r hyn sy'n cael ei arsylwi neu'n ymhlyg mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Bydd y portffolio hefyd yn cynnwys tystiolaeth o unedau dewisol Grŵp C, lle nad yw tystiolaeth yn gallu cael ei chynhyrchu'n hawdd o'r fframwaith o dasgau.

- Penderfynir ar y dull asesu terfynol drwy werthusiad terfynol gan yr ymgeisydd o'i weithgareddau, ar ffurf **trafodaeth broffesiynol** wedi'i harwain gan yr aseswr. Bydd yn canolbwyntio ar fyfyrdodau a dysgu'r ymgeisydd o hybu a chefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy ei ymarfer.

© WJEC CBAC Ltd.

**Grŵp Gorfodol 2:**

Mae Uned 330 ac Uned 331 Grŵp Gorfodol 2 yn ategu'r unedau yng Ngrŵp Gorfodol 1 y cymhwyster hwn ac yn y cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd, wrth roi cyfle i ddysgwyr ennill gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â meysydd nad ydynt ar gael o fewn yr unedau gorfodol a dewisol eraill yn y cymhwyster hwn.

**Mae Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru yn cynnwys pum prif faes testun:**

- cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed
- dulliau'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol
- darpariaeth gofal iechyd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant
- yr egwyddorion er mwyn sicrhau dysgu cynhwysol ar gyfer pob plentyn 0-19 oed
- effaith meddwl traddodiadol a chyfoes ar ddatblygiad cyfannol plant.

Mae cynnwys yr uned yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr wrth iddynt gwblhau eu hunedau ymarfer dewisol ac mae'n cyflwyno testunau ychwanegol er mwyn adlewyrchu anghenion ehangach y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, gan gwmpasu'r ystod oedran 0-19 yn ei chyfanrwydd. Bydd yn adeiladu ar, ac yn atgyfnerthu'r hyn mae'r dysgwyr yn dod i'w wybod a'i ddeall yn ystod eu lleoliad gwaith sy'n canolbwyntio ar blant rhwng 0 ac 8 oed (neu ran benodol o'r ystod oedran hon).

Daw dysgwyr i wybod a deall sut mae lleoliadau iechyd, blynyddoedd cynnar ac addysg gwahanol yn gallu hybu a chefnogi iechyd, llesiant a datblygiad, 0-19 oed. Byddan nhw'n cael cyfle i ehangu ar eu gwybodaeth a dealltwriaeth gan y gallai eu cyfleoedd lleoliad gwaith fod wedi'u cyfyngu i un neu ddau leoliad yn unig.

Yn ogystal, gan fod yr uned yn cynnwys pwyslais ar agweddau iechyd ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am rôl a gwerth y meysydd gwahanol niferus yn y sector gofal iechyd. Bydd hyn yn ehangu ar wybodaeth a dealltwriaeth o wasanaethau gofal iechyd, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gwasanaethau ac yn rhoi cipolwg i'r dysgwyr o'r cyfleoedd cyflogaeth yn ogystal â chymwysterau pellach sydd ar gael yn y sector gofal iechyd, y byddan nhw efallai am eu dilyn ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn.

**Mae Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru yn gofyn i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes ar gyfer y sector.**

Nid yw'r uned hon yn cynnwys unrhyw gynnwys ychwanegol. I gwblhau'r asesiad, bydd y dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd trwy gwblhau Uned 330 a'u hunedau ymarfer dewisol.

Bydd cynnwys ac asesiad y Grŵp Gorfodol 2 hwn, Unedau 330 a 331 yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu:

© WJEC CBAC Ltd.

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth (rhai eu hunain a rhai pobl eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- ymchwilio i ddamcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, eu gwerthuso, a myfyrio ar y ffordd y gallan nhw ddylanwadu ar ymarfer.

Er mwyn helpu dysgwyr i ddeall gofynion cwestiynau arholiad allanol, caiff y berfau gorchmynnol penodol canlynol eu defnyddio:

| Level 3 CCPLD Practice and Theory: External Assessments<br>The following commands will be used within the external assessments | | |
|---|---|---|
| AO | Command | Requirements of response |
| AO1 | Define | Give the exact meaning of |
| | Describe | Provide characteristics/main features or a brief account |
| | Give | Provide/name/select/recognise brief facts or examples (from a given source or from recall) |
| | Identify | As for 'give' |
| | List | As for 'give' |
| | Name | As for 'give' |
| | Outline | Set out the main points/provide a brief description or main characteristics |
| | State | As for 'give' |
| | Suggest | Put forward an idea, reason or course of action |
| | Summarise | Select and present the main points (without detail) |
| AO2 | Analyse | Examine an issue in detail; how parts relate to whole, to explain and interpret |
| | Apply | Use knowledge and understanding of a theory or concept and relate it to a specified context |
| | Describe<br>Discuss | Provide details of an effect or impact, i.e. what has changed/happened<br>Examine an issue in detail/in a structured way, taking into account different ideas |
| | Explain | Provide details and reasons for how and why something is the way it is |
| | Show | Make clear how a concept or theory works in a particular context |
| | Use | Apply the information provided to a particular theory or concept |
| AO3 | Advise | Suggest a proposal or course of action based on supported reasons |
| | Assess | Make an informed judgement |
| | Compare | Identify and comment on/explain similarities |
| | Consider | Review and respond to given information |
| | Contrast | Identify and comment on/explain differences |
| | Distinguish between | Identify and explain the differences between ideas or topics |
| | Evaluate | Make a judgement by weighing up evidence to come to a conclusion |
| | Examine | Inspect thoroughly, in detail and draw a conclusion |
| | Investigate | Study in detail and draw a conclusion |
| | Justify | Support a case with evidence/argument |
| | Recommend | Put forward a proposal based on reasons/evidence |
| | Reflect | Evaluate and/or consider |

© WJEC CBAC Ltd.

## 4. Rhaglen Astudio (yn seiliedig ar tua 6 awr o gyflwyno yr wythnos)

Mae'r rhaglen astudio hon yn cynnig un dull posibl o ddysgu'r cwrs. Ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os oes mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gellir teilwra'r rhaglen i'w harbenigeddau unigol.
Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn mabwysiadu dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

Uned orfodol 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed**<br><br>**MPA 1.1** | 1 | **Datblygiad 0-19 oed a'r ffordd mae meysydd yn cydberthyn fel rhan o ddatblygiad cyfannol**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Trafod pa mor bwysig ydyw bod ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am gyfnodau cyffredinol datblygiad 0-19 oed a'r ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad.<br><br>Symud ymlaen i ddatblygu gwybodaeth dysgwr am ddatblygiad cyfannol 0-19 oed a'r patrymau disgwyliedig a'r amrywiaeth o gerrig milltir datblygiadol, gan gynnwys: datblygiad corfforol, datblygiad deallusol, datblygiad ieithyddol, lleferydd a chyfathrebu, datblygiad emosiynol a chymdeithasol.<br><br>Trafod y meysydd datblygiad a'r modd y maent yn cydberthyn. Sicrhau bod trafodaeth y dosbarth yn canolbwyntio ar feysydd datblygiad plant, patrymau cyffredinol twf a datblygiad, a'r amrywiaeth o newidiadau datblygu cymdeithasol a chyfnodau trawsnewid a brofir gan blant 0-19 oed. Trafod manteision rhyngweithio cymdeithasol trwy amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd dysgu cymdeithasol e.e. amgylchedd y cartref, lleoliadau gofal plant, lleoliadau addysgol, amgylcheddau chwaraeon a hamdden ac ati. | Cardiau didoli lliw ar gyfer pob grŵp oedran (5) gydag enghreifftiau<br><br>Papur A3 mawr a phennau lliw ar gyfer cynlluniau siart cerrig milltir | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Bydd y dysgwyr yn datblygu siart datblygiad cerrig milltir ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgwyliedig plant 0-19 oed |

© WJEC CBAC Ltd.

**Gweithgaredd:**

Bydd y dysgwyr yn creu cardiau didoli mewn grwpiau bach i ddosbarthu ystod o oedrannau a cherrig milltir datblygiad cymdeithasol disgwyliedig e.e.:

- 0-2 oed: mynegiannau wyneb o emosiwn, pryder rhag dieithriaid
- 3-6 oed: datblygu dychymyg, cyfeillgarwch cymdeithasol
- 7-11 oed: datblygu cysyniad o ymddygiad cymdeithasol a moesau
- 12-15 oed: datblygu hunaniaeth, syniadau o dderbyn a chydymffurfio
- 16-19 oed: newid mewn perthnasoedd personol a pherthnasoedd rhywedd, datblygu annibyniaeth a chyfrifoldeb mewn ymddygiad cymdeithasol personol ac ati.

Pob grŵp i grynhoi ac adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth.

**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**

- Pa wahaniaethau fyddech chi'n disgwyl eu gweld yn anghenion datblygiad cymdeithasol plant? Cymharwch y disgwyliadau o ran datblygiad cymdeithasol plentyn dwyflwydd oed â rhai plant chwe blwydd oed, er enghraifft. Beth yw'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn?
- Pa gyfnodau o newid neu drawsnewid sy'n gallu digwydd ym mywyd plentyn i gael effaith ar ei ddatblygiad cymdeithasol e.e. grwpiau cyfoedion, cyfeillgarwch, teulu, lleoliadau a gweithgareddau grŵp?

**Tasg Asesu:**

Bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn datblygu siart datblygiad cerrig milltir ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgwyliedig plant 0-19 oed. Nodi manteision rhyngweithio cymdeithasol drwy amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd dysgu cymdeithasol e.e. plant 0-2 oed, 3-6 oed, 7-11 oed, 12-15 oed ac 16-19 oed.

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed**<br><br>**MPA 1.1** | 2 | Canolbwyntio ar yr amrywiaeth o **gerrig milltir datblygiad emosiynol** mewn plant 0-19 oed. Trafod yr amrywiaeth o brofiadau ar gyfnodau gwahanol gan gynnwys datblygu'r gallu i gydnabod, mynegi a rheoli teimladau ar gyfnodau gwahanol yn ystod plentyndod a llencyndod e.e. meithrin strategaethau ar gyfer dealltwriaeth gymdeithasol, bod ag empathi tuag at eraill, rheoli sefyllfaoedd emosiynol, profiadau cadarnhaol a negyddol ac ati.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Pa weithgareddau ydych chi'n awgrymu fydd yn helpu plant i fynegi eu teimladau? Rhestrwch ac esboniwch eich dewis.<br>• Pa fath o weithgareddau sy'n gallu helpu i wella perthnasoedd plant a'u helpu i feithrin gwydnwch? Rhestrwch ac esboniwch eich dewis.<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Mewn grwpiau, bydd dysgwyr yn trafod amrywiaeth o strategaethau cefnogol ar gyfer datblygiad emosiynol plant ac yn ychwanegu syniadau at y taflenni A3 sydd wedi'u gosod ar bob bwrdd, gan ddefnyddio ffotograffau o blant i gefnogi trafodaethau. Gall y strategaethau ymwneud â phrofiadau, mentrau neu raglenni a ddefnyddir o fewn ymarfer e.e. cefnogi plant trwy roi sicrwydd, rhoi cysur, meithrin gwydnwch, amser cylch, cyfleoedd i fynegi meddyliau a theimladau, cefnogi iechyd meddwl, gorbryder, cyfeillgarwch, amgylchiadau teuluol ac ati.<br><br>Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp: un grŵp oedran wedi'i ddyrannu fesul grŵp: pen lliw gwahanol ar gyfer pob grŵp. | Taflenni A3 a phennau lliw (5) ar gyfer gweithgaredd grŵp<br><br>Papur A3 mawr a phennau lliw ar gyfer cynlluniau siart cerrig milltir<br><br>Amrywiaeth o luniau o blant o oedrannau gwahanol i gynorthwyo trafodaeth | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob grŵp i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgaredd. Adborth a chyfraniad i'r dasg a thrafodaeth gyda safbwyntiau pellach<br><br>Cwblhau siart cerrig milltir datblygiad unigol a rôl yr oedolyn wrth gefnogi datblygiad emosiynol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd y dysgwyr yn cylchdroi yn eu grwpiau bob pum munud ac yn ailadrodd y broses gan ddefnyddio eu pen lliw eu hunain nes eu bod wedi trafod pob grŵp oedran a bod syniadau wedi'u nodi gan bob grŵp. Parhau nes i bob grŵp gyrraedd ei fwrdd gwreiddiol eto. Gall pob grŵp rannu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hybu llesiant a datblygiad emosiynol plant o'r gweithgaredd. Rhoi adborth ar gyfraniad pob grŵp i'r dasg a thrafod unrhyw safbwyntiau pellach. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd:**<br><br>Bydd y dysgwyr yn cwblhau siart cerrig milltir datblygiad ar gyfer disgwyliadau emosiynol e.e.<br><br>• 0-2 oed: ymlyniad emosiynol wrth wrthrychau neu deganau cysur<br>• 3-6 oed: ymdeimlad elfennol o'r hunan, datblygu hunan-barch<br>• 7-11 oed: meithrin strategaethau ar gyfer rheoli rhwystredigaeth a mynegi emosiynau<br>• 12-15 oed: gwrthod safbwyntiau rhieni, hunanymwybodol o ddelwedd y corff<br>• 16-19 oed: archwilio gwerthoedd, credoau a ffurfio hunaniaeth emosiynol, cymryd rhan mewn profiadau emosiynol mentrus ac ati.<br><br>Gan ddefnyddio'r adborth o gyfraniad y grŵp, trafodwch a nodwch rôl yr oedolyn wrth gefnogi plant trwy amrywiaeth o brofiadau i annog datblygiad emosiynol cadarnhaol plant. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed**<br><br>**MPA 1.1** | 3 | Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o holl feysydd **datblygiad deallusol**. Meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o ddatblygiad cyfannol plant 0-19 oed. Sicrhau bod y dysgu yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad gwybyddol deallusol plant 0-19 oed: datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd.<br><br>Trafod yr amrywiaeth o newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i dyfu, profiadau a chyfleoedd yn ystod plentyndod e.e. gwneud synnwyr o'r byd, rhoi trefn ar syniadau a meddyliau, ymresymu a datrys problemau, canfyddiad a'r cof, deall a gwerthuso cysyniadau, talu sylw a sgiliau rhyngbersonol ac ati a'r patrymau datblygu annodweddiadol a ddisgwylir yn yr amrywiaeth o gerrig milltir datblygiadol.<br><br>Mae plant ac oedolion, fel unigolion, yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol a thrwy arddulliau dysgu gwahanol. Cwblhau holiadur (VARK) er mwyn pennu dealltwriaeth o arddulliau dysgu unigol. Trafod y ffyrdd gwahanol o ddysgu, gweledol, clywedol, darllen/ysgrifennu, cinesthetig neu amlfodd ac ati.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Ym mha ffordd mae'n well gennych chi ddysgu?<br>• Sut byddai modd dysgu yn y ffordd hon yn ymarferol?<br>• Pe bai angen i chi ateb her ymarferol, fel rhoi darn o ddodrefn fflat pac at ei gilydd, sut byddech yn mynd ati i wneud hyn a pham? Trafodwch â'ch myfyrwyr a fyddent yn defnyddio dull profi a methu, yn ystyried diagramau ac yn mynd i'r afael â'r gwaith gosod mewn ffordd resymegol, yn ceisio cyngor a thawelwch meddwl, neu'n gosod yr holl rannau allan a chynllunio'r dull o'i osod? Pa ddull fyddai orau er mwyn ateb yr her a pham? | Taflen ar arddulliau dysgu a chwestiynau cyffredin ar gyfer y gweithgaredd.<br><br>Holiadur (VARK) gweledol, clywedol, darllen/ysgrifennu, cinesthetig neu amlfodd<br><br>Her ymarferol fel rhoi darn o ddodrefn fflat pac at ei gilydd – delweddau a darluniau ar gyfer y dull<br><br>Enghreifftiau o amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau er mwyn cefnogi datblygiad deallusol plant | Rhoi adborth i'r dosbarth er mwyn cynnal trafodaeth bellach ar fanteision cefnogi datblygiad deallusol plant drwy amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Grwpiau o ddysgwyr i wneud nodiadau er mwyn rhoi adborth ar eu safbwyntiau a datblygu ymhellach eu syniadau drwy drafodaeth dosbarth cyfan<br><br>Dysgwyr i lunio crynodeb o werth ymgysylltu â thestun newydd i bobl ifanc, a manteision meithrin gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygwch syniadau ynghylch y rhyngweithio rhwng plant ac oedolion sy'n sbarduno datblygiad deallusol, i oedolion ddarparu atebion clir, esboniadau, cwestiynau, cliwiau, cywiriadau ac ati er mwyn cynorthwyo a datblygu dealltwriaeth bellach drwy broses weithredol.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Mewn grwpiau bach bydd dysgwyr yn trafod yr amrywiaeth o weithgareddau neu adnoddau datblygu deallusol sydd ar gael yn eu lleoliad. Ystyriwch a thrafodwch y ffordd mae'r gweithgareddau a'r adnoddau hyn yn sail i ddysgu ac yn cefnogi dealltwriaeth ar gyfer datblygiad deallusol plant, gan ystyried yn ofalus y patrymau datblygu annodweddiadol a ddisgwylir ymhlith plant 0-19 oed. Rhoi adborth i'r dosbarth er mwyn cynnal trafodaeth bellach ar fanteision cefnogi datblygiad deallusol plant drwy amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch un o'r tasgau isod (1, 2, 3) i bob grŵp i'w thrafod a'i chwblhau. Pob grŵp i wneud nodiadau er mwyn rhoi adborth ar ei safbwyntiau a datblygu ymhellach ei syniadau drwy drafodaeth dosbarth cyfan. Rhowch amser penodol i gynnal trafodaethau cyn cael y myfyrwyr i ddechrau ar y dasg nesaf i gwmpasu ystod oedran plant cynradd sef 0-11 oed, plant a phobl ifanc oedran uwchradd 11-19 oed a, gyda'i gilydd, plant a phobl ifanc 0-19 oed.<br><br>Tasgau:<br><br>1) Trafodwch bwysigrwydd dysgu deallusol fel proses weithredol, lle mae angen i blant feithrin eu gwybodaeth eu hunain drwy eu profiadau eu hunain, yn hytrach na chael gwybod sut mae pethau yn gweithio, a datblygiad a phroses dysgu i greu proses ystyrlon. | | Dysgwyr i wneud nodiadau yn seiliedig ar dasgau gweithgareddau i roi adborth ar eu safbwyntiau ynghylch eu syniadau, a'u datblygu ymhellach, drwy drafodaeth dosbarth cyfan |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dysgwyr i ddarparu cyfleoedd drwy greu cynllun gweithgarwch profiadau dysgu ymarferol i blant e.e. banc, swyddfa bost, caffi ac ati yn y dosbarth er mwyn gwerthuso pwysigrwydd cynnwys plant mewn cyfleoedd dysgu deallusol ystyrlon e.e. 0-10 oed<br><br>2) Mewn grwpiau gall y dysgwyr greu crynodeb o werth cael pobl ifanc i ymddiddori mewn testun newydd, a manteision meithrin gwybodaeth drwy amrywiaeth o ffyrdd gwahanol e.e. adrodd stori, fideo, efelychu, senario neu brofiadau ymarferol, a sut gall y dulliau hyn gefnogi dealltwriaeth a chysyniadau. Gallai'r dysgwyr ddefnyddio enghreifftiau personol neu gyfeirio at wybodaeth er mwyn trafod amgylcheddau dysgu amrywiol i wella profiadau dysgu deallusol 11-19 oed.<br><br>3) Trafodwch bwysigrwydd sicrhau bod plant yn profi gweithgareddau ar sail unigol, neu mewn grŵp neu dîm, mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol er mwyn cefnogi eu datblygiad deallusol, a sut mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn profiadau newydd drwy leoliadau addysgol, profiadau dysgu ffurfiannol a gweithgareddau hamdden. E.e. pwysigrwydd dysgu yn y cartref drwy arweiniad rhiant/gofalwr a chymorth deallusol. Gall y dysgwyr greu siart ar yr amgylcheddau gwahanol y gall plant a phobl ifanc eu profi a'r manteision i'w datblygiad deallusol fel y disgwylir ar gyfer eu hoedran a cham datblygu 0-19 oed.<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau i roi adborth ar eu safbwyntiau a datblygu ymhellach eu syniadau drwy drafodaeth dosbarth cyfan. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed**<br><br>**MPA 1.1** | 4 | Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o bob maes datblygu 0-19 oed o ran **datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu, gan gynnwys dwyieithrwydd, amlieithrwydd a chaffael iaith**. Trafod gwerth datblygu iaith a chyfathrebu yn gynnar wrth gefnogi plant drwy gamau sylfaenol ymddangosiad iaith, rhuglder a chaffael iaith.<br><br>Datblygu dealltwriaeth o gamau hanfodol datblygu ac amgyffred sgiliau iaith a lleferydd, caffael iaith ac iaith sy'n aeddfedu. Datblygu gwybodaeth am ddatblygiad lleferydd a chyfathrebu, gan gynnwys dwyieithrwydd, amlieithrwydd a chaffael iaith drwy amlygiad i olygfeydd, synau cyfoethog, amrywiaeth o eirfa, iaith a lleferydd er mwyn galluogi plant i ddysgu.<br><br>Trafod pwysigrwydd ennyn hyder plant i ddefnyddio sgiliau dwyieithog ac amlieithog bob dydd er mwyn cyfoethogi profiadau cyfathrebu'r plant a gwella'r amgylchedd dysgu.<br><br>Trafod yr effaith ar ddatblygiad cyfannol lle gall fod pryderon am sgiliau cyfathrebu plant drwy werthuso datblygiad cyffredinol a darparu cymorth priodol yn yr ystafell ddosbarth neu geisio ymyrraeth gynnar ac asesiadau proffesiynol.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Sut mae iaith a lleferydd yn datblygu?<br>• Beth yw rôl oedolion o ran cefnogi sgiliau iaith?<br>• Beth yw'r cerrig milltir disgwyliedig o ran datblygu iaith a lleferydd? | Taflenni gwybodaeth ar ddatblygu dwyieithrwydd ac amlieithrwydd | Datblygwch restr wirio a all gael ei defnyddio i asesu datblygiad iaith a lleferydd plant drwy amrywiaeth o oedrannau a chamau datblygu.<br><br>Trafodaeth ymhlith y dysgwyr ac adborth i'r dosbarth er mwyn trafod ymhellach fanteision profiadau a gweithgareddau cyfathrebu a datblygu iaith.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth yn seiliedig ar bwysigrwydd sicrhau bod plant yn profi gweithgareddau fel unigolyn, ac mewn grŵp neu dîm mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sut y gellir effeithio ar iaith neu leferydd mewn plant?<br>• Pa gymorth sydd ar gael i blant nad yw eu hiaith na'u lleferydd yn datblygu yn ôl y disgwyl?<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Datblygwch restr wirio y gellir ei defnyddio i asesu datblygiad iaith a lleferydd plant drwy amrywiaeth o oedrannau a chamau datblygu, er enghraifft:<br><br>Geni i dri mis – yn gwenu pan fydd yn gweld wyneb cyfarwydd, yn ymdawelu pan siaredir ag ef neu hi, yn rhoi'r gorau i fwydo wrth ymateb i synau neu'n ymateb i synau uchel ac ati.<br><br>Dwy neu dair oed – yn defnyddio ymadroddion dau neu dri gair, yn siarad mewn ffordd y gall teulu a ffrindiau ei deall, yn enwi gwrthrychau er mwyn gofyn amdanynt neu'n tynnu sylw atynt ac ati.<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Trafodwch fanteision rhoi cyfleoedd i blant 0-19 oed drwy brofiadau mewn lleoliadau addysgol, profiadau dysgu ffurfiannol a gweithgareddau hamdden.<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach er mwyn trafod pwysigrwydd galluogi plant i brofi gweithgareddau fel unigolyn, neu mewn grŵp neu dîm, mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol, er mwyn nodi sut mae'r cyfleoedd a'r profiadau hyn yn gallu hyrwyddo datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu. Cefnogi ymwybyddiaeth a datblygu dwyieithrwydd, amlieithrwydd a chaffael iaith, e.e. dysgu yn y cartref drwy gymorth rhiant/gofalwr er mwyn dysgu ieithoedd newydd a chael profiadau diwylliannol drwy deithio. Gall y grwpiau roi adborth i'r dosbarth er mwyn trafod ymhellach fanteision profiadau a gweithgareddau datblygu iaith a chyfathrebu. | | Dysgwyr i nodi sut mae'r cyfleoedd a'r profiadau hyn yn gallu hybu datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.<br><br>Cefnogi ymwybyddiaeth a datblygu dwyieithrwydd, amlieithrwydd a chaffael iaith. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed**<br><br>**MPA 1.1** | 5 | Canolbwyntiwch ar fyfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth o **dwf a datblygiad corfforol** plant 0-19 oed, a sut mae'r camau datblygu hyn yn rhyng-gysylltu â datblygiad cyfannol plant.<br><br>Trafodwch y dilyniannau a'r camau datblygu a'r ffordd mae twf a datblygiad plant, mewn amgylchiadau annodweddiadol, yn barhaus ac yn mynd rhagddynt ar sail patrwm arferol neu ddisgwyliedig.<br><br>Trafodwch y derminoleg ac ystyr sgiliau echddygol bras a manwl, cydsymud, cydbwysedd, deheurwydd byseddu, sgiliau llawdrin ac ymwybyddiaeth ofodol ac ati gan ddefnyddio amrywiaeth o gardiau a delweddau gweithgareddau.<br><br>Canolbwyntiwch ar newidiadau a datblygiad oedran benodol e.e. 0-3 oed, 11 mis, 4-8 oed, 11 mis, 9-12 oed, 11 mis, 13-19 oed. Dysgu yn yr ystafell ddosbarth er mwyn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth dysgwyr o ddisgwyliadau datblygu corfforol drwy oedrannau a chamau 0-19 oed.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Pa weithgareddau fyddai'n addas i blentyn dwy oed er mwyn datblygu ei sgiliau echddygol bras?<br>• Sut y gall plentyn pedair oed ddatblygu ei sgiliau echddygol manwl?<br>• Sut y gallai oedolyn gefnogi plentyn chwech oed i ddatblygu ei sgiliau cydsymud a chydbwyso? | Setiau o luniau o blant o wahanol oedran yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol<br><br>Nodiadau gludiog<br><br>Cardiau terminoleg a delweddau o weithgareddau | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Tasg ymchwil unigol er mwyn cwblhau llinell amser blwyddyn ar ôl blwyddyn o ddatblygiad corfforol disgwyliedig plant 0-19 oed<br><br>Dysgwyr i drafod sgiliau a galluoedd disgwyliedig y plant a'u galluoedd corfforol. Trafod cerrig milltir disgwyliedig y plant ar gyfer eu hoedrannau.<br><br>Dysgwyr i ddynodi pa sgiliau maent yn gallu gweld y plant yn eu defnyddio a chymhwyso'r amrywiaeth o derminoleg briodol ar gyfer sgiliau datblygu corfforol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i weithio ar dasg ymchwil unigol er mwyn cwblhau llinell amser blwyddyn ar ôl blwyddyn o ddatblygiad corfforol disgwyliedig plant 0-19 oed.<br><br>Rhoi adborth i'r dosbarth er mwyn trafod ymhellach yr amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau a fyddai'n cefnogi plant drwy gamau datblygu corfforol. Trafodaeth dosbarth cyfan ynghylch rôl oedolion sydd ynghlwm wrth annog a chefnogi datblygiad plant.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Rhoi set o luniau i grwpiau o ddysgwyr o blant o oedrannau gwahanol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol; gan gynnwys sgiliau echddygol bras a manwl. Bydd pob llun yn nodi ystod oedran y plant.<br>Dysgwyr i drafod sgiliau a galluoedd disgwyliedig y plant a'u galluoedd corfforol. Anogwch drafodaeth o gerrig milltir disgwyliedig y plant ar gyfer eu hoedran. Rhowch nodiadau gludiog i'r dysgwyr er mwyn dynodi pa sgiliau y gallant weld y plant yn eu defnyddio yn y lluniau, gan gymhwyso'r amrywiaeth o derminoleg briodol ar gyfer sgiliau datblygu corfforol. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed**<br><br>**MPA 1.1** | 6 | Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o bob maes datblygu 0-19 oed a datblygiad sgiliau cymdeithasol, gan gynnwys datblygiad ymddygiadol a moesol.<br><br>Canolbwyntiwch ar yr amrywiaeth o gerrig milltir **datblygiad** cymdeithasol mewn plant. Trafodwch yr amrywiaeth o brofiadau ar wahanol gamau, gan gynnwys datblygiad iach cyfeillgarwch, sgiliau rhyngbersonol, a galluoedd cymdeithasol.<br><br>Trafodwch y materion o ran ymddygiadau plant sydd â sgiliau cymdeithasol cadarnhaol a'r rhai sy'n gweld eu hunain neu eraill mewn ffordd negyddol; a all effeithio ar eu cyfeillgarwch a dewisiadau moesol.<br><br>Canolbwyntiwch ar y broses lle mae plentyn yn dysgu sut i ryngweithio ag eraill o'i amgylch wrth iddo ddatblygu ei gymeriad unigol ei hun a'i gydnabod, megis ei hoff bethau a'i gas bethau, a datblygu ei foesau a'i werthoedd personol.<br><br>Trafodwch y cysylltiadau â meysydd datblygu eraill a sut mae pob maes datblygu yn cydberthyn.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Sut y gall rhieni/gofalwyr gefnogi datblygiad cymdeithasol plentyn cyn ysgol?<br>• Beth y gallai oedolion ei wneud i fodelu sgiliau rhyngweithio cadarnhaol ag eraill o'u hamgylch?<br>• Sut y gall oedolion annog ymddygiadau cymdeithasol cadarnhaol mewn plant ysgol gynradd? | Coeden cyfeillgarwch templed | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth am y cysylltiadau â meysydd datblygu eraill a sut mae pob maes datblygu yn cydberthyn<br><br>Datblygu syniadau yn seiliedig ar bwysigrwydd hunanbarch cadarnhaol a goblygiadau hunan-barch isel i berthnasoedd a sgiliau cymdeithasol<br><br>Y strategaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi unrhyw anawsterau ac annog derbyn |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gall y glasoed wrthod barn oedolion o'u hamgylch. Sut y gellir goresgyn hyn er mwyn cefnogi dewisiadau cymdeithasol cadarnhaol?<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Trafodwch amrywiaeth o faterion cymdeithasol, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a all godi drwy amrywiaeth o oedrannau mewn plant 0-19 oed.<br><br>Canolbwyntiwch ar arddulliau/anghenion ymlyniad a'u dylanwad ar ddatblygiad.<br><br>Datblygwch syniadau ynghylch pwysigrwydd hunanbarch cadarnhaol, goblygiadau hunan-barch isel i berthnasoedd a sgiliau cymdeithasol, a'r strategaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi unrhyw anawsterau ac annog derbyn.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Ewch ati i greu coeden cyfeillgarwch er mwyn dangos twf perthnasoedd cymdeithasol plant a changhennau perthnasoedd cymdeithasol y gall plant eu datblygu h.y. drwy amgylchedd cartref y plentyn, teulu, ffrindiau, lleoliadau gofal plant, clybiau ieuenctid, lleoliadau addysg, amgylcheddau hamdden ac ati.<br><br>Trafodwch y patrymau cyffredinol y mae plant yn eu datblygu drwy ryngweithio ag eraill e.e.<br><br>• sut mae plant yn gwneud ffrindiau ar wahanol oedrannau a chamau<br>• pa fath o gyfeillgarwch y gallant ei feithrin ar wahanol oedrannau a chamau<br>• sut mae'r perthnasoedd hyn yn newid wrth i'r plentyn ddatblygu drwy wahanol oedrannau a chamau. | | Ewch ati i greu coeden cyfeillgarwch er mwyn dangos twf perthnasoedd cymdeithasol plant h.y. drwy amgylchedd cartref y plentyn, teulu, ffrindiau, lleoliadau gofal plant, clybiau ieuenctid, lleoliadau addysg, amgylcheddau hamdden ac ati.<br><br>Trafodaeth ynghylch y patrymau cyffredinol y mae plant yn eu datblygu drwy ryngweithio ag eraill. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ystyriwch yr awgrym nad yw cyfeillgarwch plant ond yn arwyddocaol yn ystod plentyndod ond y gall ragfynegi eu cyfeillgarwch a rhyngweithio cymdeithasol fel oedolion.<br><br>Gwnewch yn siŵr bod y trafodaethau yn canolbwyntio ar ddylanwad perthnasoedd rhieni/gofalwyr fel cynghorwyr moesol ac atgyfnerthwyr gwerth, a pherthnasedd darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhyngweithio'n gymdeithasol.<br><br>Datblygwch drafodaethau grŵp ynghylch dylanwad oedolion fel modelau rôl i blant a'r effaith mae oedolion yn ei chael ar ffurfio perthnasoedd ymhlith plant. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol o'r cenhedliad i 19 oed**<br><br>**MPA 1.2** | 7 | Cyflwynwch bwysigrwydd **gofal cyn cenhedlu ac ôl-genhedlu** priodol yn ystod beichiogrwydd er mwyn cefnogi datblygiad plentyn o'i genhedliad ymlaen.<br><br>Trafodwch y ffactorau sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol plentyn a rhieni e.e. cefnogi rhieni cyn cenhedlu i fod mor iach yn gorfforol ac yn feddyliol â phosibl yn barod i feichiogi h.y. deiet digonol, maeth, atchwanegion, ymwybyddiaeth o fwydydd risg uchel. Pwysigrwydd gofal meddygol priodol ar gyfer gwiriadau sgrinio monitro rheolaidd ac afreolaidd.<br><br>Canolbwyntiwch ar baratoi ar gyfer beichiogrwydd fel yr argymhellir gan ganllawiau'r GIG i wella'r siawns o gael beichiogrwydd iach h.y.<br>• cymryd y tabledi asid ffolig a argymhellir wrth gynllunio i feichiogi ac yn ystod y 12 wythnos gyntaf er mwyn lleihau'r risg o ddiffygion tiwb niwrol megis spina bifida<br>• rhoi'r gorau i smygu oherwydd y cysylltiadau ag amrywiaeth o broblemau iechyd h.y. genedigaeth gynamserol, pwysau geni isel, anawsterau anadlu ac ati<br>• rhoi'r gorau i yfed alcohol. Mae alcohol yn cael ei drosglwyddo i'r baban yn y groth a all arwain at niwed hirdymor ac anawsterau datblygu<br>• cynnal pwysau iach h.y. gostwng BMI er mwyn gwella'r siawns o ffrwythloni a bod yn iachach yn gorfforol yn ystod beichiogrwydd<br>• trafod unrhyw feddyginiaethau a ragnodir neu a geir dros y cownter â'r fferyllydd neu'r meddyg teulu er mwyn lleihau'r risg i'r baban yn y groth ac ati<br>• profion sgrinio h.y. clefyd cryman-gell, thalassaemia. | Taflenni ar baratoi ar gyfer beichiogrwydd fel yr argymhellir gan ganllawiau'r GIG i wella'r siawns o gael beichiogrwydd iach<br>• iechyd corfforol ac iechyd meddwl<br>• deiet<br>• maeth<br>• atchwanegion<br>• ymwybyddiaeth o fwydydd risg uchel<br>• gofal meddygol priodol<br>• monitro rheolaidd ac afreolaidd<br>• gwiriadau sgrinio | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafod y ffactorau a all effeithio ar y siawns o feichiogi a gofal cyn cenhedlu<br><br>Ewch ati i greu taflen ffeithiau ar ofal cyn cenhedlu er mwyn hyrwyddo manteision iechyd a llesiant cadarnhaol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodwch y ffactorau a all effeithio ar y siawns o feichiogi a gofal cyn cenhedlu h.y.<br>• ymwybyddiaeth o risgiau camddefnyddio sylweddau a risgiau diffygion geni<br>• iechyd rhywiol a deall dulliau atal cenhedlu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol<br>• ymwybyddiaeth o newidiadau i'r corff, maeth a hydradu digonol<br>• amgylchedd cymdeithasol, perthnasoedd a modelau rôl priodol, sefydlogrwydd a sicrwydd.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Beth a argymhellir fel lefelau maeth a hydradu digonol yn ystod beichiogrwydd?<br>• Pa fwydydd a ystyrir yn rhai risg uchel a pham?<br>• Pa bryderon fyddai gennych am gwpwl mewn perthynas anwadal neu dreisgar? Sut y gallai hyn effeithio ar y baban yn y groth?<br>• Sut y byddai camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar y baban yn y groth? Beth fyddai'r effaith bosibl ar y plentyn yn dilyn genedigaeth?<br>• Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i gwpwl o ran gofal cyn cenhedlu cadarnhaol?<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Ewch ati i lunio taflen ffeithiau ar ofal cyn cenhedlu er mwyn hyrwyddo manteision iechyd a llesiant cadarnhaol; i helpu unrhyw ddarpar rieni i asesu eu hiechyd, ffitrwydd a ffordd o fyw, a nodi cyfleoedd i wella. Defnyddiwch ffynonellau gwybodaeth pellach ar gyfer cymorth ac arweiniad. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol o'r cenhedliad i 19 oed**<br><br>**MPA 1.2** | 8 | **Gofal ôl-genhedlu** priodol yn ystod beichiogrwydd er mwyn cefnogi datblygiad plentyn o'i genhedliad ymlaen.<br><br>Trafodwch yr amrywiaeth o ffactorau a all gael eu cymhwyso i hyrwyddo iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol plentyn.<br><br>Canolbwyntiwch ar yr amrywiaeth o ddisgwyliadau iechyd a newidiadau corfforol yn ystod beichiogrwydd:<br>• cadw'n iach a heini<br>• maeth a hydradu priodol h.y. osgoi bwydydd risg uchel<br>• gofal yn ystod beichiogrwydd (cynenedigol) a datblygiad y baban yn y groth<br>• brechiadau yn ystod beichiogrwydd h.y. brechlyn ffliw a brechlyn y pas<br>• cael gwiriadau rheolaidd ac afreolaidd h.y. sganiau uwchsain, profion gwaed a gwiriadau sgrinio ac ati<br>• trafodwch y paratoadau emosiynol a chorfforol ar gyfer rhoi genedigaeth, yr ymwybyddiaeth o iechyd meddwl rhieni, a'r cymorth sydd ar gael iddynt, yn dilyn genedigaeth eu baban.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>Trafodwch arwyddocâd beichiogrwydd o ran llesiant corfforol a meddyliol y fam a all gael effaith gydol oes ar lesiant a datblygiad y plentyn.<br>• Sut y gall iechyd a llesiant meddyliol mam effeithio ar ddatblygiad y plentyn?<br>• Pa ffactorau all beri risg o niwed i blentyn?<br>• Mae beichiogrwydd heb ei gynllunio ymhlith y glasoed wedi lleihau'n sylweddol am fod mwy o addysg rhyw a pherthnasoedd ar gael. Beth yw manteision y newid hwn? | **Darparwch daflenni ffeithiau fel deunydd darllen pellach:**<br><br>Cadw'n iach a heini<br><br>Maeth a hydradu priodol<br><br>Bwydydd risg uchel<br><br>Gofal yn ystod beichiogrwydd (cynenedigol) a datblygiad y baban yn y groth<br><br>Brechiadau yn ystod beichiogrwydd<br><br>Cael gwiriadau rheolaidd ac afreolaidd | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i ymchwilio'n unigol i fanteision gwella gallu gwasanaethau i gefnogi a grymuso rhieni a theuluoedd i ofalu amdanynt eu hunain a'u plant, dull y strategaeth 1,000 o ddiwrnodau cyntaf a chanfyddiadau'r adborth i'r dosbarth i drafod ymhellach<br><br>Dysgwyr i roi trosolwg o lefelau ymyrryd Rhaglen Plant Iach Cymru a gynigir i deuluoedd yn dilyn asesiad o wydnwch ac angen |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Amlinellwch effaith y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf o fywyd o genhedlu i ddwy flwydd oed. Mae cymorth ac ymyrraeth broffesiynol yn ystod 1,000 o ddiwrnodau cyntaf plentyn yn hanfodol er mwyn gwella bywyd plentyn lle gall fod yn profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio'n unigol i fanteision gwella gallu gwasanaethau i gefnogi a grymuso rhieni a theuluoedd i ofalu amdanynt eu hunain a'u plant, dull y strategaeth 1,000 o ddiwrnodau cyntaf a chanfyddiadau'r adborth i'r dosbarth i drafod ymhellach.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Nod Rhaglen Plant Iach Cymru yw gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau drwy waith atal ac ymyrryd yn gynnar, a noda'r amserlen gyffredinol ar gyfer sgrinio, imiwneiddio a monitro a chefnogi datblygiad plant drwy gysylltiadau a drefnir â phlant 0-7 oed.<br><br>Dysgwyr i greu llinell amser mewn grwpiau sy'n adlewyrchu'r hyn y gall pob plentyn a rhiant ddisgwyl ei gael h.y. sgrinio smotiau gwaed yn 5 diwrnod oed, sgrinio clyw babanod newydd o fewn pedair wythnos yn dilyn genedigaeth ac ati.<br><br>Dysgwyr i roi trosolwg o lefelau ymyrryd Rhaglen Plant Iach Cymru a gynigir i deuluoedd yn dilyn asesiad o wydnwch ac angen h.y. darpariaeth gyffredinol, uwch a dwys, er mwyn gwella iechyd a llesiant plant a'u teuluoedd drwy ddarparu cymorth a chyngor datblygedig ac uwch. | **Crynodeb o'r canlynol ar gyfer trosolwg gan y dosbarth: trosolwg:**<br><br>1,000 o ddiwrnodau cyntaf mewn bywyd Rhaglen Cymru (Rhaglen Plant Iach Cymru)<br><br>Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (*Adverse Childhood Experiences:* ACEs) | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol o'r cenhedliad i 19 oed**<br><br>**MPA 1.2** | 9 | Datblygwch drafodaethau am y **cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol** a sut maent yn cefnogi iechyd, datblygiad cadarnhaol a llesiant o genhedliad i 19 oed.<br><br>Cyflwynwch nodau ac amcanion Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru a gwerth cael ysgolion i hyrwyddo, ymgorffori a diogelu iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol cymuned yr ysgol drwy gamau gweithredu cadarnhaol a chyflwyno testunau gwella iechyd:<br><br>• bwyd a ffitrwydd e.e. polisi bwyta'n iach ysgol gyfan, clwb coginio ar ôl ysgol, amseroedd chwarae gweithgar<br>• iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol e.e. mentrau gwrthfwlio, llythrennedd a chymorth emosiynol, grwpiau meithrin, llais y disgybl, gwasanaeth cwnsela'r ysgol<br>• datblygiad personol a pherthnasoedd e.e. addysg rhyw a pherthnasoedd, codi arian/cefnogi elusennau yn y gymuned, grwpiau addysg theatr<br>• defnyddio a chamddefnyddio sylweddau e.e. asiantaethau a chymorth allanol, digwyddiadau ymwybyddiaeth, clinigau galw heibio<br>• amgylchedd e.e. eco ysgolion, cyngor yr ysgol, clybiau garddio, ailgylchu ac arbed ynni<br>• diogelwch e.e. llwybrau diogel i'r ysgol, diogelwch yn yr haul, hyfforddiant cymorth cyntaf<br>• hylendid e.e. mentrau golchi dwylo, rheoli heintiau a chlybiau iechyd ac ati | Taflen gryno ar Gynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Grwpiau ffocws dysgwyr i gynllunio eu cynllun cyflwyno eu hunain ar gyfer y Cynllun Ysgolion Iach<br><br>Dysgwyr i greu amrywiaeth o syniadau ar gyfer gweithgareddau yn yr ysgol er mwyn hyrwyddo, ymgorffori a diogelu iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol cymuned yr ysgol drwy gamau gweithredu cadarnhaol a chyflwyno testunau gwella iechyd |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**

- Beth yw prif nodau y Cynllun Ysgolion Iach?
- Sut y byddai'r Cynllun Ysgolion Iach yn effeithio ar ddatblygiad corfforol plant, neu o fudd iddo?
- Pa fanteision y gellid eu gweld o ran iechyd meddyliol a chymdeithasol plant a staff pan gaiff y Cynllun Ysgolion Iach ei ymgorffori yn null yr ysgol gyfan?

**Tasg Asesu:**

Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau ffocws er mwyn cynllunio eu cynllun cyflwyno eu hunain ar gyfer y Cynllun Ysgolion Iach sy'n briodol ar gyfer amrywiaeth o oedrannau datblygu.

Dysgwyr i ganolbwyntio mewn grwpiau ar newidiadau a datblygiadau oedran benodol. Dynodwch un oedran ar gyfer pob grŵp ffocws e.e. 4-8 oed, 11 mis, 9-12 oed, 11 mis, 13-19 oed.

Ewch ati i greu amrywiaeth o syniadau ar gyfer gweithgareddau yn yr ysgol er mwyn hyrwyddo, ymgorffori a diogelu iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol cymuned yr ysgol drwy gamau gweithredu cadarnhaol a chyflwyno testunau gwella iechyd:

- bwyd a ffitrwydd
- iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol
- datblygiad personol a pherthnasoedd
- defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
- yr amgylchedd
- diogelwch
- hylendid.

Pob grŵp i rannu ei syniadau ar gyfer cynllun cyflwyno Ysgolion Iach i'w trafod ymhellach/datblygu syniadau drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan.

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol o'r cenhedliad i 19 oed**<br><br>**MPA 1.2** | 10 | Datblygwch drafodaethau am y **cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol** a sut maent yn cefnogi iechyd, datblygiad cadarnhaol a llesiant o genhedliad i 19 oed.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y bydd unrhyw ddiweddariadau i gynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol yng Nghymru yn ystod oes y fanyleb yn disodli'r cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol blaenorol:<br><br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 e.e. gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnal eu hannibyniaeth, dewis o ran gofal ac anghenion o ran cymorth<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru – Astudiaeth 2015 o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod e.e. effaith ymddygiadau niweidiol i iechyd oedolion ar blant, risg uwch o ymddygiadau niweidiol i iechyd ymhlith plant, perfformiad isel yn yr ysgol, bod ynghlwm wrth droseddu, gwaith atal a gwella iechyd a llesiant plant, cynyddu cyfleoedd mewn bywyd, lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 e.e. gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, cyflwyno saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni, defnyddio dull cynaliadwy a hirdymor<br>• Polisi a mentrau iechyd yng Nghymru e.e. dyheadau cenedlaethol, mynediad i ofal iechyd, cefnogi gofal cymdeithasol, hunanofal a hybu iechyd, rhaglenni addysg, lleihau anghydraddoldebau iechyd, pryderon iechyd<br>• Polisi addysg a diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru e.e. cwricwlwm i Gymru 2022, nod a diben newid y cwricwlwm, dyfodol llwyddiannus, goblygiadau newid. | Taflen ffeithiau/taflenni gwybodaeth ar gynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol<br><br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru - Astudiaeth 2015 o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Polisi a mentrau iechyd yng Nghymru<br>• Polisi addysg a diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru | Ymchwil grŵp a chyflwyno pob maes a drafodir yn y dosbarth ar sail ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob grŵp i wneud cyflwyniad ar lafar gan ddefnyddio delweddau gweledol, gyda phob aelod o'r grŵp yn cyflwyno rhan gyfartal.<br><br>Cyfleoedd holi ac ateb a thrafod ymhellach drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Pa werth/mantais sydd i'r cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol a drafodwyd i blant a gweithwyr gofal plant?<br>• Pa newidiadau rydych wedi eu gweld ar waith yn seiliedig ar y cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol a drafodwyd?<br><br>**Tasg Asesu:** Ymchwil grŵp a chyflwyno pob maes a drafodir yn y dosbarth ar sail ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-4 dysgwr er mwyn cyflwyno pwyntiau allweddol y cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol a sut maent yn cefnogi iechyd, datblygiad cadarnhaol a llesiant o genhedliad i 19 oed:<br><br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru - Astudiaeth 2015 o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Polisi a mentrau iechyd yng Nghymru<br>• Polisi addysg a diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru<br><br>Pob grŵp i wneud cyflwyniad ar lafar gan ddefnyddio delweddau gweledol, gyda phob aelod o'r grŵp yn cyflwyno rhan gyfartal. Cynigiwch gyfleoedd holi ac ateb a thrafod ymhellach drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Ffactorau cyfoes a chyfredol a'u heffaith ar iechyd a llesiant**<br><br>**MPA 1.3** | 11 | Datblygwch drafodaethau am **ffactorau cyfoes a chyfredol a'u heffaith ar iechyd a llesiant**. Cyflwynwch y syniad o fyw mewn byd heb dechnoleg a sut y byddai hynny'n effeithio ar ein patrymau a'n harferion dyddiol. Mae technoleg yn fodd i gyfathrebu ac mae'n cysylltu pobl ledled y byd. Rydym yn byw mewn byd sydd wedi'i gysylltu gan dechnoleg.<br><br>Trafodwch yr amrywiaeth o dechnoleg a'r effeithiau ar ein bywydau h.y. cymdeithasu, cyfathrebu, cyfleoedd, gwybodaeth a phreifatrwydd ac ati.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Am ba mor hir y gallech fynd heb dechnoleg? Pa bethau atyniadol neu fanteision a all lywio neu gefnogi eich gweithgareddau dyddiol? Pa agweddau ar dechnoleg y gellid eu disgrifio'n negyddol neu'n andwyol a all effeithio ar eich bywyd beunyddiol? Trafodwch ac eglurwch bob cwestiwn.<br>• Sut mae'r cyfryngau torfol yn dylanwadu ar gymdeithas a gwerthoedd cymunedol?<br>• Sut y byddech yn disgrifio effeithiau technoleg ar gyfathrebu mewn cymdeithas fodern?<br>• A yw technoleg yn beth buddiol neu niweidiol mewn lleoliadau addysg?<br><br>Trafodwch a rhannwch adborth ar effaith technoleg ar ddysgu cyfannol e.e. y rhyngrwyd a dyfeisiau cludadwy, rhaglenni cyfrifiadurol rhyngweithiol, apiau digidol ac anrhegion addysgol ac ati a'u heffaith ar iechyd a llesiant plant 0-19 oed. | Dulliau adnabod tîm ar gyfer trafodaeth e.e. bathodynnau enw neu sticeri lliw ar gyfer pob tîm | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad yn ystod adborth i'r dosbarth i'w drafod<br><br>Trafodaeth tîm lle mae'r dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach, ac mae pob myfyriwr yn cael y cyfle i gymryd rhan. Caiff pob tîm amser penodol i ymchwilio, cyflwyno ei ganfyddiadau a safbwyntiau, tystiolaeth ystadegol a ffynonellau gwybodaeth dibynadwy er mwyn cefnogi'r drafodaeth. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd angen i chi sicrhau bod trafodaethau'r dosbarth yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau ffactorau cyfoes a chyfredol ar blant 0-19 oed e.e.<br>• e-ddiogelwch e.e. gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein, grymuso plant i gymryd cyfrifoldeb, diogelu digidol, dwyn hunaniaeth, twyll ar-lein, rheolaethau a gosodiadau preifatrwydd<br>• Magu perthynas amhriodol ar-lein e.e. ystafelloedd sgwrsio ar y we, preifatrwydd ar-lein, cadw'n ddiogel a rhoi gwybod am ohebiaeth amhriodol, cymorth a chyngor, gwybodaeth am sut i godi mater<br>• Y cyfryngau torfol e.e. cyfathrebu â chynulleidfa fawr, codi ymwybyddiaeth o radicaleiddio, argaeledd gwybodaeth, atebion i gwestiynau, gwybodaeth data gyfoethog, darparu llwyfan i leisio barn<br>• Iechyd meddwl e.e. llesiant gwybyddol, ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, anhwylderau hwyliau, gorbryder, iselder<br>• Hunanddelwedd e.e. canfyddiad o'r hunan, hunanbarch, hunanwerth, safbwyntiau dysgedig, cyflawniadau<br>• Meddylfryd twf/ymwybyddiaeth ofalgar e.e. ymroi i gyflawni, gwerthfawrogi dysgu a chyflawni, gwydnwch, bod yn ddigyffro, canolbwyntio ar y foment bresennol.<br><br>Dylech sicrhau bod trafodaethau'r dosbarth yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth o gadw plant yn ddiogel a'r hyn a ystyrir yn amhriodol i blant e.e.<br>• Amlygiad ar-lein i ddeunyddiau amhriodol a gohebiaeth amhriodol ar-lein e.e. delweddau rhywiol neu negeseuon rhywiol, risg o reibwyr rhywiol neu bedoffiliaid, gwybodaeth neu ddelweddau sarhaus neu sy'n peri trallod nad ydynt yn briodol i oedran, defnydd o reolaethau rhieni a chwilio diogel peiriannau chwilio a phorwyr ar-lein, a meithrin gwybodaeth am safleoedd ar-lein er mwyn codi pryderon megis rôl CEOP (Camfanteisio ar Blant ac Amddiffyn Plant Ar-lein) | | Ymchwiliwch a chyflwynwch ddadl ddarbwyllol yn seiliedig ar effeithiau technoleg ar ddatblygiad, llesiant a diogelwch plant |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Seiberfwlio e.e. cynnwys ar-lein sy'n ceisio bygylu/achosi embaras/bod yn fygythiol neu'n ddilornus, rhannu gwybodaeth neu ddelweddau personol neu breifat, mentoriaid ysgol, gwasanaethau cwnsela, dysgu am ffynonellau cymorth megis rôl Internetmatters.org<br>• Cyfryngau cymdeithasol e.e. Technoleg ryngweithiol, llwyfan i greu/rhannu/cymryd rhan mewn rhwydweithiau cymdeithasol, newyddion cymdeithasol, blogio, rhannu cyfryngau, hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu a chyfeillgarwch ar-lein, cyfathrebu ledled y byd, hunanfynegiant drwy gymunedau rhithwir, meithrin gwybodaeth am gyngor a chymorth megis yr UK Safer Internet Centre<br>• Secstio e.e. lluniau/negeseuon rhywiol, ymddygiad peryglus ar-lein, hunanbarch is, amlygiad personol, canlyniadau cyfreithiol a phersonol gweithredoedd, goblygiadau i enw da personol, trallod a sgil effeithiau andwyol, meithrin gwybodaeth am gymorth a chyngor megis rôl llinell gymorth yr NSPCC, rôl Childine.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trefnwch drafodaeth tîm lle mae'r dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach, ac mae pob myfyriwr yn cael y cyfle i gymryd rhan. Sicrhewch nad oes mwy na phum dysgwr ym mhob tîm i gynrychioli dwy ochr y ddadl.<br>Dewiswch fwy nag un drafodaeth i grwpiau mawr.<br>Caiff pob tîm amser penodol i ymchwilio, cyflwyno ei ganfyddiadau a safbwyntiau, tystiolaeth ystadegol a ffynonellau gwybodaeth dibynadwy er mwyn cefnogi'r drafodaeth.<br><br>Agweddau posibl i'w trafod:<br>• A yw technoleg yn rhy gyfleus?<br>• A yw technoleg yn dda i blant? | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • A yw plant yn rhy ddibynnol ar dechnoleg?<br>• A ddylai fod gan bob plentyn ddyfais glyfar? A yw technoleg yn llwyfan diogel ym maes addysg?<br>• A ellir beio technoleg am bryderon iechyd meddwl mewn cymdeithas?<br>• A yw technoleg yn niweidiol i gymdeithas a gwerthoedd cymunedol?<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Ymchwiliwch a chyflwynwch ddadl ddarbwyllol yn seiliedig ar effeithiau technoleg ar ddatblygiad, llesiant a diogelwch plant. Caiff pob grŵp effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol technoleg i'w hystyried.<br><br>Trafodaeth tîm:<br>• athro yn cyflwyno'r cwestiwn i'w drafod gan bob tîm yn ei dro<br>• caiff pob tîm y cyfle i bwyso a mesur<br>• bydd un siaradwr o bob tîm yn cyflwyno ei ddadl, heb fod yn fwy na thair munud, i'r aelod o'r tîm arall<br>• yna rhaid i'r siaradwr ddewis aelod arall o'r tîm i barhau, naill ai drwy ddewis neu godi ei law<br>• dim ond dwywaith y gellir dewis pob aelod o'r tîm fel bod pawb yn cael cyfle i siarad.<br><br>Pan fydd pob aelod o'r tîm wedi cyfrannu, gall y dysgwyr bleidleisio dros y tîm a gyflwynodd y ddadl orau ac sydd wedi eu darbwyllo fwyaf o ran y ffactorau technolegol a'u heffaith ar iechyd a llesiant plant. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 1: Ffactorau cyfoes a chyfredol a'u heffaith ar iechyd a llesiant**<br><br>**MPA 1.3** | 12 | Datblygwch drafodaethau am **ffactorau cyfoes a chyfredol a'u heffaith ar iechyd a llesiant**. Trafodwch yr amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar fywydau plant ac sy'n cyfrannu at dwf a datblygiad plant h.y. maeth, ymddygiadau rhieni/gofalwyr a sgiliau rhianta, arferion cymdeithasol a diwylliannol, profiadau yn ystod plentyndod, ffactorau addysgol ac amgylcheddol e.e.<br>• newidiadau i strwythur teuluol, gofalwyr ifanc, cyfrifoldebau gofalu am aelodau o'r teulu, sefyllfa ariannol, cyfleoedd i gael profiadau newydd, ymlyniad, efelychu, her, canolbwyntio ar gryfderau, datblygu gwydnwch<br>• hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol, adnabod a dathlu amrywiaeth h.y. diwylliant, hunaniaeth a rhywioldeb, crefydd, anghenion ychwanegol.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Ewch ati i greu map meddwl o'r ffactorau cyfoes a chyfredol a'u heffaith ar iechyd a llesiant plant, gan drafod y canlynol fesul dau neu ddwy e.e.<br>• Iechyd a maeth<br>• Ymddygiadau rhieni/gofalwyr a sgiliau rhianta<br>• Bond teuluol ac ymlyniad<br>• Arferion cymdeithasol a diwylliannol<br>• Profiadau plentyndod<br>• Ffactorau addysgol<br>• Ffactorau amgylcheddol<br>• Sefyllfa ariannol. | Papur A3 a phennau lliw | Rhowch adborth a chrynhowch drafodaethau'r map meddwl i'w trafod ymhellach/datblygu syniadau drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan<br><br>Sesiwn holi ac ateb unigol drwy drafodaethau grŵp, pâr ac unigol<br><br>Dysgwyr i lunio taflen ffeithiau i'w rhoi mewn lleoliad gofal plant ac ysgolion yn seiliedig ar ymchwil berthnasol FGM. Nod y daflen ffeithiau yw hysbysu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygwch syniadau drwy ymuno â pharau o ddysgwyr eraill er mwyn trafod ymhellach<br><br>Pob pâr o ddysgwyr i roi adborth a chrynhoi'r trafodaethau map meddwl o'r ffactorau cyfoes a chyfredol a'u heffaith ar iechyd a llesiant plant, i'w trafod ymhellach/datblygu syniadau drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Trafodwch effaith arferion diwylliannol anghyfreithlon ar ferched ac ewch ati i godi ymwybyddiaeth ohonynt –- Iechyd Cyhoeddus Cymru – tîm diogelu cenedlaethol (GIG Cymru) h.y. Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), arferion a gweithdrefnau diwylliannol, nodi a diogelu'r rhai sy'n wynebu risg, goblygiadau i swyddogaethau corfforol a naturiol meinwe genidol a niwed iddynt, torri hawliau dynol, anhwylder straen wedi trawma seicolegol, canlyniadau iechyd hirdymor, y ddyletswydd gyfreithiol a gorfodol i roi gwybod am achosion o FGM sy'n effeithio ar ferched o bob oed (i) Heddlu (ii) atgyfeiriad Amddiffyn Plant.<br><br>Dysgwyr i lunio taflen ffeithiau i'w rhoi mewn lleoliad gofal plant ac ysgolion yn seiliedig ar ymchwil berthnasol FGM. Nod y daflen ffeithiau yw hysbysu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant e.e.<br>• gweithio o dan brotocolau diogelu cenedlaethol i amddiffyn merched o unrhyw oed sy'n wynebu risg<br>• rhwymedigaeth statudol ac adrodd gorfodol<br>• Mae FGM yn fath o gam-drin<br>• niwed corfforol a seicolegol<br>• effeithiau ar iechyd a llesiant<br>• canllawiau amlasiantaethol i amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n wynebu risg neu sydd wedi dioddef FGM<br>• mesurau i atal a helpu i roi diwedd ar arferion FGM<br>• gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

## 4.1 Rhaglen Astudio (yn seiliedig ar tua 6 awr o gyflwyno yr wythnos)

Mae'r rhaglen astudio hon yn cynnig un dull posibl o ddysgu'r cwrs. Ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os oes mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gellir teilwra'r rhaglen i'w harbenigeddau unigol.

Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn mabwysiadu dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

Uned orfodol 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru
Testun 2: Dulliau'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol

(Gellir defnyddio gweithgareddau ac asesiadau ar gyfer gwersi o bell neu wyneb yn wyneb drwy ddefnyddio'r cyfleusterau mewn rhaglenni ar-lein a llwyfannau addysgu – mae'r adran adnoddau wedi'i lleihau i adlewyrchu'r angen am y ddau fformat addysgu)

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 1 | **Dulliau'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol**<br><br>**Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Trafod pwysigrwydd bod gan weithwyr blynyddoedd cynnar wybodaeth gadarn o'r dulliau i gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn ymarferol.<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o nodweddion ymddygiad plant, gan gysylltu â damcaniaethau ymddygiad a datblygu dealltwriaeth o sut mae'r damcaniaethau hyn yn ymwneud ag ymarfer a sut mae modd eu defnyddio i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol.<br><br>Trafod yr amrywiaeth o ffactorau a all effeithio ar ymddygiad plant gan ymwneud â phlant 0-19 oed a'r effaith gadarnhaol y gellir ei hannog drwy weithredoedd ac agweddau cefnogol. | Cardiau ffeithiau anghenion ychwanegol – enghreifftiau | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth ar amrywiaeth o anghenion ychwanegol a sut gallant effeithio ar ymddygiad plant.<br><br>Trafodwch yr amrywiaeth o ffactorau a all effeithio ar ymddygiad plant gan |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad i gynnwys:**<br><br>Trafod amrywiaeth o anghenion ychwanegol a sut gallant effeithio ar ymddygiad plant. Canolbwyntio'r drafodaeth dosbarth ar sut i helpu a chefnogi plant ag anghenion penodol i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Trafod manteision deall anghenion dysgu penodol a sut maent yn effeithio ar ymddygiad ac emosiynau plant.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Mae'n bosibl defnyddio ymddygiadau i guddio anhawster dysgu. Ystyriwch achosion ymddygiad problemus.<br>• Sut gall anghenion arbennig achosi rhwystredigaeth a ffrwydradau emosiynol?<br>• Mae anghenion dysgu ychwanegol yn fater sensitif i blant ac mae'n gallu effeithio'n fawr ar eu hunan-barch. Sut gallai gweithwyr gofal plant helpu plant i oresgyn yr heriau hyn?<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Darparwch ddysgu gyda chardiau ffeithiau llawn gwybodaeth am amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol h.y. ADCG, ADD, Awtistiaeth, Dyslecsia. Dysgwyr i drafod amrywiaeth o anghenion dysgu gyda'r grŵp y maen nhw wedi'u neilltuo iddo ac ystyried yr arwyddion y gall y plant eu dangos pan maen nhw'n cael anawsterau. Dysgwyr i wneud nodiadau i roi adborth ar eu safbwyntiau a thrafod fel dosbarth cyfan i ddatblygu eu syniadau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach. | Astudiaeth achos mater/pryder ymddygiad ar gyfer gweithgaredd ffocws i grŵp<br><br>Papur A3 mawr a phennau lliw ar gyfer y gweithgaredd grŵp | ymwneud â phlant 0-19 oed.<br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Dysgwyr i drafod amrywiaeth o anghenion dysgu gyda'r grŵp maen nhw wedi'u neilltuo iddo ac i ystyried yr arwyddion y gall y plant eu dangos pan maen nhw'n cael anawsterau |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 2 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Datblygu gwybodaeth y dysgwyr o'r strategaethau i annog ymddygiad cadarnhaol a datblygu dealltwriaeth am arferion cadarnhaol a sut gallant gael eu defnyddio i ddylanwadu ar newidiadau sylfaenol.<br><br>Trafod yr amrywiaeth o ffactorau a all effeithio ar ymddygiad plant gan ymwneud â phlant 0-19 oed a'r effaith gadarnhaol y gellir ei hannog drwy weithredoedd ac agweddau cefnogol.<br>Datblygu'r wybodaeth am ddefnyddio strategaethau ac ymyriadau cadarnhaol i wella ymddygiad plant ac i gefnogi eu cyflawniadau academaidd. Esbonio arwyddocâd cefnogi plant i gyrraedd eu nodau a gosod ffiniau eglur. Trafod yr amrywiaeth o gynlluniau gwobrwyo gwahanol a ddefnyddir yn rhan o strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac o gefnogi ffiniau eglur.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Beth yw eich profiad o strategaethau cefnogol sy'n gallu helpu i wella ymddygiad plant?<br>• Sut gellir defnyddio gwobrau a sancsiynau i hybu amgylchedd dysgu cadarnhaol?<br>• Beth yw arwyddocâd cael ffiniau eglur mewn amgylchedd ystafell ddosbarth?<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp: Yn gyntaf, canolbwyntiwch drafodaeth dosbarth ar sut i helpu a chefnogi plant ag anghenion penodol i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Yn ail, symudwch y drafodaeth yn ei blaen i'r | Dalen fawr o bapur A3 a phennau lliw gwahanol ar gyfer pob grŵp | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth ac adborth am y strategaethau posibl i gefnogi anghenion dysgu a materion ymddygiadol plant<br><br>Trafodwch yr amrywiaeth o ffactorau a all effeithio ar ymddygiad plant gan ymwneud â phlant 0-19 oed.<br><br>Datblygu dealltwriaeth a'r effaith gadarnhaol sy'n cael ei hybu drwy weithredoedd ac agweddau cefnogol.<br><br>Trafodaeth dosbarth ar sut i helpu a chefnogi plant ag anghenion penodol i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | strategaethau cefnogol y gellir eu gweithredu i wella ymddygiad plant. Neilltuwch un maes o angen ychwanegol neu astudiaeth achos o fater ymddygiad i bob grŵp neu un cerdyn ffeithiau i bob grŵp.<br><br>Darparwch ddalen fawr o bapur A3 a phennau lliw gwahanol ar gyfer pob grŵp. Bydd y dysgwyr yn cylchdroi yn eu grwpiau bob pum munud ac yn ailadrodd y broses gan ddefnyddio eu pen lliw eu hunain tan eu bod wedi trafod pob grŵp oedran a bod syniadau wedi'u nodi gan bob grŵp, a bod pob grŵp wedi cylchdroi yn ôl i'w fwrdd gwreiddiol. Gall pob grŵp rannu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgaredd. Adborth o gyfraniad pob grŵp i'r dasg a thrafod unrhyw safbwyntiau pellach.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Trafodwch y strategaethau cefnogol sy'n gallu helpu i wella ymddygiad plant ac i hybu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Dysgwyr i ychwanegu syniadau at ddalenni A3 sydd wedi'u rhoi ar bob bwrdd, yn seiliedig ar bob angen ychwanegol a drafodwyd ar y cardiau ffeithiau. | | Datblygu materion ymarferol y strategaethau cefnogol sydd wedi'i hargymell y gellir eu gweithredu i wella ymddygiad plant. |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th>Maes Testun</th><th>Wythnos</th><th>Rhaglen Astudio</th><th>Adnoddau</th><th>Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig</th></tr>
<tr><td>Uned orfodol 330<br><br>Testun 2: Ffactorau sy’n effeithio ar ymddygiad<br><br>MPA 2.1</td><td>3</td><td>Ffactorau sy’n effeithio ar ymddygiad<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddulliau’n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol. Trafod amrywiaeth o achosion sydd wrth wraidd ymddygiad plant e.e. ymddygiadol, gwybyddol, seicodynamig, biolegol, systemig ac ati. Trafod effaith plant ac oedolion yn rhyngweithio â’r amgylchedd o’u cwmpas a chanolbwyntio trafodaeth ar arwyddocâd y ddadl natur a magwraeth ac effaith ac ymwneud hyn â’n datblygiad a’n hymddygiadau.<br><br>Trafod yr amrywiadau o ran y disgwyliadau a’r cyfrifoldebau sydd gan blant a sut gall hyn effeithio ar eu hymddygiad. Trafod yr amrywiadau o ran y disgwyliadau a’r cyfrifoldebau sydd efallai gan y plant gartref neu drwy eu lleoliad meithrinfa/ysgol.<br><br>Trafod arwyddocâd ymatebion ac ymddygiadau priodol gan oedolion wrth reoli ymddygiad yn effeithiol a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant. Asesu gwerth darparu amgylchedd sydd â nodau a ffiniau cyson.<br><br>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:<br><br>Sut gall ffactorau biolegol effeithio ar ymddygiad plant?<br>Sut gall ffactorau ymddygiadol, gwybyddol neu seicodynamig effeithio ar ymddygiad plant?<br><br>Mae plant yn dod i’r ysgol o gefndiroedd a disgwyliadau cartref gwahanol iawn. Pa ddylanwadau y gall yr amgylchedd systemig</td><td></td><td>Gweithgaredd grŵp bach ar y pwyntiau trafod gosod.<br><br>Pob grŵp i wneud nodiadau er mwyn rhoi adborth ar ei safbwyntiau a datblygu ei syniadau ymhellach drwy drafodaeth dosbarth cyfan.<br><br>Datblygwch y syniadau ynghylch ymddygiadau ac ymatebion priodol gan oedolion wrth reoli ymddygiad.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau’r dosbarth<br><br>Trafodwch arwyddocâd y ddadl natur a magwraeth<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch y tasgau a awgrymir i’w trafod.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | (mewnbwn teulu/gofalwyr) eu cael ar agwedd neu nodweddion ymddygiad plentyn? | | |
| | | **Gweithgaredd:**<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch un o'r tasgau isod (1, 2, 3, 4) i bob grŵp i'w thrafod a'i chwblhau. Pob grŵp i wneud nodiadau er mwyn rhoi adborth ar ei safbwyntiau a datblygu ei syniadau ymhellach drwy drafodaeth dosbarth cyfan.<br><br>1. Trafodwch effaith natur a magwraeth ar ymddygiad plant.<br><br>2. Trafodwch effaith creu amgylchedd a phrofiadau cadarnhaol er mwyn creu ymddygiad da<br><br>3. Trafod arwyddocâd ymatebion ac ymddygiadau priodol gan oedolion wrth reoli ymddygiad yn effeithiol a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant<br><br>4. Trafodwch effaith darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol er mwyn cyrraedd nodau a thargedau'r plant drwy ddefnyddio gwobrau a sancsiynau.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau i roi adborth ar eu safbwyntiau ac i drafod fel dosbarth cyfan i ddatblygu eu syniadau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 4 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Trafodwch gymhlethdodau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ar iechyd meddwl a llesiant.<br>Rhowch gyflwyniad i brofiadau plentyndod sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, h.y. cam-drin plentyn, profiadau amgylcheddol ac yn y cartref.<br><br>Symudwch ymlaen i ddatblygu gwybodaeth y dysgwyr o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, e.e. straen cronig/tocsig ac effaith hirdymor drwy gydol oes, e.e. goblygiadau iechyd, cyfleoedd, ymddygiadau a throsedd, trawma cymdeithasol ac emosiynol ac ati.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Diffiniwch y Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod y gall plant gael profiad ohonyn nhw.<br>• Pa effaith y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ei chael ar ddatblygiad plentyndod?<br>• Sut mae'r ffactorau sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gallu effeithio ar iechyd meddwl?<br><br>Gweithgaredd:<br><br>Rhowch amrywiaeth o astudiaethau achos sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i'r plant er mwyn datblygu dealltwriaeth o sefyllfaoedd neu gymhlethdodau penodol bywydau llawer o blant a'r effaith y gall y profiadau hyn eu cael ar ddatblygiad ymddygiad, cymdeithasol ac emosiynol plant. Grwpiau ffocws i drafod | Rhowch amrywiaeth o astudiaethau achos sy'n ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i'r dysgwyr. | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Rhowch amrywiaeth o astudiaethau achos sy'n ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i'r dysgwyr.<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau a rhoi adborth ar eu trafodaethau a'u canfyddiadau yn seiliedig ar yr astudiaeth achos â ffocws. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | y meysydd canlynol. | | |
| | | • Sut gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod effeithio ar brofiadau addysgol plant.<br>• Yr ymyriadau i gefnogi plant.<br>• Beth yw'r ffyrdd gorau i ysgolion gefnogi pobl ifanc â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod?<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Ehangwch y drafodaeth i grŵp cyfan i gynnwys amrywiadau yn y testunau astudiaeth achos ar effeithiau hirdymor ymddygiad plant, cyrhaeddiad addysgol, iechyd meddwl, canlyniadau plentyndod, lles seicolegol a thrawma.<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau a rhoi adborth ar eu trafodaethau a'u canfyddiadau yn seiliedig ar yr astudiaeth achos â ffocws. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 5 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Datblygwch y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar amrywiaeth o bolisïau a chanllawiau ar gyfer ymyrryd ac atal yn gynnar ac i weithredu cymorth lliniarol i blant a theuluoedd.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Canolbwyntiwch ar yr effaith ar iechyd meddwl. Mewn grwpiau trafodwch amrywiaeth o bolisïau a chanllawiau er mwyn atal, ymyrryd yn gynnar a lliniaru er mwyn lleihau effaith negyddol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar blant a phobl ifanc.<br><br>**Asesiad:**<br><br>Trefnwch drafodaeth tîm lle mae'r dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach, ac mae pob myfyriwr yn cael y cyfle i gymryd rhan. Trefnwch y timau gyda dim mwy na phum dysgwr i gynrychioli eu maes trafodaeth ac i berswadio timau eraill i weithredu eu dull atal, ymyrryd neu liniaru i ymateb er mwyn lleihau'r effaith iechyd meddwl hirdymor o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Dewiswch fwy nag un drafodaeth i grwpiau mawr. Dysgwyr i drafod a rhoi adborth ar effaith cefnogi plant a theuluoedd.<br><br>Caiff pob tîm amser penodol i ymchwilio, cyflwyno ei ganfyddiadau a safbwyntiau, tystiolaeth ystadegol a ffynonellau gwybodaeth dibynadwy er mwyn cefnogi'r drafodaeth. | Adnoddau cyfrifiadur | Trafodaeth ar amrywiaeth o bolisïau a chanllawiau er mwyn atal, ymyrryd yn gynnar a lliniaru er mwyn lleihau effaith negyddol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar blant a phobl ifanc.<br><br>Trafodwch a rhowch adborth ar effaith cefnogi plant a theuluoedd<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Agweddau i'w trafod a chyfleoedd i holi'r dosbarth:**<br><br>• Atal – y dechrau gorau mewn bywyd / hybu ymlyniad cynnar / plismona cymunedol / iechyd a lles emosiynol mewn addysg / y system gofal cymdeithasol / cymorth tai / atal cam-drin rhywiol a thrais / rhaglenni rhianta<br>• Ymyrryd yn gynnar – Gofal iechyd / ymyriad bwlio / cefnogi iechyd meddwl mewn addysg / ymyrryd yn gynnar pan mae hunan-niweidio / ymwybyddiaeth ofalgar<br>• Lliniaru - ymdrin â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant / helpu rhieni/gofalwyr di-waith / gwasanaethau iechyd pobl ifanc / partneriaethau nyrsys teulu / tîm troseddu ieuenctid<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau i roi adborth ar gyflwyniad pob grŵp ac i drafod fel dosbarth cyfan i ddatblygu eu syniadau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 6 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'r prosesau gwybyddol sy'n pennu ymatebion y plentyn mewn sefyllfaoedd penodol. Trafod agweddau sefyllfaol sy'n dylanwadu ar y gwahaniaethau ymddygiad rhwng plant. Canolbwyntio'r drafodaeth ar sut gall ymddygiad plant gael ei ddylanwadu gan eu canfyddiad o sefyllfa neu eu syniadau amdani.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Datblygwch ddealltwriaeth dysgwyr o sut gall sefyllfaoedd ymddygiadol amrywiol datblygu o fewn unrhyw amgylchedd a roddir. Rhowch amrywiaeth o astudiaethau achos plant i ddysgwyr eu dadansoddi gan ystyried amrywiaeth o ddangosyddion posibl. Mewn grwpiau, trafodwch yr amrywiaeth ganlynol o ddangosyddion fel dosbarth i'w trafod a'u hystyried ar bwyntiau allweddol yr astudiaethau achos.<br>• Newidiadau sydyn mewn ymddygiad, hwyl neu olwg.<br>• Mae'r newidiadau ymddygiad cyffredinol posibl yn gallu cynnwys ymddygiad anarferol o dawel a mewnblyg / 'actio allan' neu chwilio am sylw drwy ymddygiad negyddol.<br>• Gall patrwm gwaith neu sylw newid, gyda diffyg hyder neu gymhelliad<br>• Newid yn eu patrwm mynychu a all gynnwys triwantiaeth neu fod yn amharod i adael yr ysgol<br>• Perthnasoedd yn chwalu neu wrthod cyd-dynnu ag eraill, efallai arwyddion o gael eu bwlio.<br>• Edrych yn flinedig neu'n anhwylus, yn anhapus ac yn unig | Rhowch amrywiaeth o astudiaethau achos plant i'r dysgwyr eu dadansoddi | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Sesiynau grŵp ar ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o ddangosyddion arwyddion rhybudd sy'n peri pryder a'r angen am gymorth.<br><br>Rhowch amrywiaeth o astudiaethau achos plant i ddysgwyr eu dadansoddi gan ystyried amrywiaeth o ddangosyddion posibl.<br><br>Gall dysgwyr gysylltu â phrofiadau ar leoliadau gwaith proffesiynol er mwyn cefnogi dealltwriaeth.<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-4 er mwyn ystyried effaith dangosyddion posibl ar ymddygiad plant. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Cyflwynwch ymchwil grŵp i bosibiliadau nifer o bwyntiau allweddol i'w trafod. Ystyriwch y pwyntiau allweddol canlynol i bennu'r sefyllfa ac i alluogi dealltwriaeth o'r rhesymau am y newid ymddygiad.<br><br>• A allai'r ymddygiadau fod yn ganlyniad posibl i sefyllfa neu ryngweithio rhwng plant?<br>• A yw'r plentyn wedi profi newid diweddar neu arwyddocaol yn ei amgylcheddau?<br>• A allai'r ymddygiad fod yn ymateb i fwlio neu i ddylanwadau pwysau gan gyfoedion?<br>• A allai'r ymddygiad fod yn ganlyniad i arbrofi posibl â sylweddau?<br>• A yw'r ymddygiad wedi ymddangos o effaith bondio, ymlyniad, gwydnwch a thrawsnewid ac ati?<br>• A allai'r ymddygiad fod yn ganlyniad i newid ym mywyd y plentyn yn ei berthnasoedd â theulu / ffrindiau neu sefyllfaoedd neu brofiadau cymunedol?<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-4 er mwyn ystyried effaith dangosyddion posibl ar ymddygiad plant, a all fod yn ddangosyddion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, iechyd meddwl, niwed cymdeithasol ac emosiynol, cam-drin plant ac ati.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Dysgwyr i ganolbwyntio ar yr hyn y byddai angen iddyn nhw ei ystyried fel newid yn ymddygiad plentyn neu blant a allai fod yn arwyddion rhybudd sy'n peri pryder ac angen am gymorth. Dysgwyr i roi adborth am eu rhesymau neu eu safbwyntiau i weddill y dosbarth ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan. | | Dysgwyr i roi adborth am eu rhesymau neu eu safbwyntiau i weddill y dosbarth ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 7 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Mae cyfathrebu cadarnhaol a darparu'r agwedd gywir at yr amgylchedd dysgu'n arwyddocaol er mwyn meithrin diddordeb a chyfranogiad. Trafod amrywiaeth o sefyllfaoedd a all godi o'r dylanwadau amrywiol a restrir uchod. Ystyried yr ymagweddau cadarnhaol a all leihau'r canlyniadau ymddygiad posibl yn arwyddocaol drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol.<br>Trafod sut gall profiadau negyddol ddylanwadu ar yr adwaith ymladd/ffoi a'i ysgogi, e.e. sefyllfaoedd a rhyngweithio rhwng plant / profi amgylcheddau gwahanol/sy'n newid / glasoed / rhywioldeb / bwlio a phwysau gan gyfoedion / sefyllfaoedd gyda'r teulu, ffrindiau ac yn y gymuned / oherwydd arbrofi posibl â sylweddau / effaith bondio, ymlyniad, gwydnwch a thrawsnewid ac ati.<br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodaethau grŵp ffocws ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dangosyddion arwyddion rhybudd sy'n peri pryder neu newidiadau mewn ymddygiad a all arwain at sefyllfaoedd amharchus neu rwystredig ac angen am gymorth ychwanegol. Gall dysgwyr gysylltu â phrofiadau ar leoliadau gwaith proffesiynol er mwyn cefnogi dealltwriaeth. | Diagram Venn ac enghraifft o WAGOLL | Trafodaeth ar sut gall profiadau negyddol ddylanwadu ar yr adwaith ymladd/ffoi a'i ysgogi.<br><br>Canolbwyntiwch y trafodaethau grŵp ar ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o ddangosyddion arwyddion rhybudd sy'n peri pryder neu newidiadau mewn ymddygiad<br><br>Dysgwyr i greu diagram Venn mewn parau yn seiliedig ar bwysigrwydd meithrin perthnasoedd da<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cwestiynau dosbarth enghreifftiol i gefnogi'r gweithgareddau:**<br><br>• Pa mor eithafol yw'r ymddygiad neu'r agwedd?<br>• Pa mor estynedig neu barhaus yw'r ymddygiad?<br>• A oes newidiadau sydyn wedi bod yn ymddygiad y plentyn?<br>• Pa mor benderfynol o darfu mae'r plentyn yn ymddangos?<br>• A oes gwahaniaeth amlwg rhwng sut mae'r plentyn yn ymddwyn yn y cartref a'r tu allan i'r cartref?<br>• Sut mae'r ymddygiad yn effeithio ar aelodau eraill y gymdeithas? ac ati.<br><br>**Asesiad:**<br><br>Dysgwyr i greu diagram Venn mewn parau yn seiliedig ar bwysigrwydd meithrin perthnasoedd da â phlant ac er mwyn sefydlu sylfaen o weithio ar lefel o ymddiriedaeth a pharch. Ystyriwch y pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ac wrth ymateb iddyn nhw er mwyn meithrin perthynas gadarn ond deg, e.e.<br><br>• Peidiwch â: Defnyddio iaith sarcastig / sy'n barnu<br>• Cyffredin i'r ddau: Arsylwi / monitro ymddygiad<br>• Ceisiwch: Hybu amgylchedd cydradd / teg<br><br>Pob grŵp mewn parau i roi adborth ar syniadau eu diagram Venn i'w trafod ymhellach/i ddatblygu eu syniadau drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 8 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Trafod y defnydd o ymagweddau ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Cyflwyno dealltwriaeth sylfaenol o greu diwylliant dysgu cadarnhaol ag ymyriadau effeithiol, h.y. rheoli dosbarth effeithio, perthnasoedd cadarnhaol ac amgylcheddau dysgu cadarnhaol.<br><br>Canolbwyntio'r dysgu ar bwysigrwydd ystafell ddosbarth wedi'i rheoli'n dda fel bod dysgu'n gallu digwydd a sut bydd plant yn dysgu'n well mewn diwylliant dysgu cadarnhaol lle bydd ganddyn nhw reolau a ffiniau eglur ac yn gwybod beth sydd i'w ddisgwyl ganddyn nhw.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut byddech chi'n disgrifio amgylchedd dysgu cadarnhaol?<br>• Pa sgiliau fyddai eu hangen yn eich barn chi i gynnal perthnasoedd cadarnhaol â phlant?<br>• Beth sy'n hanfodol er mwyn cael rheolaeth dosbarth effeithiol?<br>• Fel rhan o'ch rôl yn gweithio gyda phlant efallai mai chi fydd yn gyfrifol am y rheolaeth dosbarth. Petaech chi'n cael eich wynebu â dosbarth o blant blynyddoedd cynnar swnllyd, sut byddech chi'n ceisio ail-ymgysylltu â nhw er mwyn canolbwyntio ar weithgaredd dysgu? | Papur A3 mawr a phennau lliw ar gyfer gweithgareddau pâr a grŵp. | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i greu map meddwl o'r amrywiaeth o strategaethau er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Dysgwyr i drafod mewn parau ac o dan y pennawd canlynol i ddatblygu syniadau ynghylch yr arwyddocâd o dan y meysydd i'w trafod canlynol o ran creu amgylchedd dysgu cadarnhaol.<br><br>Grwpiau o ddysgwyr i drafod yr amrywiaeth o ddulliau i ailymgysylltu â phlant drwy gamau gweithredu cadarnhaol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd:**<br><br>Dysgwyr i greu map meddwl o'r amrywiaeth o strategaethau er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau yn yr ystafell ddosbarth. Trafod mewn parau ac o dan y pennawd canlynol i ddatblygu syniadau ynghylch yr arwyddocâd o dan y meysydd i'w trafod canlynol o ran creu amgylchedd dysgu cadarnhaol e.e.<br><br>• Rheolau a threfnau<br>• Gwobrau a sancsiynau<br>• Opsiynau disgyblu<br>• Gwersi wedi'u cynllunio'n dda<br>• Gwneud defnydd o ofod ffisegol<br>• Annog parch a pherthnasoedd cadarnhaol<br><br>**Asesiad:**<br><br>Datblygwch syniadau drwy ymuno â pharau o ddysgwyr eraill er mwyn trafod ymhellach. Pob pâr i roi adborth ac i grynhoi'r trafodaethau map meddwl am y strategaethau ystafell ddosbarth a sut gellir eu defnyddio i ymdrin ag anawsterau yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cael trafodaethau pellach/datblygu syniadau o fewnbwn gan y dosbarth cyfan. | | Canolbwyntiwch y trafodaethau ystafell ddosbarth ar y dulliau i ailymgysylltu â phlant drwy gamau gweithredu ac ymatebion cadarnhaol<br><br>Dysgwyr i roi adborth ac i grynhoi'r trafodaethau map meddwl am y strategaethau ystafell ddosbarth |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 9 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Trafod yr amrywiaeth o ddulliau i ailymgysylltu â phlant drwy gamau gweithredu cadarnhaol. Canolbwyntio'r trafodaethau ystafell ddosbarth ar y dulliau i ailymgysylltu â phlant drwy gamau gweithredu ac ymatebion cadarnhaol. Trafod pwysigrwydd gweithio gyda phlant mewn ffordd effeithiol, agored ac onest i gefnogi perthnasoedd cadarnhaol, e.e. dod o hyd i'r amser i siarad â phlant yn unigol, dewis yr ymagwedd neu'r dull cywir ar gyfer sefyllfa a roddir a defnyddio ymagweddau amrywiol i fodloni anghenion penodol plant a phobl ifanc.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut gallwn ni wella ymwybyddiaeth o sgiliau cymdeithasol mewn sefyllfaoedd rhwystredig?<br>• Sut gallwn ni gefnogi dealltwriaeth plant o ganlyniadau eu camau gweithredu?<br>• Sut gallwn ni arfogi plant a phobl ifanc i ddatrys problemau mewn sefyllfaoedd ac i wneud pethau'n wahanol?<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Mewn grwpiau bychain, trafodwch yr amrywiaeth o fanteision i iechyd a llesiant plant a phobl ifanc drwy ymagweddau effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i reoli ymddygiad. Dysgwyr i wneud nodiadau a rhoi adborth ar eu safbwyntiau i'r dosbarth cyfan er mwyn datblygu dealltwriaeth bellach o'r drafodaeth. Er enghraifft: | Taflenni/dolenni ar-lein o enghreifftiau o gamau gweithredu ac ymatebion cadarnhaol:<br>• Ymatebion ymddygiad ysgol gyfan –<br>• Rhaglenni rheoli ymddygiad<br>• Rhaglenni gwrthfwlio<br>• Siart Gorffennol-Ymddygiad-Canlyniad (Antecedent-Behaviour-Consequence (ABC))<br>• Strategaethau ystafell ddosbarth rhagweithiol.<br>• Cynlluniau ymddygiad unigol (IBPs)<br>• Grwpiau meithrin<br>• Rhaglenni cymorth bugeiliol (PSPs)<br>• Sancsiynau i'r ysgol gyfan | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br>Grŵp<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth mewn grwpiau bychain ynghylch yr amrywiaeth o fanteision i iechyd a llesiant plant a phobl ifanc drwy ymagweddau effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i reoli ymddygiad.<br><br>Ymchwil mewn grwpiau i bwyntiau allweddol yr ymagweddau cyfredol at reoli ymddygiad ac i'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, a chyflwyno'r rhain. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Ymatebion ymddygiad ysgol gyfan – cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion<br>• Rhaglenni rheoli ymddygiad fel Incredible Years Teacher Classroom Management, Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) a'r Dinosaur Curriculum ac ati.<br>• Rhaglenni gwrthfwlio – lleihau ac atal problemau bwli / dioddefwr<br>• Siart Gorffennol-Ymddygiad-Cadarnhaol (ABC) – casgliad o wybodaeth drwy arsylwi er mwyn cael dealltwriaeth fwy eglur o ymddygiad<br>• Strategaethau ystafell ddosbarth rhagweithiol – fel ailgyfeirio, dewisiadau ac ati<br>• Cynlluniau ymddygiad unigol (IBPs)<br>• Grwpiau meithrin<br>• Rhaglenni cymorth bugeiliol (PSPs)<br>• Sancsiynau i'r ysgol gyfan – polisi ymddygiad<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Ymchwil grŵp a chyflwyno pob maes a drafodir drwy wybodaeth berthnasol o ffynonellau da. Rhannwch y grwpiau yn dimau ymchwil bychain sydd â rolau â ffocws i gyflwyno pwyntiau allweddol yr ymagweddau cyfredol at reoli ymddygiad ac i'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.<br><br>Pob tîm ymchwil i gyflwyno drwy gyflwyniad llafar gan ddefnyddio delweddau gweledol. Dylai pob aelod o'r grŵp gael elfen gyfartal i'w chyflwyno. Cynigiwch gyfleoedd holi ac ateb a thrafod ymhellach drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan. | | Pob tîm ymchwil i gyflwyno drwy gyflwyniad llafar gan ddefnyddio delweddau gweledol.<br><br>Dylai pob aelod o'r grŵp gael elfen gyfartal i'w chyflwyno.<br><br>Cyfleoedd holi ac ateb a thrafod ymhellach drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 10 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall y cysylltiad rhwng ymlyniad ac ymddygiad a sut mae nodweddion ymddygiad yn gallu cysylltu â damcaniaethau sylfaenol. Canolbwyntio datblygiad trafodaethau ar ddamcaniaeth ymlyniad John Bowlby, ac ar astudiaeth arsylwadol Mary Ainsworth sy'n ymwneud ag ymlyniad.<br><br>Dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn canolbwyntio ar yr ymchwil ymlyniad arwyddocaol a arweiniwyd gan John Bowlby (1907 – 1990) er mwyn ystyried pwysigrwydd perthynas plentyn â'i fam, o ran ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a deallusol ac a arweiniodd ddamcaniaeth ymlyniad Bowlby.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>• Ymchwiliwch i brif bwyntiau damcaniaeth ymlyniad Bowlby a gwnewch grynodeb ohonyn nhw.<br><br>• Cynigiodd Bowlby fod modd deall ymlyniad mewn cyd-destun esblygol, beth roedd yn ei feddwl wrth hyn, yn eich barn chi?<br><br>**Asesiad:**<br><br>• Roedd Bowlby yn credu y gallai tarfu ar berthynas gynradd rhwng mam a phlentyn arwain at nifer uwch o achosion o ddrwgweithredu gan ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anawsterau emosiynol. Ymchwiliwch i hyn a gwnewch grynodeb o'i ganfyddiadau. | | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Ymchwiliwch i brif bwyntiau damcaniaeth ymlyniad Bowlby a gwnewch grynodeb ohonyn nhw.<br>Ymchwiliwch mewn parau a chrynhowch ystyr arddulliau ymlyniad Bowlby.<br><br>Mewn parau, ymchwiliwch i bob un o arddulliau ymlyniad Mary Ainsworth a gwnewch grynodeb o'u hystyr a'u perthynas â damcaniaeth ymlyniad.<br><br>Canolbwyntiwch ar effaith dibynadwyedd neu ddilysrwydd yr astudiaeth. Rhowch esboniad.<br><br>Trafodwch arwyddocâd ac effaith perthnasoedd anniogel |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ar ymddygiad plentyn yn seiliedig ar ddamcaniaeth ymlyniad Mary Ainsworth. |
| | | Dylai'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth ganolbwyntio ar ddamcaniaeth ymlyniad Mary Ainsworth (1913 – 1999) a ddarparodd gorff adnabyddus o ymchwil a oedd yn cynnig esboniadau am wahaniaethau unigol plant mewn ymlyniad. Dyfeisiodd hi dechneg o'r enw'r sefyllfa ddieithr fel techneg asesu i ymchwilio i sut gall ymlyniadau amrywio rhwng plant. Edrychwch ar The Strange Situation – Mary Ainsworth ar YouTube, ar gael ar: (https://www.youtube.com/watch?v=QTsewNrHUHU)<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Diffiniodd damcaniaeth Mary Ainsworth arddulliau ymlyniad fel (1) diogel, (2) diogel osgoi ac (3) anniogel amwys. Ymchwiliwch i bob arddull mewn parau a gwnewch grynodeb o'u hystyr a'u perthynas â damcaniaeth ymlyniad.<br><br>**Asesiad:**<br><br>• Mae astudiaeth Mary Ainsworth yn gosod y plentyn mewn amgylchedd dieithr ac artiffisial. Yn eich barn chi, beth yw effaith hyn ar ddibynadwyedd neu ddilysrwydd yr astudiaeth? Esboniwch pam.<br><br>• Yn ôl damcaniaeth ymlyniad Mary Ainsworth, mae angen ymlyniad 'diogel' ar fabanod i ffynnu, tra mae ymlyniadau gorbryderus yn gallu arwain at broblemau. Trafodwch arwyddocâd ac effaith perthnasoedd ansicr ar ymddygiad plentyn. | Clip fideo – The Strange Situation – Mary Ainsworth ar YouTube, ar gael ar: (https://www.youtube.com/watch?v=QTsewNrHUHU) | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 11 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae camau gweithredu, agweddau a phrofiadau yn yr amgylchedd cartref a'r tu allan iddo yn gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.<br><br>Trafod sut gallai plant fod wedi cael profiad o sefyllfaoedd anodd, efallai fod ganddyn nhw deimladau'n ymwneud â cholled, gwahaniad neu eu bod wedi dioddef trawma ac efallai fod ganddyn nhw broblemau gydag ymlyniad yn effeithio ar eu perthnasoedd gartref ac yn yr ysgol. Efallai fod plant yn cael profiad o drais, camdriniaeth neu fywyd cartref tanllyd neu anodd, ac ati. Canolbwyntio dysgu'r ystafell ddosbarth ar yr amrywiaeth o anawsterau posibl y gall plant gael profiad ohonyn nhw gartref. Trafod effaith y ffactorau a'r heriau hyn sy'n gallu effeithio ar y teulu cyfan, gan arwain o bosibl at blant yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n heriol mewn amgylchedd dysgu.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• A yw profiadau yn ein plentyndod yn gallu effeithio ar ein personoliaeth wrth i ni ddod yn oedolion? Os felly, sut, a rhowch enghreifftiau; os nad ydyn nhw, pam nad felly mae hi, yn eich barn chi?<br>• A ydych chi'n credu bod ffactorau penodol ym mywyd plentyn sy'n gallu dylanwadu ar ei ymddygiad?<br>• Sut mae profiadau plentyndod yn dylanwadu ar ymddygiad?<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Mewn grwpiau bach, dysgwyr i drafod eu safbwyntiau ar yr effaith a'r heriau sy'n ganlyniad i sefyllfaoedd amgylcheddol amrywiol y gall plant eu profi a sut maen nhw'n gallu amlygu eu hunain drwy faterion ymddygiad negyddol. | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Mewn grwpiau bach, dysgwyr i drafod eu safbwyntiau ar yr effaith a'r heriau sy'n ganlyniad i sefyllfaoedd amgylcheddol amrywiol.<br><br>Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau (1, 2, 3, 4) i drafod ac i greu diagram corryn ar y meysydd trafod a awgrymwyd.<br><br>Rhowch adborth o'r trafodaethau grŵp i'r dosbarth yn ei gyfanrwydd fel crynodeb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ystyriwch a thrafodwch sut mae camau gweithredu, agweddau a phrofiadau yn yr amgylchedd cartref a'r tu allan iddo yn gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.<br>• Profiadau a heriau personol sy'n achosi materion ymddygiad yn yr amgylchedd dysgu<br>• Anfodlonrwydd i gydymffurfio â rheolau neu drefnau<br>• Ymagweddau cadarnhaol a negyddol tuag at y plentyn<br>• Mathau amrywiol o arddulliau rhianta<br>• Cael profiad o ragfarn a stereoteipio.<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau (1, 2, 3, 4) i drafod ac i greu diagram corryn ar y meysydd trafod canlynol.<br><br>Dysgwyr i roi adborth am gyfraniad y grŵp ynghylch sut yn gyffredinol mae ymddygiad plant yn gallu newid a dod o dan ddylanwad y ffactorau neu'r profiadau mewn amgylchedd.<br><br>1. Profiadau eu cyfoedion, e.e. cydlyniad cymdeithasol, rhwydweithiau cymdeithasol, rhyngweithio â grwpiau neu unigolion, ac ati.<br>2. Profiadau o'u bywyd cartref, e.e. lefel awdurdod y rhieni, ymdeimlad o berthyn, amgylchiadau personol ac ati.<br>3. Profiadau o'u cymuned, e.e. amgylchedd ffisegol, adnoddau cymunedol, a pherthnasoedd cymdeithasol ac ati.<br>4. Profiadau o'u bywyd ysgol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar/gofal plant ac addysg statudol hyd at 19 oed, e.e. cymorth ac ymagwedd at ddysgu, disgyblaeth, perthnasoedd ag athrawon ac ati.<br><br>Rhowch adborth o'r trafodaethau grŵp i'r dosbarth yn ei gyfanrwydd fel crynodeb. Cynigiwch gyfleoedd ar gyfer syniadau a safbwyntiau pellach.<br><br>Cadwch y diagram corryn ar gyfer y sesiwn nesaf. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>**MPA 2.1** | 12 | **Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad**<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae gweithwyr a'r teulu/gofalwyr yn gallu cefnogi ymddygiad cadarnhaol, mewn gwahanol sefyllfaoedd/amgylcheddau.<br>Dysgwyr i grynhoi arwyddocâd effaith y ffactorau a'r ffyrdd gorau o gefnogi a hybu ymddygiad cadarnhaol yn gyson.<br>Fel parhad o'r sesiwn flaenorol, trafod canlyniadau'r trafodaethau grŵp er mwyn adolygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o'r defnydd o gamau gweithredu ac agweddau cadarnhaol a chefnogol sy'n gallu dylanwadu ar ymddygiad plant 0-19 oed. Trafod effaith amrywiadau mewn disgwyliadau a chyfrifoldebau, ymatebion ac ymddygiadau oedolion, cael profiad o amgylchiadau a sefyllfaoedd gwahanol a newidiol a'r rhyngweithio rhwng plant.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Dysgwyr i wneud crynodeb o effaith y ffactorau a'r ffyrdd gorau o gefnogi a hybu ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Dysgwyr i ychwanegu at linell amser benodol ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol o'r blynyddoedd cynnar i 19 oed, e.e. 0-3, 4-7, 8-11, 12-15, 16-19 oed er mwyn cyfoethogi eu trafodaeth a'u canfyddiadau ymhellach. Dylid neilltuo grŵp oedran penodol i bob grŵp, gellir gwneud y grŵp oedran sydd dros ben fel cyfraniad y dosbarth cyfan.<br><br>Gall y trafodaethau ychwanegol fod yn seiliedig ar brofiadau personol neu broffesiynol o wahanol newidiadau ymddygiad mewn gwahanol amgylcheddau. Dysgwyr i gylchdroi eu grwpiau bob pum munud er mwyn cwblhau eu nodiadau a'u syniadau. | Bwrdd gwyn | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Rhowch adborth o'r trafodaethau grŵp yn seiliedig ar y grwpiau oedran a neilltuwyd, i'r dosbarth yn ei gyfanrwydd fel crynodeb.<br><br>Dysgwyr i gwblhau llinell amser wedi'i hychwanegu ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol o'r blynyddoedd cynnar i 19 oed, e.e. 0-3, 4-7, 8-11, 12-15, 16-19 oed er mwyn cyfoethogi eu trafodaeth a'u canfyddiadau ymhellach |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Beth yw'r ffyrdd gorau o gefnogi a hybu plant a phobl ifanc 0-19 oed o ran ymddygiad cadarnhaol? Bydd pob grŵp yn cyfrannu at y llinell amser i gwblhau pob un o'r grwpiau oedran fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan.<br><br>1. Profiadau eu cyfoedion, e.e. cydlyniad cymdeithasol, rhwydweithiau cymdeithasol, rhyngweithio â grwpiau neu unigolion, ac ati.<br>2. Profiadau o'u bywyd cartref, e.e. lefel awdurdod y rhieni, ymdeimlad o berthyn, amgylchiadau personol ac ati.<br>3. Profiadau o'u cymuned, e.e. amgylchedd ffisegol, adnoddau cymunedol, a pherthnasoedd cymdeithasol ac ati.<br>4. Profiadau o'u bywyd ysgol, e.e. cefnogaeth ac ymagwedd at ddysgu, disgyblaeth, perthnasoedd ag athrawon ac ati.<br><br>Rhowch adborth o'r trafodaethau grŵp yn seiliedig ar y grwpiau oedran a neilltuwyd, i'r dosbarth yn ei gyfanrwydd fel crynodeb. Cynigiwch gyfleoedd ar gyfer syniadau a safbwyntiau pellach.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Fel tasg unigol, rhowch syniadau i'r dosbarth neu ar y bwrdd gwyn ynghylch sut gall camau gweithredu ac agweddau cefnogol gael effaith ar ymddygiad a sut gallan nhw ddylanwadu ar ragolygon cadarnhaol i blant a phobl ifanc. | | Tasg unigol i roi syniadau i'r dosbarth neu ar y bwrdd gwyn ynghylch sut gall camau gweithredu ac agweddau cefnogol gael effaith ar ymddygiad. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>**MPA 2.2** | 13 | **Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>Trafodwch sut gellir defnyddio damcaniaethau datblygiad ymddygiad i gefnogi ymddygiad plant. Dylai dysgwyr adnabod sut gellir defnyddio damcaniaethau datblygiad ymddygiad i gefnogi ymddygiad plant. Trafodwch y ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol lle mae Albert Bandura yn dweud bod ymddygiad yn cael ei ddysgu o'r amgylchedd drwy'r broses o ddysgu arsylwadol.<br><br>Hybwch drafodaethau dosbarth cyfan i gynorthwyo dysgwyr i ystyried y berthynas rhwng eu hymddygiad a'i ganlyniadau. Mae plant yn arsylwi'r bobl o'u hamgylch yn ymddwyn mewn ffyrdd amrywiol. Edrychwch ar arbrawf y ddol Bobo – Bandura ar YouTube, ar gael ar: https://www.youtube.com/watch?v=dmBqwWlJg8U<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodaeth grŵp a rhoi adborth er mwyn cael safbwyntiau'r dosbarth cyfan.<br><br>• A yw plant yn fwy tebygol o efelychu pobl sy'n debyg iddyn nhw? Esboniwch eich safbwyntiau.<br>• Trafodwch y safbwyntiau amrywiol ar sut gall pobl ymateb i'r ymddygiad, naill ai drwy atgyfnerthiad neu gosb.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Modelau yw'r enw ar unigolion sy'n cael eu harsylwi. Mewn cymdeithas, mae llawer o fodelau dylanwadol o amgylch plant, fel rhieni yn y teulu, cymeriadau ar deledu plant, ffrindiau yn eu grŵp cyfoedion ac athrawon yn yr ysgol. | Clip fideo arbrawf y ddol Bobo – Bandura ar YouTube, ar gael ar: https://www.youtube.com/watch?v=dmBqwWlJg8U | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth grŵp a rhoi adborth er mwyn cael safbwyntiau'r dosbarth cyfan.<br><br>Trafodaeth ar y safbwyntiau amrywiol ar sut gall pobl ymateb i'r ymddygiad, naill ai drwy atgyfnerthiad neu gosb.<br><br>Trafodwch brif ffocysau Glasser ym maes disgyblaeth ysgol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r modelau hyn yn rhoi enghreifftiau o ymddygiad i'w arsylwi a'i efelychu, e.e. gwrywaidd a benywaidd, modelau cymdeithasol a gwrthgymdeithasol o ymddygiad ac ati.<br>• Beth mae astudiaeth Bandura yn ei addysgu i ni am sut mae plant yn dysgu ymddygiad cymdeithasol?<br>• Pa oblygiadau sydd i'r astudiaeth hon ar effeithiau trais yn y cyfryngau ar blant?<br><br>Trafodwch brif ffocysau Dr William Glasser ym maes disgyblaeth ysgol. Mae'r ffocws cyntaf ar ddarparu amgylchedd yr ystafell ddosbarth a chwricwlwm sy'n ysgogi myfyrwyr a lleihau ymddygiad amhriodol drwy fodloni anghenion sylfaenol myfyrwyr am berthyn, pŵer, hwyl, a rhyddid. Mae'r ail ffocws ar helpu myfyrwyr i wneud dewisiadau ymddygiadol priodol sy'n arwain at lwyddiant personol yn y pen draw.<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Trafodwch mewn grwpiau sut mae plant a phobl ifanc yn fodau rhesymegol. Maen nhw'n gallu rheoli eu hymddygiad eu hunain. Maen nhw'n dewis ymddwyn fel maen nhw'n ei wneud. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a lluniwch fap meddwl o'r canlynol gan gymharu a chyferbynnu trafodaethau am safbwyntiau.<br>• Trafodwch ddamcaniaeth Glasser ynghylch sut mae dewisiadau da yn cynhyrchu ymddygiad da a dewisiadau drwg yn cynhyrchu ymddygiad drwg.<br>• Trafodwch y safbwynt bod yn rhaid i athrawon geisio helpu plant bob amser i wneud dewisiadau da ac i'w cefnogi pan maen nhw'n gweld ymddygiad da, ac os yw plant yn gwneud dewisiadau drwg ni ddylai athrawon dderbyn unrhyw esgusodion am ymddygiad drwg.<br><br>Trafodwch sut dylai canlyniadau rhesymol ddilyn ymddygiad plant bob amser, boed yn ymddygiad da neu ddrwg, a sut mae rheolau dosbarth yn hanfodol ac mae'n rhaid eu gorfodi nhw. | | Tasg dysgu unigol, ymchwiliwch a rhowch adborth i'r dosbarth cyfan ar ganfyddiadau a safbwyntiau. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Drwy dasg dysgu unigol, ymchwiliwch i'r pwyntiau canlynol a disgrifiwch nhw.<br><br>• Ymchwiliwch i fodel Glasser ac esboniwch sut mae'r model hwn yn ceisio ysgogi plant a phobl ifanc i ddysgu.<br>• Disgrifiwch sut gellir defnyddio model ymddygiad Glasser yn ymarferol.<br><br>Gall unigolion roi crynodeb o'u canfyddiadau fel adborth er mwyn trafod eu safbwyntiau â'r dosbarth i gyd. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>**MPA 2.2** | 14 | **Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>Trafodwch sut gellir defnyddio damcaniaethau datblygiad ymddygiad i gefnogi ymddygiad plant.<br><br>Dylai dysgwyr adnabod sut gellir defnyddio damcaniaethau datblygiad ymddygiad i gefnogi ymddygiad plant.<br><br>Mae'n bosibl addasu ymddygiad drwy gyflyru. Trafodwch y mathau o gyflyru â phlant a chysylltiad damcaniaeth B.K. Skinner am gyflyru clasurol a gweithredol i wella ymddygiad ac i gefnogi deall nodau a ffiniau.<br><br>Trafodwch sut mae'r ddamcaniaeth ymddygiadol yn ganlyniad i waith damcaniaethwyr seicolegol fel B.F. Skinner ac I. Pavlov. Datblygwch y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut mae ymddygiad yn un o nifer o ddamcaniaethau dysgu, fel adeileddol, gwybyddol a chymdeithasol-wybyddol y mae addysgwyr plant yn eu defnyddio i lywio sut maen nhw'n eu dysgu nhw. Mae'n seiliedig ar y syniad o ddysgu drwy system o wobrau a chosbau, neu gyflyru.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>• Aeth Skinner ati i nodi proses ymddygiad wedi'i ddysgu yn seiliedig ar gamau gweithredu a chanlyniadau sy'n cael eu hailadrodd, a alwodd yn gyflyru gweithredol. Sut mae'r dull hwn yn cael effaith ar ymddygiad plant?<br>• Trafodwch arwyddocâd damcaniaeth Skinner am gyflyru clasurol a gweithredol i wella ymddygiad ac i gefnogi plant. | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodaeth am arwyddocâd damcaniaeth Skinner am gyflyru clasurol a gweithredol i wella ymddygiad ac i gefnogi plant.<br><br>Trafodaeth ar sut mae damcaniaethau ymddygiadol yn seiliedig ar y dybiaeth bod dysgu'n digwydd drwy ryngweithio â'r amgylchedd. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Cwblhaodd Skinner ei astudiaethau ar anifeiliaid i gynrychioli ei ddamcaniaethau ymddygiad, gan ddefnyddio ymddygiad wedi'i arsylwi mewn amgylchedd gwyddonol wedi'i reoli. Beth yw eich safbwyntiau ar ei astudiaethau mewn perthynas ag ymddygiad dynol, pan nad oes ystyriaeth i feddyliau a theimladau?<br><br>Trafodwch sut mae damcaniaethau ymddygiadol yn seiliedig ar y dybiaeth bod dysgu'n digwydd drwy ryngweithio â'r amgylchedd. Mae damcaniaethwyr ymddygiadol yn credu na ellir defnyddio meddyliau mewnol a theimladau i esbonio ymddygiad. Datblygwch drafodaeth dosbarth ar y ffocws yn symud i'r camau gweithredu allanol y gellir eu harsylwi.<br><br>Datblygwch y ddealltwriaeth o gyflyru clasurol drwy ymchwil Ivan Pavlov. Datblygwch ddealltwriaeth y dysgwyr o arbrofion Pavlov ar ymateb glafoerio mewn cŵn a'r ddamcaniaeth cysylltiadau ymateb ysgogi a'r trefnau ymateb cyflyredig a wnaeth yn ei arbrawf cysylltiadau.<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Gwnewch grynodeb o ddamcaniaeth Pavlov a nodwch dair ffaith rydych chi wedi'u dysgu am ei arbrawf.<br><br>Gwnewch grynodeb o ymateb cyflyredig mewn perthynas â rhyngweithio dynol ag ysgogiad.<br><br>**Cwestiwn dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut gall damcaniaeth cyflyru ymddygiad gael ei defnyddio'n ymarferol i ddarparu amgylchedd dysgu cadarnhaol? | | Trafodaeth dosbarth ar y ffocws gan symud i'r camau gweithredu allanol y gellir eu harsylwi.<br><br>Gwnewch grynodeb o ddamcaniaeth Pavlov a nodwch dair ffaith am ei arbrawf.<br><br>Gwnewch grynodeb o ymateb cyflyredig mewn perthynas â rhyngweithio dynol ag ysgogiad.<br><br>Rhannwch a rhowch adborth i'r dosbarth am fanteision damcaniaeth Pavlov mewn ymateb i anghenion neu ymddygiad plentyn drwy adfyfyrio ar ymarfer. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Gall gweithwyr gofal plant ddefnyddio cyflyru clasurol i helpu plant i oresgyn gorbryder drwy roi cysur a chefnogaeth gyson yn ystod adegau o straen neu orbryder. Trafodwch fanteision damcaniaeth Pavlov mewn ymateb i anghenion neu ymddygiad plentyn drwy adfyfyrio ar ymarfer. Rhannwch a rhowch adborth i'r dosbarth. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>**MPA 2.2** | 15 | **Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall yr effaith gadarnhaol y mae defnyddio camau gweithredu ac agweddau cefnogol yn gallu ei chael ar ymddygiad plant 0-19 oed.<br><br>Datblygu dealltwriaeth dysgwyr o arwyddocâd datblygu cyfathrebu da gyda phlant er mwyn cefnogi rheoli ymddygiad cadarnhaol. Trafod pwysigrwydd bod plant yn deall beth mae gweithwyr gofal plant yn ei ofyn ganddyn nhw a bod y gweithwyr gofal plant yn gwybod beth maen nhw'n ceisio ei gyflawni ac ati.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodwch yr amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant.<br>Yr effeithiau i'w cynnwys:<br>• Defnyddio canmoliaeth a gwobrau i gynyddu cymhelliant<br>• Cydnabod gwelliannau mewn agweddau ac ymddygiad cadarnhaol<br>• Ymagwedd gadarnhaol at wella sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu â chyfoedion a staff<br>• Defnyddio ymagwedd neu raglen wedi'i phersonol i gynyddu hunan-barch a hunanymwybyddiaeth<br>• Defnyddio strategaethau ymarferol i leihau ac atal ymddygiad amhriodol<br>• Bod yn rhagweithiol wrth gynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn lleihau'r straen ar berthnasoedd a pherthnasoedd yn chwalu | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodwch yr amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant<br><br>Dysgwyr i ymchwilio mewn grwpiau ac i gyflwyno dadl berswadiol yn seiliedig ar yr effeithiau cadarnhaol a drafodwyd fel dosbarth. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gwerth nodi ac adnabod y ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad ac ymatebion. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Dysgwyr i ymchwilio mewn grwpiau ac i gyflwyno dadl berswadiol yn seiliedig ar yr effeithiau cadarnhaol a drafodwyd fel dosbarth. Gall y ddadl berswadiol fod yn araith gan grŵp sy'n seiliedig ar yr effaith gadarnhaol y mae cymorth, camau gweithredu ac agweddau priodol yn gallu ei chael ar ymddygiad plant 0-19 oed. Dylid rhoi un effaith i bob grŵp i'w thrafod ac i'w chyflwyno i'r dosbarth. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 2: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br><br>**MPA 2.2** | 16 | **Cefnogi ymddygiad cadarnhaol**<br>Datblygu trafodaethau ar y gwasanaethau cenedlaethol a lleol yng Nghymru a all fod yn gysylltiedig â chefnogi ymddygiad cadarnhaol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y bydd unrhyw ddiweddariadau i'r gwasanaethau cenedlaethol a lleol yng Nghymru yn ystod oes y fanyleb yn disodli'r gwasanaethau cenedlaethol a lleol blaenorol.<br><br>Trafod y gwasanaethau cenedlaethol a lleol canlynol. Trafod y mynediad i'r gwasanaethau hyn a'u gwerth er mwyn cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant 0-19 oed.<br><br>Dylai'r gwasanaethau gynnwys:<br>• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), e.e. cefnogi anawsterau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl ac ati<br>• Gwasanaethau addysg, e.e. gofal bugeiliol, cwnsela, rhaglenni ymddygiad, cefnogaeth a darpariaethau, seicolegwyr addysgiadol ac ati<br>• Dechrau'n Deg, e.e. rhaglenni cefnogi rhianta, annog newid ymddygiad cadarnhaol, iechyd y fam a'r teulu a gwydnwch cadarnhaol ac ati<br>• Gwasanaethau prawf, e.e. cefnogi technegau ymddygiadol gwybyddol, cyrsiau arbenigol h.y. gwneud penderfyniadau, ymyriadau troseddwyr ac ati<br>• Gwasanaethau cymdeithasol, e.e. darparu cymorth arbenigol, cymorth i deuluoedd, amddiffyn plant ac ati<br>• Uned cefnogi ymddygiad arbenigol, e.e. cefnogaeth gydag anawsterau dysgu, asesiadau, darparu strategaethau i gefnogi plant ac ati. | Taflenni gwybodaeth am wasanaethau cenedlaethol a lleol yng Nghymru<br><br>• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)<br>• Gwasanaethau addysg<br>• Dechrau'n Deg<br>• Y gwasanaethau prawf<br>• Gwasanaethau cymdeithasol<br>• Uned cefnogi ymddygiad arbenigol<br>• Tîm o Amgylch y Teulu<br>  • Gwasanaethau ieuenctid | Ymchwil grŵp a chyflwyno pob maes a drafodir yn y dosbarth ar sail ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol.<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i gyflwyno drwy gyflwyniad llafar gan ddefnyddio delweddau gweledol. Pob aelod o'r grŵp ag elfen gyfartal i'w chyflwyno.<br><br>Cynigiwch gyfleoedd holi ac ateb a thrafod ymhellach drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Tîm o Amgylch y Teulu, e.e. darparu cymorth i deuluoedd a phlant, sgiliau rhianta, gosod ffiniau, cefnogi ymddygiad a datblygiad ac ati.<br>• Gwasanaethau ieuenctid, e.e. darparu cymorth llesiant cymdeithasol ac economaidd, cefnogi angen ychwanegol, gwasanaethau ymgysylltu ag ieuenctid ac ati<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Pa werth/fantais sydd i'r gwasanaethau cenedlaethol a lleol a drafodwyd wrth gefnogi ymddygiad cadarnhaol?<br><br>• Pa newidiadau rydych wedi eu gweld ar waith yn seiliedig ar y gwasanaethau cenedlaethol a lleol cyfredol a drafodwyd?<br><br>**Tasg Asesu:** Ymchwil grŵp a chyflwyno pob maes a drafodir yn y dosbarth ar sail ffynonellau gwybodaeth perthnasol a phriodol. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 – 4 dysgwr i gyflwyno pwyntiau allweddol y gwasanaethau cenedlaethol a lleol i blant hyd at 19 oed.<br><br>• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)<br>• Gwasanaethau addysg<br>• Dechrau'n Deg<br>• Y gwasanaethau prawf<br>• Gwasanaethau cymdeithasol<br>• Uned cefnogi ymddygiad arbenigol<br>• Tîm o Amgylch y Teulu<br>• Gwasanaethau ieuenctid<br><br>Pob grŵp i gyflwyno drwy gyflwyniad llafar gan ddefnyddio delweddau gweledol. Pob aelod o'r grŵp ag elfen gyfartal i'w chyflwyno. Cynigiwch gyfleoedd holi ac ateb a thrafod ymhellach drwy fewnbwn gan y dosbarth cyfan | | |

© WJEC CBAC Ltd.

## 4.2 Rhaglen Astudio (yn seiliedig ar tua 6 awr o gyflwyno yr wythnos)

Mae'r rhaglen astudio hon yn cynnig un dull posibl o ddysgu'r cwrs. Ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os oes mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gellir teilwra'r rhaglen i'w harbenigeddau unigol.

Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn mabwysiadu dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

Uned orfodol 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru
Testun 3 – Darpariaeth gofal iechyd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant.

(Gellir defnyddio gweithgareddau ac asesiadau ar gyfer gwersi o bell neu wyneb yn wyneb drwy ddefnyddio'r cyfleusterau mewn rhaglenni ar-lein a llwyfannau addysgu – mae'r adran adnoddau wedi'i lleihau i adlewyrchu'r angen am y ddau fformat addysgu)

| Maes Testun | Wyth nos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed** | 1 | **Darpariaeth gofal iechyd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant.**<br><br>**Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Datblygu dealltwriaeth eglur o rolau gweithwyr proffesiynol /gweithwyr / gofal iechyd a'r timau amrywiol. Trafod sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i hybu iechyd plant 0-19 yn ymarferol. Trafod y newidiadau posibl i'r amserlenni imiwneiddio a gynlluniwyd a pham gallen nhw ddigwydd, e.e. penderfyniadau ar sail gwybodaeth i beidio ag imiwneiddio. | NICE Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd Gofal cynenedigol ar gyfer beichiogrwydd nad yw'n gymhleth https://www.nice.org.uk/Guidance/CG62<br>GIG/NHS – Your Antenatal care https://www.nhs.uk/pregnancy/your-pregnancy-care/your-antenatal-care/ | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i drafod a chreu diagram corryn mewn grwpiau. Canolbwyntio ar fanteision iechyd i fenywod beichiog o gael sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **MPA 3.1** | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafod y gwasanaethau iechyd y mae'n bosibl eu defnyddio i gefnogi datblygiad ac ehangu gwybodaeth drwy gael dealltwriaeth ddamcaniaethol eang a manwl<br><br>o sut mae gwasanaethau sgrinio Llywodraeth Cymru yn hybu iechyd a llesiant a sut maen nhw'n effeithio ar iechyd drwy gydol bywyd. Datblygu dealltwriaeth o arwyddocâd adnabod unrhyw gyflwr iechyd penodol yn gynnar er mwyn i ddysgwyr gael dealltwriaeth ehangach ac ar lefel uwch, e.e. Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac ati.<br><br>Ffynhonnell wybodaeth: GIG Cymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru https://icc.gig.cymru/<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o broses a phwysigrwydd sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd sy'n digwydd cyn cenhedlu. Trafod yr amrywiaeth o gymorth mamolaeth a ddarperir yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>Beth yw arwyddocâd cael gofal cyn-geni i anghenion iechyd mam a phlentyn?<br><br>Sut mae'n bosibl cefnogi mam yn emosiynol wrth iddi gwrdd â'i bydwraig a'i meddyg teulu?<br><br>Pa fath o archwiliadau ac ymweliadau fyddai eu hangen, yn eich barn chi, yn ystod yr amserlen o apwyntiadau cyn geni? At beth fydden nhw?<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Canolbwyntiwch y drafodaeth dosbarth ar bwysigrwydd a gwerth sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn digwydd fel y bo angen yn ystod beichiogrwydd, yn rhan o ofal cyn-geni ac ôl-eni. | GIG/NHS – Antenatal checks and tests https://www.nhs.uk/pregnancy/your-pregnancy-care/antenatal-checks-and-tests/<br><br>GIG/NHS – Your 6-week postnatal check https://www.nhs.uk/conditions/baby/support-and-services/your-6-week-postnatal-check/ | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu sgiliau ymchwilio a gweld fideos gofal iechyd cysylltiedig:<br><br>• NICE Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd – Gofal cyn-geni ar gyfer beichiogrwydd nad yw'n gymhleth/Antenatal care for uncomplicated pregnancies https://www.nice.org.uk/Guidance/CG62<br>• GIG/NHS – Your Antenatal care https://www.nhs.uk/pregnancy/your-pregnancy-care/your-antenatal-care/<br>• GIG/NHS – Antenatal checks and tests https://www.nhs.uk/pregnancy/your-pregnancy-care/antenatal-checks-and-tests/<br>• GIG/NHS – Your 6-week postnatal check https://www.nhs.uk/conditions/baby/support-and-services/your-6-week-postnatal-check/<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i drafod a chreu diagram corryn mewn grwpiau. Canolbwyntio ar y manteision iechyd i fam feichiog o gael sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd yn rhan o ofal cyn-geni ac yn ganolbwynt i'r cymorth parhaus sy'n cael ei roi drwy ofal ôl-eni i'r fam ac i'r plentyn. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>**MPA 3.1** | 2 | **Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.**<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr mewn perthynas â sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd. Yr amrywiaeth o fonitro a sgrinio rheolaidd ac afreolaidd cyn ac ar ôl y cenhedlu hyd at 19 oed, e.e. sganiau cyn-geni.<br>Datblygu dealltwriaeth eglur o rolau staff gofal mamolaeth a gweithwyr proffesiynol gofal, e.e. bydwraig, sonograffydd, meddyg teulu, ymwelydd iechyd ac ati. Trafod sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i hybu iechyd y fam ac iechyd plant yn ymarferol.<br>Ffynonellau gwybodaeth: Rhaglen Plant Iach Cymru https://llyw.cymru/trosolwg-or-rhaglen-plant-iach-cymru<br>Mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar https://llyw.cymru/mamolaeth-ar-blynyddoedd-cynnar?_ga=2.237115328.1997013594.1619606985-1310273012.1619606985<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Sut mae gweithwyr proffesiynol gwahanol yn ymwneud ystod y beichiogrwydd?<br>• Beth fyddai ffocws y gofal i fydwraig ar ôl genedigaeth?<br>• Beth yw arwyddocâd cael archwiliadau ôl-eni i fam a phlentyn?<br>**Gweithgaredd:**<br>Dysgwyr i greu canllaw gwybodaeth i ddarpar rieni ar yr archwiliadau rheolaidd yn ystod gofal cyn-geni ac ôl-eni.<br>Archwiliadau rheolaidd i gynnwys:<br>• Pwysedd gwaed, e.e. Profion pwysedd gwaed i archwilio am haint neu gyflwr meddygol, mae'n helpu i wneud y beichiogrwydd yn fwy diogel | | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod<br><br>Dysgwyr i greu canllaw gwybodaeth i ddarpar rieni ar yr archwiliadau rheolaidd yn ystod gofal cyn-eni ac ôl-eni.<br>Pob dysgwr i gyflwyno ei ganllaw gwybodaeth i'r dosbarth |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Profion sgrinio, e.e. Archwilio taldra a phwysau'r fam, mae profion sgrinio'n dangos a oes gan y baban neu'r fam siawns uwch o fod â chyflwr penodol ac i ganfod unrhyw gyflyrau ac ati. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Profion gwaed, e.e. Grŵp gwaed a grŵp Rhesws D, anhwylderau gwaed etifeddol, e.e. clefyd cryman-gell / thalassaemia, archwilio am anaemia h.y. efallai bydd angen haearn neu asid ffolig ar y fam Sganiau e.e. sganiau uwchsain i wirio'r dyddiadau, nifer y ffoetysau, Sgan uwchsain (8-14 wythnos) sgan dyddio Sain uwchsain (20 wythnos) i archwilio am 11 cyflwr corfforol<br>• Hanes teulu e.e. Asesu llesiant y fam a'r baban, gall ddangos bod angen rhagor o sgrinio<br>• Prawf diabetes beichiogrwydd – profion gwaed goddefedd glwcos geneuol (OGTT) yn cael ei wneud ar famau â risg uwch<br>• Profion wrin, e.e. Profion wrin i archwilio am brotein yn yr wrin a allai fod yn arwydd o gyneclampsia ac ati.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Pob dysgwr i gyflwyno ei ganllaw gwybodaeth i'r dosbarth gan nodi'r rhesymau dros ei ddewisiadau o ran arddull, delweddau gweledol a gosodiad y wybodaeth er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y darllenwyr o bwysigrwydd archwiliadau rheolaidd a gofal mamolaeth. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th>Maes Testun</th><th>Wythnos</th><th>Rhaglen Astudio</th><th>Adnoddau</th><th>Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig</th></tr>
<tr><td>Uned orfodol 330<br><br>Testun 3: Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed<br><br>MPA 3.1</td><td>3</td><td>Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.<br><br>Canolbwyntiwch ddysgu'r ystafell ddosbarth ar gael y wybodaeth am raglenni imiwneiddio cyfredol ac ar ddeall eu gwerth a'u heffaith, e.e. Gwerth ac effaith pigiadau atgyfnerthu cyn ysgol ar iechyd, llesiant a datblygiad plant drwy gydol eu bywydau. Trafodwch bwysigrwydd brechiadau i'n hamddiffyn ein hunain rhag afiechyd a chlefydau. E.e.<ul><li>Atal miliynau o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn.</li><li>Mae rhaglenni imiwneiddio'n cefnogi teuluoedd i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant</li><li>Cefnogi gwasanaethau blynyddoedd cynnar i hybu llesiant plant</li><li>Galluogi mwy o blant i gyflawni eu potensial llawn a chynyddu eu siawns o ran iechyd ac ati</li></ul>Ffynhonnell wybodaeth – GIG Cymru – Imiwneiddio a brechlynnau<br>https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/<br><br>Trafod gwerth ac effaith imiwneiddio o ran amddiffyn plant rhag llawer o glefydau plentyndod difrifol, drwy gydol eu bywyd, gan gynnwys:<ul><li>Y pas (whooping cough)</li><li>Y frech goch</li><li>Brech Almaenig (rwbela)</li><li>Brech yr ieir</li><li>Tetanws</li><li>Clwy'r pennau (mumps)</li><li>Polio</li><li>Diphtheria ac ati.</li></ul></td><td>Rhaglen imiwneiddio yn ystod plentyndod Iechyd Cyhoeddus Cymru: Imiwneiddio a brechlynnau<br>https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/<br><br>Y GIG: Y Rhaglen Imiwneiddio Plant o fis Hydref 2017<br>https://111.wales.nhs.uk/pdfs/routine%20childhood%20immunisation%20schedule%20-%20welsh_%20pdf<br><br>Y GIG: Ydi eich plentyn chi wedi cael pob brechiad?<br>https://111.wales.nhs.uk/pdfs/ChildrensImm.pdf<br>Gwyliwch fideo Saesneg y GIG – Why vaccination is safe and important</td><td>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Nodwch y rhesymau posibl pam nad yw rhai plant yn cael brechiadau rheolaidd<br><br>Dysgwyr i ymchwilio'n annibynnol i'r manteision i blant o gael brechiadau rheolaidd neu i gael mynediad at sgrinio yn rhan o'r rhaglen arolygu iechyd plant.<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Trafodaeth ar werth brechu a'r manteision hirdymor sy'n gallu para gydol oes.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafod y rhaglen imiwneiddio, a'r rhesymau posibl pam mae newidiadau'n cael eu gwneud i'r rhaglenni presennol, e.e. Gall y newidiadau fod yn seiliedig ar egwyddorion moesegol neu dystiolaeth feddygol – 12-13 oed, HPV yn cael ei gynnig i fechgyn ac i ferched.<br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Beth yw'r rhesymau posibl pam mae rhieni'n petruso cyn cael eu plant wedi'u brechu?<br>• Sut gall brechu torfol helpu'r gymuned i gyd?<br>• Fel gweithiwr gofal plant proffesiynol, sut dylech chi gynghori rhiant sy'n poeni am y sgil effeithiau petaen nhw'n cael eu plant wedi'u brechu?<br>**Gweithgaredd:**<br>Gwyliwch fideo Saesneg y GIG – Why vaccination is safe and important https://www.nhs.uk/conditions/vaccinations/why-vaccination-is-safe-and-important/<br>Dysgwyr i drafod eu safbwyntiau ar y pwnc, nodi'r rhesymau posibl pam nad yw rhai plant yn cael brechiadau rheolaidd neu'n cael mynediad at sgrinio yn rhan o raglen arolygu iechyd plant, e.e.<br>• Penderfyniadau ar sail gwybodaeth – mae rhai grwpiau penodol cydnabyddedig sy'n methu cael eu himiwneiddio, e.e. alergeddau, adwaith anffafriol, imiwnedd isel, cyflwr meddygol, adwaith anaffylactig wedi'i gadarnhau i ddos blaenorol ac ati.<br>• Penderfyniadau heb fod ar sail gwybodaeth – mae rhai rhieni'n dewis peidio â chael eu plant wedi'u brechu, e.e. rhesymau crefyddol, credoau personol, angen rhagor o addysg am y pwnc, pryder a gofid, dadl ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati.<br>**Tasg Asesu:**<br>Rhowch siart a phoster y rhaglen imiwneiddio i'r dysgwyr. Trafodwch werth brechu a'r manteision hirdymor sy'n gallu para gydol oes.<br>Dysgwyr i ymchwilio'n annibynnol i'r manteision i blant o gael brechiadau rheolaidd neu i gael mynediad at sgrinio yn rhan o'r rhaglen | https://www.nhs.uk/conditions/vaccinations/why-vaccination-is-safe-and-important/<br>Rhowch siart a phoster y rhaglen imiwneiddio i'r dysgwyr. | Dysgwyr i ymchwilio'n annibynnol i'r manteision i blant o gael brechiadau rheolaidd neu i gael mynediad at sgrinio yn rhan o'r rhaglen arolygu iechyd plant. Trafodwch y canfyddiadau a'r safbwyntiau â'r dosbarth. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | arolygu iechyd plant. Trafodwch y canfyddiadau a'r safbwyntiau â'r dosbarth. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>**MPA 3.2** | 4 | **Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu.<br>Canolbwyntio dysgu'r dosbarth fel bod dysgwyr yn dod i wybod am wasanaethau sgrinio Llywodraeth Cymru ac i'w deall. Trafod gwerth ac effaith y rhaglen arolygu iechyd plant. Rhoi gwybodaeth gadarn am gefnogi datblygiad o safbwynt gofal iechyd i ddysgwyr, sy'n allweddol er mwyn datblygu gwybodaeth gyfannol.<br>**Gweithgaredd:**<br>Trafodaethau'n cynnwys:<br>• Sgrinio Cyn Geni Cymru, e.e. Trafodwch bwrpas y profion sgrinio i ddangos a oes gan faban siawns uwch o fod â chyflwr a all effeithio naill ai ar y fam neu ar y baban. Trafodwch arwyddocâd y profion sy'n dangos heintiau a allai niweidio'r baban, e.e. HIV, hepatitis B neu syffilis. Yn ogystal, effaith canfod grŵp gwaed y fam, clefyd rhesws, ac a oes unrhyw wrthgyrff yng ngwaed y fam. Trafodwch yr anhwylderau gwaed sy'n etifeddol, e.e. clefyd y cryman-gell, thalassaemia<br>• Sgrinio Clyw Babanod Cymru, e.e. Trafodwch y prawf sgrinio i fabanod sy'n gallu cael ei wneud i fabanod hyd at 3 mis oed. Canolbwyntiwch ar nodau'r rhaglen sgrinio clyw babanod i adnabod byddardod parhaol, cymedrol a dwys, a nam ar y clyw mewn babanod newydd-anedig. Cyswllt ag arwyddocâd adnabod yn gynnar sy'n gallu rhoi gwell siawns i'r babanod hyn ddatblygu iaith, lleferydd a sgiliau cyfathrebu.<br>• Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Cymru – e.e. Trafodwch y sgrinio sy'n digwydd gyda sampl o smotyn gwaed baban newydd-anedig sy'n cael ei gymryd o sawdl y baban, ar bumed diwrnod bywyd y baban. | Dysgwyr i ymchwilio i brofion sgrinio GIG Cymru i gael gwybodaeth gywir ar gyfer eu taflen fel grŵp. | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Taflenni – dysgwyr i rannu a thrafod beth oedd eu barn am waith pob grŵp er mwyn gwneud asesiad gan gyfoedion o'i gynnwys a'i werth o ran ei ddefnyddio fel taflen gofal iechyd.<br><br>Ar ôl cwblhau'r taflenni, dysgwyr i rannu a thrafod beth oedd eu barn am waith pob grŵp i wneud asesiad gan gyfoedion o'i gynnwys a'i werth o ran ei ddefnyddio fel taflen gofal iechyd. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dysgwyr i addasu eu taflenni, yn seiliedig ar yr adborth a roddwyd. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Canolbwyntiwch ar arwyddocâd y sampl gwaed hwn a ddefnyddir i sgrinio am glefydau prin ond difrifol sy'n gallu achosi afiechyd difrifol neu farwolaeth hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael eu trin yn gynnar. Canolbwyntiwch ar y rolau proffesiynol a sut mae'r prawf sgrinio'n cael ei wneud gan fydwraig ac yn rhan o ofal ôl-eni rheolaidd.<br><br>• Sgrinio am Oes  e.e. Trafodwch yr ymgyrch flynyddol sy'n cael ei rhedeg drwyddi draw gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Is-adran Sgrinio. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen sgrinio genedlaethol yng Nghymru. Mae rhaglenni sgrinio yn fentrau iechyd pwysig gan eu bod yn galluogi problemau iechyd posibl i gael eu canfod a'u trin yn gynnar.<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Trafodwch drafodaethau ynghylch pob maes sgrinio y canolbwyntiwyd arno yn y dosbarth. Dysgwyr i weithio mewn grwpiau bychain i greu taflen gofal iechyd weledol a llawn gwybodaeth ar, e.e. Sgrinio am oes, Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Cyn Geni Cymru. Neilltuo rôl benodol i bob person ym mhob grŵp.<br>Cynnwys enghreifftiol i'r daflen:<br>• Cyflwyniad i'r profion.<br>• Y mathau o brofion a phryd byddan nhw'n cael eu cynnig.<br>• Beth fydd yn digwydd yn ystod y prawf, neu pa fath o brawf ydy e?<br>• Beth yw manteision cael y profion sgrinio?<br>• Beth fydd yn digwydd os bydd cyflwr neu bryder iechyd yn cael ei ganfod?<br>• Cyfeiriadau a chymorth<br>Ar ôl cwblhau'r dasg taflenni, gall y dysgwyr rannu a thrafod beth oedd eu barn am waith pob grŵp er mwyn gwneud asesiad gan gyfoedion o'r cynnwys a'r gwerth o ran ei ddefnyddio fel taflen gofal iechyd. Dysgwyr i addasu eu taflenni yn seiliedig ar yr adborth a roddwyd. Dylai pob | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dysgwr gael copi o daflen pob grŵp ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>**MPA 3.2** | 5 | **Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall swyddogaeth/rôl, gwerth ac effaith sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd ar blant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 mlwydd oed. Trafod yr amrywiaeth o brofion afreolaidd a gwerth ac effaith sgrinio ar gyfer iechyd a llesiant mewn plant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.<br><br>Profion afreolaidd i gynnwys:<br>• Profion genetig – efallai bydd profion, e.e. diagnosis o gyflyrau iechyd, yn dangos bod risg uwch o etifeddu cyflyrau, efallai bydd yn dangos bod angen cymorth meddygol neu'r driniaeth sydd ei hangen ac ati.<br>• Sganiau, e.e. Sganiau cyn-geni ychwanegol, genedigaethau lluosog, cleifion gordew, cyfyngiad ar dwf, baban yn fawr neu'n fach ar gyfer y dyddiad a ragwelwyd, beichiogrwydd lluosog, lleoliad anarferol i'r brych, beichiogrwydd ectopig ac ati.<br>• Profion am gyflyrau ac anhwylderau iechyd penodol, e.e. anhwylderau genetig ethnig risg uchel, hanes teulu o anhwylderau genetig, amniosentesis ar gyfer sgrinio am syndrom Down, syndrom Edward neu syndrom Patau.<br>• Samplu filws coronig (CVS), prawf tadogaeth<br>• profion afreolaidd a ariennir gan y GIG, os oes angen clinigol<br>• profion afreolaidd a ariennir gan unigolion sy'n chwilio am ymyriadau pellach/nad ydynt wedi'u comisiynu gan GIG Cymru.<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i greu taflen ffeithiau, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o swyddogaeth a rôl profion afreolaidd. Rhoi adborth am eu canfyddiadau i'r dosbarth a thrafod eu taflenni ffeithiau a'u gwybodaeth wedi'i thargedu fel dosbarth cyfan. | Rhoi i ddysgwyr amrywiaeth o ganllawiau gwybodaeth / taflenni ffeithiau / adnoddau am brofion afreolaidd er mwyn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr am sgrinio, monitro a'r profion amrywiol sydd ar gael. | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i greu taflen ffeithiau, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o swyddogaeth a rôl profion afreolaidd. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>**MPA 3.2** | 6 | **Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed**<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall swyddogaeth/rôl, gwerth ac effaith sgrinio, monitro a chynnal profion afreolaidd ar blant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 mlwydd oed.<br><br>Datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o effaith gwella iechyd y fam a phlant drwy adnabod pryderon iechyd, datblygiad yn gynnar drwy brofion gwaed, wrin, resbiradol a genetig a thrwy gyngor a chymorth deiet a maeth.<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr am arwyddocâd cynnig cyfleoedd drwy gymorth gofal iechyd i adnabod ffactorau ac ymddygiadau risg, fel materion diogelu, adnabod bod sylweddau'n cael eu camddefnyddio a chymorth ar gyfer hyn. Yn ogystal, effaith cefnogi teuluoedd drwy eu cyfeirio i gael cwnsela arbenigol lle bo angen, a gwerth cynyddu cymorth iechyd meddwl a llesiant. | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafodwch effaith sgrinio nad yw'n rheolaidd fel dosbarth.<br>Trafodaeth mewn amrywiaeth o grwpiau dosbarth ar y meysydd effaith canlynol, adborth i'r dosbarth cyfan i drafod ymhellach.<br><br>Dysgwyr i greu cyflwyniad PowerPoint ar effaith cynnal profion afreolaidd. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd:**<br>Trafodwch effaith sgrinio nad yw'n rheolaidd fel dosbarth. Hybwch drafodaeth mewn amrywiaeth o grwpiau dosbarth ar y meysydd effaith canlynol, adborth i'r dosbarth cyfan i drafod ymhellach.<br><br>**Syniadau ar gyfer y trafodaethau:**<br>• Pwysigrwydd addysgu i wella ffyrdd iach o fyw a chynyddu gweithgarwch corfforol drwy lythrennedd ac addysg iechyd<br>• Gall osgoi rhoi triniaeth ddiangen a gall fod er budd plant, teulu/gofalwyr a'r gwasanaethau iechyd<br>• Mae'n targedu pwysigrwydd diagnosis cywir ac amserol<br>• Mae'n cefnogi mesurau ataliol o ran gwella iechyd<br>• Efallai bydd modd cael mynediad cyflymach at driniaeth drwy ofal amserol ac wedi'i gydlynu<br>• Mae'n gwella iechyd a llesiant i'r eithaf drwy ofal cyson ar draws gwasanaethau<br>• Caiff cyflyrau iechyd penodol eu hadnabod drwy alluogi mynediad at arbenigedd paediatreg ac iechyd plant o ansawdd uchel yn y gymuned.<br>• Mae'n cefnogi ac yn dylanwadu ar ganlyniadau'r dyfodol drwy bartneriaethau mewn rhwydweithiau gofal a chymorth<br>• Gwasanaethau anghenion penodol a chysylltu gwybodaeth, data a chyfathrebu a gofal<br>• Annog rhieni/gofalwyr petrusgar i ddilyn y rhaglen frechu ar ran eu plentyn / plant<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i greu cyflwyniad PowerPoint ar effaith cynnal profion afreolaidd. Bydd angen i ddysgwyr ystyried yr effaith a chynnwys canllawiau amrywiol a chefnogi adnabod pryderon iechyd/datblygiad yn gynnar er mwyn gwneud diagnosis cywir ac amserol, er mwyn targedu cyflyrau iechyd penodol er budd plant, teulu/gofalwyr a'r gwasanaethau iechyd ac er mwyn osgoi rhoi triniaeth ddiangen. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.3** | 7 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>Dylai dysgwyr wybod am y rolau gwahanol sydd gan weithwyr gofal plant proffesiynol/gweithwyr yn y sector amrywiol hwn, dylen nhw eu deall a sut maen nhw'n hybu iechyd plant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.<br>Gweithwyr proffesiynol a thimau gofal iechyd i gynnwys:<br>• Gwasanaethau alcohol a chyffuriau<br>• Proffesiynau iechyd cysylltiedig<br>• Cwnselwyr<br>• Deintydd<br>• Meddyg teulu<br>• Ymwelydd iechyd<br>• Bydwraig<br>• Optegydd<br>• Therapydd chwarae<br>• Nyrsys cofrestredig<br>• Nyrsys ysgol.<br>Rhoi trosolwg o'r rolau swyddi gwahanol i'w trafod drwy'r testun. Trafod rolau a chyfrifoldebau nyrs ysgol. Rhoi amser i ddysgwyr drafod eu profiadau a rôl y nyrs ysgol y maen nhw wedi'i gweld yn ystod eu plentyndod. Canolbwyntio'r drafodaeth ar rôl y nyrs ysgol yn monitro twf a datblygiad iach, yn rhoi imiwneiddiadau, ac yn ymgymryd â'r Rhaglen Mesur Plant. | Gwybodaeth a chlip fideo Rhaglen Mesur Plant Cymru<br>https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-mesur-plant-cymru2/<br><br>Trosolwg o'r rolau swyddi gwahanol i'w trafod drwy'r testun | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i drafod eu profiadau a rôl y nyrs ysgol y maen nhw wedi'i gweld yn ystod eu plentyndod<br><br>Creu taflen i rieni/gofalwyr ar rôl a chyfrifoldebau'r nyrs ysgol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gyrfaoedd GIG Cymru: https://aagic.gig.cymru/gyrfaoedd/ | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd:**<br>Rhowch drosolwg i'r dysgwyr o rôl y swydd o ran hybu ffyrdd iach o fyw a dewisiadau ffordd o fyw, iechyd a llesiant emosiynol, rhoi imiwneiddiadau, monitro twf a datblygiad iach ac ymgymryd â'r Rhaglen Mesur Plant.<br><br>Trafodwch werth ac effaith cyfrifoldebau nyrs ysgol wrth weithio'n agos gydag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol, e.e. Ymwelwyr Iechyd, Meddygon Teulu, Gweithwyr Ieuenctid, Gwasanaeth Ymyrryd i Ieuenctid, Gweithwyr Cymdeithasol a Gwasanaethau Pediatreg Cymunedol.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Sut gall rôl nyrs ysgol hybu ffyrdd o fyw iach i blant oed ysgol gynradd?<br>• Sut gall nyrs ysgol gefnogi rhieni/gofalwyr?<br>• Beth yw rôl y nyrs ysgol o ran helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth yn gallu cael mynediad at addysg?<br>• Pa gyfrifoldebau a fyddai gan y nyrs ysgol i sicrhau bod cefnogaeth i blant a phobl ifanc mewn angen neu mewn perygl o gael niwed?<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Creu taflen i rieni/gofalwyr ar rôl a chyfrifoldebau'r nyrs ysgol.<br><br>**Meysydd a awgrymir i gynnwys:**<br>• Cyngor cyffredinol am gyflyrau iechyd<br>• Rhoi imiwneiddiadau<br>• Monitro twf a datblygiad iach<br>• Cymorth i rieni/gofalwyr, e.e. Cymorth gyda materion mynd i'r toiled / gwlychu'r gwely / rhwymedd | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.3** | 8 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**Optegydd**<br><br>Trafod rôl optegydd gan ganolbwyntio ar ei arbenigedd fel gweithiwr proffesiynol gofal golwg sy'n helpu cleifion i gael eu ffitio'n gywir â lensys cyswllt a sbectolau newydd ar ôl iddyn nhw gael presgripsiynau gan optometryddion ac offthalmolegwyr. Trafod sut mae optegwyr yn helpu cwsmeriaid hefyd i benderfynu pa lensys cyffwrdd neu fframiau sbectolau i'w cael.<br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodaeth grŵp ffocws ar rôl a chyfrifoldebau optegydd. Dysgwyr i osod nodiadau post-it ar y bwrdd o agweddau gwahanol ar y rôl.<br><br>**Er enghraifft:**<br>• Derbyn presgripsiynau ar gyfer lensys cyffwrdd neu sbectolau.<br>• Mesur a sicrhau bod sbectolau'n ffitio'n gywir, helpu cwsmeriaid i ddewis fframiau sbectolau a lensys, weithiau at anghenion penodol, h.y. chwaraeon neu ddefnydd galwedigaethol.<br>• Eu rôl yn rhoi addysg i gwsmeriaid am eu sbectolau ac yn trwsio ac yn rhoi fframiau sbectolau newydd fel sydd angen.<br>• Dysgwyr i greu trosolwg o'u canfyddiadau fel crynodeb o'r swydd.<br>**Deintydd**<br><br>Canolbwyntio'r drafodaeth ar rolau a chyfrifoldebau deintyddion a'u gwerth a'u heffaith ar reng flaen iechyd da y geg. Canolbwyntio ar | Trafod rôl optegydd gan ganolbwyntio ar ei arbenigedd – taflen ffeithiau rôl swydd<br><br>Nodiadau Post-it neu ddefnyddio'r bwrdd gwyn / platfform grŵp neu drafodaeth ar gyfer addysgu ar-lein<br><br>Trafod rôl y deintydd gan ganolbwyntio ar ei arbenigedd yn y gymuned – taflen ffeithiau rôl swydd | .<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwyr i osod nodiadau post-it ar y bwrdd o agweddau gwahanol ar rôl optegydd<br><br>Dysgwyr i greu diagram corryn o'r holl driniaethau a'r gweithdrefnau gwahanol y mae deintydd yn eu gwneud<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sut maen nhw'n gweithio gyda chymunedau i atal a thrin clefyd deintyddol/y genau, cywiro afreoleidd-dra deintyddol a thrin anafiadau deintyddol/wynebol. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • **Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>◦ Pa gyngor y gall deintydd ei roi i rieni/gofalwyr ynghylch y ffordd orau i annog eu plant i ofalu am eu dannedd?<br>◦ Sut gall deintyddion leihau pydredd dannedd, clefyd y deintgig a phroblemau eraill fel ymyriad cynnar i blant?<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i greu diagram corryn o'r holl driniaethau a gweithdrefnau gwahanol y mae deintydd yn eu gwneud mewn deintyddfa, e.e. rhoi diagnosis, trin ac atal pydredd dannedd a chlefyd y deintgig, archwiliadau rheolaidd, drilio, paratoi a llenwi tyllau, ffitio dannedd gosod a dyfeisiau eraill, digennu a llathru dannedd, tynnu dannedd sydd wedi pydru a rhoi cyngor ar hylendid y geg. Hefyd cywir afreoleidd-dra fel dannedd cam, yn enwedig mewn plant. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.3** | 9 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**Cwnselydd**<br><br>Cyflwyno amcanion y sesiwn a'r broses asesu.<br><br>Trafodwch werth ac arwyddocâd rôl cwnselydd. Y rhesymau amrywiol pam gall fod angen cwnsela ar bobl megis dyled, profedigaeth, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol, trais domestig, ac ati.<br><br>Canolbwyntio ar y sgiliau y bydd eu hangen ar gwnselydd, sy'n cynnwys gwrando'n astud ac yn amyneddgar, fel y gallwch chi ddechrau deall anawsterau'r cleient, gofyn cwestiynau i helpu'r cleient i archwilio gwahanol rannau o'i fywyd, arwyddocâd bod yn wrandäwr da, bod â sgiliau cyfathrebu da, a gofyn y cwestiynau cywir, hoffi gwrando ar eraill a deall pwysigrwydd peidio â dod i farn neu roi cyngor i'ch cleientiaid. Trafod arwyddocâd mai rôl y cwnselydd yw helpu pobl i weithredu drostyn nhw eu hunain.<br><br>Trafod sut mae'r rôl yn cefnogi strategaethau fel mynd ati'n fedrus i holi cwestiynau er mwyn helpu cleientiaid i archwilio agweddau amrywiol ar eu bywyd a'u teimladau, gan eu hannog i siarad mor rhydd ac agored ag sy'n bosibl, wrth i gleientiaid ddatgelu eu teimladau'n araf, efallai y byddan nhw'n rhyddhau teimladau dwys, fel dicter, gorbryder a galar, na fyddan nhw o bosibl wedi eu dangos o flaen eu teulu neu eu ffrindiau agosaf. Cewch eich hyfforddi sut i ymdrin â'r ffrwydradau emosiynol hyn, heb i chi eich hun gael eich effeithio'n emosiynol. Mae'n rhaid i chi allu cadw eich teimladau ar y naill ochr, er mwyn gallu helpu eich cleient. | Therapydd Plant – Clip fideo rolau a chyfrifoldebau<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=I-Jqj3WrrRU | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd:**<br><br>Datblygwch y ddealltwriaeth ei bod hi'n bwysig i gwnselwyr sefydlu perthynas lawn ymddiriedaeth â'u cleientiaid. Wrth i'r berthynas ddatblygu, mae llawer o gleientiaid yn gallu ymdrin ag agweddau ar eu bywyd efallai nad ydyn nhw wedi meddwl amdanyn nhw neu wedi teimlo eu bod yn gallu eu hwynebu o'r blaen.<br><br>Mewn grwpiau, ystyriwch pa mor bwysig yw hi nad yw cwnselwyr yn rhoi cyngor, yn dod i farn neu'n ceisio gorfodi atebion ar eu cleientiaid – nid dyna yw eu rôl. Mae'n rhaid mai'r nod bob amser yw galluogi pobl i nodi eu problemau a siarad amdanyn nhw, ac yna i weithredu drostyn nhw eu hunain wrth eu datrys nhw. Dylai dysgwyr gyflwyno esboniad byr o'r manteision i bobl sydd ag amgylchiadau ac anghenion emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol gwahanol. Datblygwch drafodaethau ynghylch y math o broblemau y gall pobl eu profi, fel helpu pobl i ymdopi ag, e.e.:<br>• Afiechydon cronig neu derfynol<br>• Profedigaeth<br>• Dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol<br>• Dioddefwyr trosedd<br>• Rhai sydd wedi goroesi damweiniau difrifol sy'n profi anhwylderau straen wedi trawma<br>• Myfyrwyr sydd â phroblemau personol, cymdeithasol ac academaidd<br><br>Dylai dysgwyr wneud nodiadau'n seiliedig ar eu trafodaethau a rhoi adborth i'r dosbarth am werth ac effaith rôl cwnselydd.<br><br>**Therapydd chwarae**<br>Trafodwch rôl a chyfrifoldebau therapydd chwarae wrth helpu a chefnogi plant, h.y. rhwng 3 a 11 oed fel arfer a phobl ifanc weithiau, a sut gall y cymorth hwn helpu teuluoedd hefyd i weithio drwy faterion a phrofiadau bywyd anodd. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodwch yr amrywiaeth o gymorth sy'n cael ei roi, e.e. cam-drin ac esgeuluso, profedigaeth, iselder a gorbryder, ysgariad a theuluoedd yn gwahanu, anawsterau dysgu, problemau seicolegol a phrofiadau trawmatig a thrais.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Pa fathau o brofiadau bywyd a allai achosi anawsterau emosiynol?<br>• Sut gall anghenion emosiynol plant gael budd o gael cymorth therapydd chwarae?<br>Mae therapyddion chwarae'n ymdrin â materion cymhleth nad yw'n bosibl eu trin yn yr un ffordd â gydag oedolion. Yn eich barn chi, pa sgiliau fyddai eu hangen ar therapyddion chwarae i gefnogi plant drwy faterion anodd bywyd? | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Mae therapyddion chwarae yn defnyddio dealltwriaeth plant o'r byd drwy chwarae i gefnogi sut mae plant yn eu mynegi eu hunain. Sut gall chwarae gefnogi a helpu gyda mynegiant plant?<br><br>Trafodwch amrywiaeth cyfrifoldebau therapydd chwarae, derbyn plant drwy hunanatgyfeiriad a chyfeiriadau gan weithwyr cymorth proffesiynol eraill mewn sefydliadau fel ysgolion, ysbytai, clinigau a'r gwasanaethau cymdeithasol. Datblygwch ddealltwriaeth y dysgwyr drwy glip fideo sy'n rhoi trosolwg o rôl Therapydd Chwarae – Rolau a chyfrifoldebau https://www.youtube.com/watch?v=I-Jqj3WrrRU<br><br>Trafodwch werth ac effaith eu rôl wrth asesu pob plentyn a'i anghenion unigol er mwyn penderfynu ar gwrs o driniaeth therapiwtig a rhoi'r ymyriadau therapiwtig priodol mewn sesiynau therapi unigol a grŵp i helpu plant i brosesu'r materion y maen nhw'n eu hwynebu ac i ymdopi â nhw.<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Mewn grwpiau, mae dysgwyr yn trafod yr amrywiaeth o strategaethau cefnogol ar gyfer datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant drwy ymyriad therapi chwarae. Dysgwyr i ychwanegu syniadau at daflen A3 wedi'i rhoi ar bob bwrdd, gan ddefnyddio ffotograffau ac astudiaethau achos unigol o blant i gefnogi eu trafodaethau. Gallai'r astudiaethau achos adlewyrchu plant sydd wedi profi cam-drin ac esgeuluso, profedigaeth, iselder a gorbryder, ysgariad a theuluoedd yn gwahanu, anawsterau dysgu, problemau seicolegol a phrofiadau trawmatig a thrais, ac ati. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gallai'r strategaethau ymwneud ag, er enghraifft:<br>• Meithrin perthynas o ymddiriedaeth â phlant ac â'u rhieni/gofalwyr<br>• Creu amgylchedd diogel a sefydlog lle mae'r plant yn gallu mynegi eu hunain<br>• Budd darparu ymyriadau therapiwtig yn rheolaidd<br>• Gweithio'n rhan o dîm amlddisgyblaethol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, fel gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr meddygol, ac ati.<br>• Cyfathrebu drwy gyfarfodydd, cynnal cofnodion cleientiaid a chynhyrchu adroddiadau ar weithgareddau a chynnydd.<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau'n seiliedig ar eu trafodaethau a rhoi adborth i'r dosbarth am yr amrywiaeth o strategaethau cefnogol ar gyfer datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant drwy ymyriad therapi chwarae. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.2** | 10 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Trafod rôl a chyfrifoldebau nyrs a'i rôl wrth ofalu am bobl sy'n sâl neu wedi cael anaf, gofalu am bobl sydd ag angen gofal arbennig, er enghraifft, oherwydd eu bod yn feichiog neu'n anabl.<br><br>**Nyrs**<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Pa fathau o sgiliau fyddai eu hangen arnoch chi wrth nyrsio?<br>• Pa rinweddau personol sy'n bwysig ar gyfer nyrsio?<br>• Nodi'r amrywiaeth o dasgau arferol y gall nyrs eu gwneud yn ei rôl.<br>Trafod y gwerth a'r sgiliau sydd eu hangen, er enghraifft bod yn llawn tact, parchu pob claf fel unigolyn, bod yn ofalgar a bod â phersonoliaeth gyfeillgar, agored, bod â sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm da a gallu ymdrin â sefyllfaoedd trallodus.<br>Trafod y 'meysydd' y mae nyrsys yn arbenigo ynddyn nhw.<br>• nyrsio oedolion<br>• nyrsio iechyd meddwl<br>• nyrsio anableddau dysgu<br>• nyrsio plant | Trafod rôl nyrs gan ganolbwyntio ar ei arbenigedd – taflen ffeithiau rôl swydd<br><br>Diagram Venn<br><br>Trafod rôl meddyg gan ganolbwyntio ar ei arbenigedd – taflen ffeithiau rôl swydd | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafod y gwerth a'r sgiliau sydd eu hangen<br><br>Trafod gwerth ac effaith rôl y nyrs<br><br>Dysgwyr i drafod a rhoi adborth ar yr amrywiaeth o gyfrifoldebau nyrsio ymarferol y mae'r rôl yn gallu ei chynnwys |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr ynghylch sut mae rôl y nyrs yn amrywio, yn seiliedig ar sut mae rhai cleifion yn aros am gyfnod byr yn yr ysbyty, ac mewn mannau fel clinigau cymunedol a meddygfeydd teulu, ac yna bydden nhw'n gweld llawer o gleifion mewn cyfnod byr o amser. Trafod sut bydd rôl y nyrs yn amrywiol iawn, e.e. ymdrin â braich wedi torri neu roi pigiad rhag clefyd trofannol i rywun sy'n mynd ar wyliau. Trafod sut mae nyrsio rhai cleifion, fel pobl sydd â chanser, yn gallu digwydd dros fisoedd neu flynyddoedd, a sut mae'r math hwn o nyrsio'n dibynnu ar berthynas glòs, lawn ymddiriedaeth rhwng y nyrs a'r claf.<br>O fewn nyrsio, mae llawer o feysydd gwaith.<br><br>**Trafod yr enghreifftiau canlynol o feysydd arbenigol:**<br>• gofal dwys<br>• gofal canser<br>• y theatr ac adferiad<br>• gofalu am bobl hŷn<br>Trafod gwerth ac effaith rôl y nyrs mewn 'meysydd' amrywiol a sut mae'r canolbwynt ar y person rydych chi'n gofalu amdano, nid yn unig ar y rheswm pam mae angen gofal meddygol arno.<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Datblygwch ddealltwriaeth y dysgwyr o wrando ar y claf a siarad ag ef, gan ateb cwestiynau ac ymdrin ag unrhyw bryder neu ofidiau a allai fod gan y claf, a gwerth siarad â theulu neu ofalwyr y claf i roi'r newyddion diweddaraf iddyn nhw am gynnydd y claf neu i esbonio triniaeth. | | Dysgwyr i wahaniaethu mewn parau neu grwpiau bach rhwng rôl nyrs gofrestredig a rôl meddyg teulu ac i greu diagram Venn. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Mae rôl nyrs yn cynnwys cefnogi anghenion emosiynol claf, gan ystyried unrhyw broblemau cymdeithasol neu bersonol a all fod gan glaf. Sut gall nyrsys fodloni anghenion gofal cleifion unigol?<br>•<br>Mae angen i nyrsys gadw cofnodion gofalus, cywir, a bod â chynllun gofal yn ei le. Pam mae'n bwysig newid y cynllun gofal, yn dibynnu ar eich arsylwadau o'r claf?<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i drafod a rhoi adborth ar yr amrywiaeth o gyfrifoldebau nyrsio ymarferol y mae'r rôl yn gallu ei chynnwys, e.e. gwirio tymereddau, rhoi cyffuriau a phigiadau, trin clwyfau a newid rhwymau, cadw cofnodion. Dysgwyr i wneud nodiadau a rhoi pwyntiau allweddol ar nodiadau Post-it un lliw a'u gosod ar y bwrdd gwyn.<br><br>**Meddyg**<br>Trafod rôl meddyg, helpu pobl, trin afiechyd, rhoi cyngor a thawelwch meddwl, a gweld effeithiau afiechyd ac iechyd da o safbwynt y claf. Trafod pwysigrwydd y rôl o ran archwilio'r symptomau y mae claf yn eu dangos wrth ystyried diagnosis posibl amrywiol neu nodi beth sydd ei angen i gefnogi'r claf yn feddygol. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Canolbwyntio ar y mathau o lwybrau y gall meddyg dan hyfforddiant eu dewis fel arbenigedd, o weithio mewn ysbyty fel llawfeddyg, i fod yn y gymuned fel meddyg teulu a'r rolau a'r cyfrifoldebau swydd amrywiol y mae'r rolau hyn yn eu cynnwys yn rhan o dîm amlddisgyblaethol, e.e. Mae'r arbenigeddau'n perthyn yn fras i un o'r categorïau canlynol.<br>• anaesthetigion<br>• gweithio mewn practis cyffredinol<br>• meddygaeth<br>• obstetreg a gynaecoleg<br>• offthalmoleg<br>• paediatreg<br>• patholeg<br>• seiciatreg<br>• radioleg<br>• llawfeddygaeth (gan gynnwys llawfeddygaeth ddeintyddol)<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Dysgwyr i drafod sut mae meddygon yn rhoi meddyginiaeth i helpu pobl ac i drin eu hafiechyd, yn rhoi cyngor a thawelwch meddwl, ac yn canolbwyntio ar weld effeithiau afiechyd ac iechyd da o safbwynt y claf. Yna dylai'r dysgwyr roi adborth i'r dosbarth am eu safbwyntiau ar y rolau a'r cyfrifoldebau.<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i wahaniaethu mewn parau neu grwpiau bach rhwng rôl nyrs gofrestredig a rôl meddyg teulu ac i greu diagram Venn yn seiliedig ar y rolau a'r cyfrifoldebau unigol ac i asesu'r elfennau sy'n gorgyffwrdd yn y ddwy rôl. Rhoi adborth am eu canfyddiadau i'r dosbarth a thrafod eu barn a'u safbwyntiau fel dosbarth cyfan. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3: Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.3** | 11 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**Bydwraig**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu.<br>Trafod rôl bydwraig sy'n gofalu am fenywod beichiog, cyn, yn ystod ac ar ôl yr enedigaeth. Ymwneud â gofalu am y baban. Cefnogi rhieni newydd i baratoi at yr enedigaeth, rhoi cyngor ynghylch gofalu am fabanod newydd-anedig, a rhoi cyngor a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol. Datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r cyfrifoldebau yn y rôl, gofalu am y fam a'r baban a'r rôl drwy gydol beichiogrwydd yn archwilio'r fam a'r baban, gan gyfeirio unrhyw beth anarferol at feddyg.<br><br>Trafodwch y ffactorau sydd ynghlwm wrth rôl bydwraig, er enghraifft, bod yn gyfrifol am esgor ar y baban, gofalu am y fam a'i chefnogi pan mae ar esgor, hefyd ar ôl yr enedigaeth, y rôl yn parhau i ofalu am y fam a'r baban, gan roi cyngor ynghylch bwydo a gofalu am y baban ac ati.<br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Pa fathau o fanylion cofnodion o hanes meddygol y fenyw fyddai eu hangen er mwyn asesu ei hiechyd?<br>• Pam byddai angen i fydwraig ddatblygu perthynas glòs, lawn ymddiriedaeth â'r fenyw feichiog?<br>• Fel bydwraig, pam byddai hi'n bwysig archwilio'r fam a'r baban heb ei eni yn rheolaidd yn ystod y beichiogrwydd?<br>• Pa fathau o gymorth ac addysg i fenywod beichiog a'u partneriaid a fyddai'n aml yn digwydd drwy ddosbarthiadau arbennig?<br>• Ar ôl yr enedigaeth, sut mae bydwraig yn cefnogi'r rhieni i ofalu | Diagram Venn | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafod y ffactorau sy'n ymwneud â rôl bydwraig.<br><br>Trafod yr amrywiaeth o gefnogaeth y mae rôl ymwelydd iechyd yn ei rhoi.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn parau neu mewn grwpiau bach i greu diagram corryn yn seiliedig ar eu gwybodaeth am rôl yr ymwelydd iechyd wrth gefnogi babanod, plant |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | am y baban? | | ifanc a theuluoedd / gofalwyr. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Ymwelydd iechyd**<br><br>Trafod gwasanaethau ymwelwyr iechyd wrth asesu datblygiad y plentyn a rhoi asesiad proffesiynol o wydnwch teuluol drwy ystyried y lleoliad cyfan, yr amgylchedd a'r dylanwadau ehangach fel ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac effaith rôl yr ymwelydd iechyd o ran asesu a oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn a/neu'r teulu er mwyn ymdrin â meysydd pryder.<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o waith gwasanaeth ymwelwyr iechyd Cymru mewn partneriaeth i ddatblygu Dull Asesu Gwydnwch Teuluol Ymwelwyr Iechyd Cymru (Health Visiting Family Resilience Assessment Instrument Tool FRAIT) i adnabod anghenion ychwanegol, nodi pryderon diogelu posibl, a darparu ymyriadau i adolygu a gwerthuso cynnydd.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br>• Sut mae ymwelwyr iechyd yn cefnogi ac yn annog sgrinio cyffredinol?<br>• Mae ymwelwyr iechyd yn gallu rhoi gwasanaeth ymweld i fam sy'n disgwyl ei baban cyntaf, pa resymau eraill allai fod dros roi cymorth wedi'i dargedu?<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Trafodwch yr amrywiaeth o gefnogaeth y mae rôl ymwelydd iechyd yn ei rhoi. Cefnogwch wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o ymwelydd iechyd a sut mae'r rôl yn darparu ar gyfer asesiadau twf a datblygiad babanod a phlant ifanc. Gall dysgwyr weithio mewn parau neu mewn grwpiau bach i greu diagram corryn yn seiliedig ar eu gwybodaeth am rôl yr ymwelydd iechyd wrth gefnogi babanod, plant ifanc a theuluoedd / gofalwyr. | | Trafodwch ganfyddiadau pob grŵp fel dosbarth, ac fel dosbarth cyfan, ystyriwch eu hymatebion<br><br>Dysgwyr i greu diagram Venn yn seiliedig ar y cymorth i famau yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd, gwahanwch y diagram Venn i rôl y fydwraig a rôl yr ymwelydd iechyd<br><br>Gall dysgwyr rannu eu pwyntiau allweddol yn seiliedig ar eu trafodaethau drwy adborth fel grŵp i'r dosbarth. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodwch ganfyddiadau pob grŵp fel dosbarth ac fel dosbarth cyfan, ystyriwch eu hymatebion a thrafodwch sut mae'r rôl yn helpu i gefnogi rhieni gyda chyngor diddyfnu a chyngor am y baban, yn hybu ymlyniad diogel a bondio rhwng rhiant / gofalwr a'r baban ac yn trafod cerrig milltir datblygiad disgwyliedig, yn ogystal mae ymwelwyr iechyd yn cefnogi'r<br>teulu/gofalwyr o ran negeseuon iechyd allweddol, e.e. bwydo o'r fron, iechyd deintyddol, maeth iach a hybu datblygiad y baban.<br><br>**Tasg Asesu:**<br>Dysgwyr i greu diagram Venn yn seiliedig ar y gefnogaeth i famau yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd, gwahanu'r diagram Venn i rôl y fydwraig a rôl yr ymwelydd iechyd, gan gynnwys y cysylltiadau a'r berthynas rhwng y ddwy rôl a lle maen nhw'n gorgyffwrdd o ran eu cefnogaeth. Gall dysgwyr rannu eu pwyntiau allweddol yn seiliedig ar eu trafodaethau drwy adborth fel grŵp i'r dosbarth. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.3** | 12 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**Gwasanaethau alcohol a chyffuriau**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Trafod â'r dysgwyr werth ac effaith gwasanaethau alcohol a chyffuriau i gefnogi a diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed drwy feithrin eu hunaneffeithiolrwydd a'u gwydnwch rhag risg.<br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o rôl y gwasanaeth alcohol a chyffuriau o ran lleihau'r agweddau tuag at alcohol fel rhywbeth sy'n hwyluso cymdeithasu a chynnal cyfeillgarwch. Rhoi data ffeithiol am beth yw camddefnyddio sylweddau a chanlyniadau posibl caethiwed ar iechyd meddwl, perthnasoedd teulu, a meysydd gweithredu eraill. Codi ymwybyddiaeth o sut gall cyffur effeithio ar eich meddwl a'ch corff, a gwneud i ddysgwyr ddeall a sylweddoli'r niwed posibl a allai ddigwydd, neu'r niwed sydd wedi digwydd yn barod.<br><br>Trafod yr amrywiaeth o gefnogaeth sy'n cael ei rhoi drwy wasanaethau cyffuriau ac alcohol a'u gwerth a'u manteision wrth addysgu plant a phobl ifanc am y ffactorau sy'n dylanwadu ar yfed dan oedran ac effeithiau camddefnyddio sylweddau. Codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r strwythurau cefnogi mewnol ac allanol amrywiol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad. Mae addysg camddefnyddio sylweddau yn gallu cynnwys gwybodaeth am gynnwys y driniaeth er mwyn paratoi pawb sy'n gysylltiedig at y canlyniadau posibl. Gweler y wefan: Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru<br><br>**https://dan247.org.uk/Default_Wales.asp** | Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru<br>**https://dan247.org.uk/Default_Wales.asp**<br><br>Fideos ymwybyddiaeth wedi'u gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc gan blant a phobl ifanc.<br><br>Cast Grange Hill Just say no<br>https://www.youtube.com/watch?v=kkQXnQ0pIDA<br><br>Ymwybyddiaeth Cyffuriau ac Alcohol – Heddlu De Cymru<br>https://www.youtube.com/watch?v=q_47H0VXNFw | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Rhoi cyfle i'r dysgwyr wneud clip fideo cymelliadol byr i'w rannu o bosibl â phobl ifanc i helpu i godi ymwybyddiaeth, atal camddefnyddio sylweddau, rhoi arweiniad a chynnig cefnogaeth. |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:
<ul>
<li>Sut gall oedolion gefnogi plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau iach ac i ddatblygu ymddygiad iach yn ystod eu bywydau?</li>
<li>Sut gall y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol dargedu cefnogaeth lle mae ei hangen fwyaf?</li>
</ul>
Gweithgaredd:<br>
Trafodwch â'r dysgwyr y ffactorau a'r dylanwadau pam mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â chamddefnyddio alcohol neu sylweddau. Efallai fod ganddyn nhw lai o gymhelliant yn yr ysgol a bod ganddyn nhw ddisgwyliadau is o ran cyflawniad, maen nhw'n tueddu i fod yn wrthryfelgar yn yr ysgol/gartref neu dydyn nhw ddim yn profi llawer o reolaeth gan rieni neu maen nhw'n cael anawsterau gyda straen, gorbryder ac iselder. Er mwyn dod i ddeall y rhesymau pam gall plant a phobl droi at alcohol neu gamddefnyddio sylweddau, mae'n bosibl eu gosod mewn categorïau oedrannau a chamau datblygiad.<br><br>
I gefnogi'r ddealltwriaeth hon, gall dysgwyr greu gêm didoli cardiau datblygiad mewn grwpiau bychain er mwyn dosbarthu amrywiaeth o ffactorau a dylanwadau posibl ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol gan grŵp oedran nodweddiadol:<br><br>
Enghreifftiau: oedran a chamau datblygiad nodweddiadol:
<ul>
<li>7-11 oed: lle mae plant yn dysgu datblygu'r cysyniad o ymddygiad cymdeithasol a moesau</li>
<li>12-15 oed: lle mae plant yn datblygu hunaniaeth, syniadau o dderbyn a chydymffurfio</li>
<li>16-19 oed: lle efallai bydd pobl ifanc yn newid o ran perthnasoedd personol a pherthnasoedd rhywedd, yn datblygu annibyniaeth a chyfrifoldeb mewn ymddygiad cymdeithasol personol ac ati.</li>
</ul>
Pob grŵp i grynhoi ac adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth.<br><br>
Tasg Asesu:
</td>
<td></td>
<td>I gefnogi'r ddealltwriaeth hon, gall dysgwyr greu gêm didoli cardiau datblygiad mewn grwpiau bychain er mwyn dosbarthu amrywiaeth o ffactorau a dylanwadau posibl ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol gan grŵp oedran nodweddiadol.</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhoi cyfle i'r dysgwyr wneud clip fideo cymelliadol byr i'w rannu o bosibl â phobl ifanc i helpu i godi ymwybyddiaeth, atal camddefnyddio sylweddau, rhoi arweiniad a chynnig cefnogaeth. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Enghreifftiau o fideos:**<br><br>Mae'r ddwy ddolen yn cynnig fideos ymwybyddiaeth wedi'u gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc gan blant a phobl ifanc.<br><br>Cast Grange Hill Just say no<br>https://www.youtube.com/watch?v=kkQXnQ0plDA<br><br>Ymwybyddiaeth Cyffuriau ac Alcohol – Heddlu De Cymru<br>https://www.youtube.com/watch?v=q_47H0VXNFw | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gweithgareddau asesu/gwaith cartref awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector**<br><br>**MPA 3.3** | 13 | **Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector.** Cyflwyno amcanion y sesiwn a'r broses asesu. Trafod amrywiaeth a gwerth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc drwy anghenion iechyd penodol.<br><br>Rolau a chyfrifoldebau anghenion Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, e.e.<br><br>• **Therapi celf, cerddoriaeth a drama** – cefnogi anghenion seicolegol / emosiynol / gwybyddol / corfforol / cyfathrebu / llesiant a chymdeithasol<br><br>• **Dieteg** – rhoi cyngor ymarferol i gymell cleientiaid, cleifion a gofalwyr / hybu technegau newid ymddygiad / gwella iechyd a thrin clefydau neu gyflyrau / rhoi cyngor ar ddeiet er mwyn osgoi sgil effeithiau meddyginiaethau<br><br>• **Therapyddion galwedigaethol** –rhoi cymorth i bobl y mae eu hiechyd yn eu hatal rhag gwneud y gweithgareddau sy'n bwysig iddyn nhw / nodi cryfderau ac anawsterau a all fod gan bobl yn eu bywyd bod bydd / ymarfer y gweithgaredd mewn camau hawdd eu trin / darparu cyfarpar a dyfeisiadau neu addasu eich amgylchedd fel bod gweithgareddau'n haws<br>• **Radiograffeg** – Diagnosteg a therapiwtig – Diagnosteg – rhoi diagnosis o salwch ac anafiadau, a therapiwtig trin pobl sydd â chanser a gofalu amdanyn nhw<br><br>• **Ffisiotherapydd** – gweithio gyda phobl sydd ag amrywiaeth eang o gyflyrau, e.e. cyflyrau cyhyrsgerbydol / cardiofasgwlar / | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weld fideos ar y rolau swyddi amrywiol neu gael profiad o siaradwyr gwadd i gefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y maes iechyd hwn.<br><br>Taflenni ffeithiau rolau swyddi / fideos o weithwyr proffesiynol / siaradwyr gwadd | Trafod amrywiaeth a gwerth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc drwy anghenion iechyd penodol.<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | resbiradol a meddygol hirdymor – asesu'r broblem a phenderfynu sut i'w thrin, drwy symud ac ymarfer neu therapi â llaw / tylunio<br><br>• **Podiatreg** – trin pobl sydd ag afiechyd neu gyflwr isorweddol sy'n rhoi eu coesau a'u traed mewn mwy o berygl o gael anaf – y nod yw gwella symudedd / annibyniaeth / ansawdd bywyd i gleifion – trin unrhyw angen gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'r droed a'r migwrn.<br><br>• **Ymarferydd yr Adran Lawdriniaethau** – gweithio wrth ochr llawfeddygon / anesthetyddion a staff gofal iechyd eraill mewn tîm. Rhan hanfodol o dîm amlddisgyblaethol y theatr lawdriniaethau / rhoi safon uchel o ofal sy'n canolbwyntio ar y claf yn ystod anesthesia / llawdriniaeth ac adferiad. Ymateb i anghenion corfforol a seicolegol cleifion.<br><br>• **Therapi lleferydd ac iaith** – asesu a thrin pobl sydd â phroblemau cyfathrebu, bwyta, yfed a llyncu a chyflyrau, e.e. anawsterau dysgu ysgafn, cymedrol neu ddifrifol / anableddau corfforol / oediad iaith / nam ar y clyw / taflod hollt / atal dweud / awtistiaeth / anawsterau rhyngweithio cymdeithasol<br>**Gweithgaredd:**<br><br>Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weld fideos ar y rolau swyddi amrywiol neu gael profiad o sgyrsiau gan weithwyr proffesiynol / siaradwyr gwadd i gefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r rolau amrywiol yn y maes iechyd hwn. | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**4.2 Rhaglen Astudio (yn seiliedig ar tua 6 awr o addysgu yr wythnos)**

Mae'r rhaglen astudio hon yn cynnig un dull posibl o ddysgu'r cwrs. Ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os oes mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gellir teilwra'r rhaglen i'w harbenigeddau unigol. Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn mabwysiadu dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

Uned orfodol 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

(Gellir defnyddio gweithgareddau ac asesiadau ar gyfer gwersi o bell neu wyneb yn wyneb trwy ddefnyddio'r cyfleusterau mewn rhaglenni ar-lein a phlatfformau addysgu - mae'r adran adnoddau wedi'i lleihau i adlewyrchu'r angen am y ddau fformat addysgu)

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Hyrwyddo dysgu 0-19 oed**<br><br>**MPA 4.1** | 1 | **Hyrwyddo dysgu 0-19 oed**<br><br>**Egwyddorion er mwyn sicrhau dysgu cynhwysol ar gyfer pob plentyn 0-19 oed.**<br><br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Datblygu gwybodaeth y dysgwr am strwythur yr uned a chynnwys y testun. Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gadarnhau eu gwybodaeth mewn perthynas â chynhwysiant ac ymestyn eu gwybodaeth drwy feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl o'r gwahanol arddulliau dysgu a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygiad a'r damcaniaethau sy'n sail i ddysgu'r plant mewn perthynas ag arddulliau dysgu, yr angen i gynllunio gweithgareddau sy'n defnyddio pob synnwyr ac sy'n diwallu anghenion y plant - mae hyn yn ymestyn o fathau o chwarae. | Pen lliw a phapur A3 ar gyfer gweithgaredd diagram corryn grŵp | Creu diagram corryn o syniadau o weithgareddau ac adnoddau cefnogol i blant 0-19 oed.<br><br>Adrodd yn ôl i'r dosbarth i gael trafodaeth bellach am fanteision cefnogi arddulliau dysgu'r plant drwy ystod o weithgareddau ac adnoddau.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu dealltwriaeth dysgwyr o werth plant yn cael gwahanol gyfleoedd mewn amgylcheddau ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu ac i gymryd rhan mewn profiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol amrywiol a sut gall plant o bob oedran gael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol/gweithwyr, teuluoedd/gofalwyr ac mewn sefyllfaoedd gwahanol i weithio tuag at gyflawni nodau a thargedau personol e.e. gwasanaethau atgyfeirio, cynlluniau unedig.<br><br>Datblygu a deall sut gall ymyrryd yn gynnar hyrwyddo iechyd a llesiant e.e. Mil o ddiwrnodau cyntaf ar y cyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a'r gofynion sydd eu hangen er mwyn cyfiawnhau newid ymarfer e.e. myfyrio, dadansoddiad risg a budd.<br><br>Datblygu dealltwriaeth dysgwyr ynghylch y tri phrif arddull dysgu y gallai plant 0-19 oed eu ffafrio a sut mae arddulliau dysgu yn effeithio ar ddysgu a datblygiad. Bydd yr arddulliau dysgu yn cynnwys clywedol, cinesthetig, gweledol.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafod yr ystod ddysgu sy'n digwydd o ganlyniad i wahanol brofiadau a chyfleoedd yn ystod plentyndod, a'r effaith ar sut mae plant yn dysgu i wneud synnwyr o'r byd, datblygu eu prosesau meddwl, rhesymeg, datrys problemau a dealltwriaeth.<br>Canolbwyntio ar y rhyngweithiadau rhwng plant ac oedolion fel y grym sy'n sail i hyrwyddo dysgu a datblygu, lle mae modelau rôl cadarnhaol yn cefnogi gydag esboniadau clir, cwestiynau ac atebion ac ati er mwyn cynorthwyo a datblygu dealltwriaeth bellach drwy broses weithgar. | | drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafod y mathau o arddulliau dysgu a sut mae plant ac oedolion yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol a thrwy arddulliau dysgu gwahanol, e.e. clywedol, cinesthetig, gweledol.<br><br>**Tasg asesu:**<br>Mewn grwpiau bach, mae dysgwyr yn trafod ystod o arddulliau, gweithgareddau neu adnoddau dysgu sydd ar gael yn eu lleoliad. Ystyried a thrafod sut gall gweithgareddau ac adnoddau cinesthetig, clywedol a gweledol gynnal y dysgu a chefnogi dealltwriaeth ar gyfer datblygiad plant i blant 0-19 oed. Creu diagram corryn o syniadau o weithgareddau ac adnoddau cefnogol i blant 0-19 oed. Adrodd yn ôl i'r dosbarth i gael trafodaeth bellach am fanteision cefnogi arddulliau dysgu'r plant drwy ystod o weithgareddau ac adnoddau. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4: Hyrwyddo dysgu 0-19 oed**<br>**MPA 4.1** | 2 | **Hyrwyddo dysgu 0-19 oed**<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o bwysigrwydd a gwerth sicrhau bod modd i blant achub ar gyfleoedd gwahanol mewn amgylcheddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol er mwyn hyrwyddo dysgu a datblygiad.<br><br>Trafod amrywiaeth o gyfleoedd dysgu'r cwricwlwm a rhai allgyrsiol i hyrwyddo dysgu a datblygu, trwy brofiadau dysgu dan do ac awyr agored, sy'n creu cyfleoedd i archwilio, arbrofi ac i gael profiadau ymarferol.<br><br>Gall cyfleoedd a gweithgareddau dysgu'r cwricwlwm a rhai allgyrsiol ymwneud â gweithgareddau llythrennedd digidol / TGCh, | Enghreifftiau ar fideo i helpu i ddeall gweithgareddau ac adnoddau dan do ac awyr agored y blynyddoedd cynnar.<br><br>Ardaloedd dysgu dosbarthiadau dan do-<br>https://www.youtube.com/watch?v=hr8d-MflX0g | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Rhannu'r dosbarth mewn grwpiau i drafod pwysigrwydd a gwerth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gweithgareddau creadigol, artistig, cerddorol ac ati trwy waith mewn parau, gwaith grŵp ac addysgu un i un trwy gymryd rhan mewn trafodaethau, cwestiynu, cyflwyniadau sy'n cynnig profiadau dysgu dwyieithog ac amlieithog gan gynnwys iaith arwyddion.<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o'r fantais o ennyn diddordeb plant drwy archwilio, arbrofi a thrwy brofiadau ymarferol i ddatblygu pob synnwyr ym mhrofiadau dysgu'r plant, drwy ymgysylltu â chyfoedion a gwneud ffrindiau a chreu hunaniaeth bersonol.<br><br>Gweithgaredd: Rhannu'r dosbarth mewn grwpiau i drafod pwysigrwydd a gwerth sicrhau bod plant yn achub ar gyfleoedd gwahanol mewn amgylcheddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol er mwyn hyrwyddo dysgu a datblygiad. Bydd y dysgwyr yn creu tabl i nodi ystod o weithgareddau a phrofiadau'r cwricwlwm a rhai allgyrsiol y gall plant gymryd rhan ynddynt. Datblygwch syniadau o'r manteision y gall pob un o'r mathau hyn o weithgareddau a phrofiadau eu cael ar gyfer datblygiad cyffredinol plant.<br><br>**Meysydd trafod enghreifftiol:**<br><br>• Cefnogi perthnasoedd cadarnhaol e.e. modelau rôl cadarnhaol, cyfleoedd i ryngweithio gyda phlant o wahanol grwpiau oedran ac ati.<br>• Datblygu hunan-barch e.e. cefnogi ymdeimlad o berthyn, hyder yn eu datblygiad eu hunain, grymuso a herio ac ati.<br>• Gwella gwydnwch e.e. Datblygu hunanbenderfyniad, meithrin goddefgarwch, sgiliau annibyniaeth ac ati<br>• Hyrwyddo cyfeillgarwch yn y gymuned ehangach e.e. datblygu parch at eraill, datblygu ymrwymiad, cefnogi cyfrifoldeb ac ati. | Ardaloedd dysgu dosbarthiadau yn yr awyr agored - https://www.youtube.com/watch?v=NFBxzozgLE8 | sicrhau bod plant yn achub ar gyfleoedd gwahanol mewn amgylcheddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol er mwyn hyrwyddo dysgu a datblygiad.<br><br>Bydd y dysgwyr yn creu tabl i nodi ystod o weithgareddau a phrofiadau'r cwricwlwm a rhai allgyrsiol y gall plant gymryd rhan ynddynt.<br><br>Datblygu syniadau o'r manteision y gall pob un o'r mathau hyn o weithgareddau a phrofiadau eu cael ar gyfer datblygiad cyffredinol plant.<br><br>Bydd y dysgwyr yn creu gweithgareddau dysgu addas i oedran i blant 3-7 oed sy'n cysylltu â'r meysydd dysgu yng Nghwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar sy'n cysylltu profiadau amlsynhwyraidd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg asesu:**<br><br>Canolbwyntio datblygiad, gwybodaeth a dealltwriaeth bellach o fantais ymgysylltu â phlant drwy archwilio, arbrofi a thrwy brofiadau ymarferol i ddatblygu pob synnwyr ym mhrofiadau dysgu'r plant. Rhannu'r dosbarth yn grwpiau i ddatblygu dau faes dysgu penodol yr un.<br><br>1. Gweithgaredd synhwyraidd dan do<br>2. Gweithgaredd synhwyraidd yn yr awyr agored<br><br>Enghreifftiau ar fideo i helpu i ddeall gweithgareddau ac adnoddau dan do ac awyr agored y blynyddoedd cynnar.<br><br>Ardal dan do - https://www.youtube.com/watch?v=hr8d-MflX0g<br><br>Ardaloedd awyr agored - https://www.youtube.com/watch?v=NFBxzozgLE8<br><br>**Enghreifftiau o syniadau i ddatblygu gweithgareddau'r dasg:**<br><br>• Golwg - arsylwi newid, creadigol, chwyddwydr ac ati.<br>• Sŵn - synau anifeiliaid, caneuon a rhigymau, geirfa allweddol ac ati.<br>• Cyffwrdd - synhwyraidd cyffyrddol, trafod deunyddiau newydd, bag neu flwch teimlo ac ati.<br>• Arogl - glaswellt, planhigion, poteli arogli ac ati<br>• Blas - samplu bwyd, gardd lysiau neu berlysiau, celfyddyd bwyd ac ati.<br><br>Bydd y dysgwyr yn creu gweithgareddau dysgu addas i oedran i blant 3-7 oed sy'n cysylltu â'r meysydd dysgu yng Nghwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar sy'n cysylltu profiadau amlsynhwyraidd. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.**<br><br>**MPA 4.2** | 3 | **Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.**<br><br>Cyflwyno amcanion y sesiwn a'r broses asesu. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr trwy drafodaeth dosbarth cyfan o'r ffordd y gall gweithwyr gofal plant gefnogi a herio plant i weithio tuag at eu nodau a thargedau unigol a'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad a allai gysylltu ag arddulliau dysgu unigol ac anghenion ychwanegol.<br><br>Dod i ddeall ystod o anghenion ychwanegol gan gynnwys anghenion ymddygiad a chymorth neu anghenion penodol, e.e. syndrom Down, dyspracsia, dyslecsia, dyscalcwlia, nam synhwyrol, clywedol, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) hefyd anghenion ychwanegol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu hystyried yn ddysgwyr mwy abl a thalentog.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Yn seiliedig ar eich profiadau a'ch gwybodaeth am weithio gyda phlant. Sut gallech gefnogi dewis ffordd y plentyn o ddysgu?<br>• Sut byddai'r dewis ffordd o ddysgu hon yn cael ei rhoi ar waith?<br>• Allwch chi uniaethu â phrofiadau o weithio gyda phlant a phobl ifanc lle mae cymorth ychwanegol wedi gwneud newid mewn anghenion ymddygiad?<br>• Sut gall gweithwyr gofal plant gefnogi a herio plant?<br>• Allwch chi awgrymu sut mae gweithwyr gofal plant yn helpu | | Bydd y dysgwyr yn creu diagram corryn ar anghenion penodol ar gyfer ystod o ADY<br><br>Bydd dysgwyr yn creu trafodaeth gyda ffocws ar fanteision cyflwyno ffiniau yn gynnar ac arwyddocâd cefnogi a herio plant.<br><br>Ymchwil a chyflwyniad grŵp o bob maes a drafodir mewn trafodaethau dosbarth ac ar ffynonellau gwybodaeth berthnasol a phriodol.<br><br>Bydd pob grŵp yn rhoi cyflwyniad llafar ac yn cyflwyno delweddau gyda phob aelod o'r grŵp yn cael elfen gydradd i'w chyflwyno. Cynnig cyfleoedd mewn sesiwn holi ac ateb a thrafodaethau pellach o gyfraniad y dosbarth cyfan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | plant i weithio tuag at eu nodau a'u targedau unigol?<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodwch ystod o anghenion ymddygiad a chymorth y gellir eu darparu. Bydd dysgwyr yn creu trafodaeth gyda ffocws ar fanteision cyflwyno ffiniau yn gynnar ac arwyddocâd cefnogi a herio plant a phobl ifanc.<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i greu diagram corryn o syniadau ar y maes trafod hwn gan ystyried pwysigrwydd cefnogaeth e.e.<br><br>1. Bod ar gael a gwneud amser i blant drafod materion<br>2. Trafod â phlant a gwrando arnynt yn ifanc iawn a gosod patrwm o gymorth am oes<br>3. Gwerth cael cymorth gan ffrindiau a rhoi cynnig ar ddulliau cadarnhaol<br>4. Gwerth cael cymorth gan eich meddyg teulu, ymwelydd iechyd neu athro eich plentyn<br>5. Bod yn fodlon rhoi cyfleoedd i blant er mwyn dangos y gellir ymddiried ynddynt<br><br>Gall grwpiau adrodd yn ôl i'r dosbarth am drafodaeth bellach ar fanteision cefnogi a herio plant a phobl ifanc wrth gydnabod anghenion gwahanol plant.<br><br>Datblygu trafodaeth yn y dosbarth i gael gwybodaeth a dealltwriaeth o werth gweithredu'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gydnabod anghenion wrth oruchwylio gweithrediad y lleoliad o ddydd i ddydd. Trafodwch arwyddocâd cysylltu â staff ysgolion a chynnig cyngor iddynt ar faterion ADY e.e. cynnig cymorth a hyfforddiant proffesiynol i'r holl staff er mwyn gallu dynodi, asesu a chynllunio'n | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynnar ar gyfer dysgwyr gydag ADY gan sicrhau bod y cynllun addysgol priodol ar waith i gefnogi anghenion dysgu cyfannol.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Canolbwyntio ar bwysigrwydd hyrwyddo cynhwysiant ym mhob maes dysgu yn y lleoliadau addysgol er mwyn darparu ar gyfer pob Angen Dysgu Ychwanegol, gall dysgwyr greu diagram corryn ar yr anghenion penodol ar gyfer ystod o ADY a'r meysydd datblygu y gallai fod angen cymorth pellach arnynt, er enghraifft:<br><br>• Oediad o ran datblygiad – Os nad yw plentyn neu berson ifanc yn gwneud cynnydd, neu os yw'n gwneud cynnydd ar gyfradd llawer arafach na'i gyfoedion<br>• Gwybyddol – effeithio ar allu person i ddysgu'n ddeallusol<br>• Lleferydd ac iaith – y gallu i ddefnyddio a deall iaith / mathau o gyfathrebu<br>• Cymdeithasol ac emosiynol – sy'n effeithio ar allu person i ddysgu sgiliau cymdeithasol, gallai achosi anhawster gyda hunanreolaeth neu gydag ymddygiad<br>• Sgiliau echddygol manwl – rheolaeth o'r bysedd a defnyddio gwrthrychau bach<br>• Sgiliau echddygol bras – rheolaeth o gyhyrau mawr<br>• Parlys yr ymennydd – Cyffni'r cyhyrau, llipandod, gwendid ac anawsterau wrth gydsymud | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Anawsterau ymddygiadol –Mae plant a phobl ifanc gydag anawsterau ymddygiadol yn tueddu i ddangos ymddygiad emosiynol neu aflonyddgar<br>• Cyflwr Sbectrwm Awtistig – anawsterau datblygiadol mewn cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol<br>• Gall ADHD – Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd – effeithio ar allu person i ganolbwyntio a'u rheolaeth ar fyrbwylltra<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Ymchwil a chyflwyniad grŵp o bob maes a drafodir mewn trafodaethau dosbarth ac ar ffynonellau gwybodaeth berthnasol a phriodol. Seilio trafodaethau ar bwysigrwydd hyrwyddo cynhwysiant ym mhob maes dysgu yn y lleoliadau addysgol er mwyn darparu ar gyfer pob Angen Dysgu Ychwanegol. Gellir pennu anghenion dysgu gwahanol i bob grŵp.<br><br>Mae angen i ddysgwyr ystyried effaith dysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion dysgwyr unigol i bersonoli profiadau dysgu er mwyn creu nod clir y mae'n bosibl ei gyflawni mewn amgylchedd sy'n sensitif ac yn fyfyriol er mwyn i'r dysgwyr deimlo'n ddiogel i wneud camgymeriadau ac annog ymddygiad cadarnhaol.<br><br>Bydd pob grŵp yn rhoi cyflwyniad llafar ac yn cyflwyno delweddau gyda phob aelod o'r grŵp yn cael elfen gydradd i'w chyflwyno. Cynnig cyfleoedd mewn sesiwn holi ac ateb a thrafodaethau pellach o gyfraniad y dosbarth cyfan. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.**<br><br>**MPA 4.2** | 4 | **Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.**<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o'r egwyddorion sydd ynghlwm fel rhan o'r cylch cynllunio o fewn addysg y blynyddoedd cynnar. Trafod gwerth darpariaeth addysgol gyfannol i blant ifanc, lle mae'r cynllunio'n cefnogi dealltwriaeth, gan ysbrydoli ac ysgogi potensial y plant i ddysgu. Mae rhan gweithwyr y blynyddoedd cynnar mewn dysgu plant yn hanfodol bwysig, yn enwedig pan fo'r cyfathrebiadau'n ymwneud â gofyn cwestiynau penagored, meddwl ar y cyd a meddwl cynaliadwy.<br><br>Trafod arwyddocâd creu cydbwysedd rhwng dysgu mewn modd strwythuredig trwy weithgareddau wedi'u cychwyn gan blant a dan arweiniad athrawon i gynnig cyfleoedd i blant gymryd rhan yn weithgar yn eu dysgu eu hunain ac i adeiladu ar yr hyn maent eisoes yn ei wybod a deall i wella ac ymestyn datblygiad cyfannol y plant.<br><br>Datblygu trafodaethau dosbarth cyfan ar werth cwricwlwm y blynyddoedd cynnar i ddarparu cwricwlwm cynhwysfawr a gwahaniaethol, trwy gynllunio priodol a phrofiadau strwythuredig trwy'r meysydd dysgu amrywiol, gall plant ddatblygu a gwneud cynnydd yn eu datblygiad.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut gellir rhoi dysgu dan arweiniad plant ar waith mewn amgylchedd blynyddoedd cynnar? | Cyswllt i wybodaeth: Llywodraeth Cymru – Cwricwlwm i Gymru https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-newydd<br><br>Enghraifft o Gynllun Datblygu Unigol: Snap Cymru https://www.snapcymru.org/wp-content/uploads/2014/09/IDP-Booklet-CYF.pdf<br><br>Enghraifft o gynllun datblygu unigol https://supportandprovision.pembsinclusionservice.wales/wp-content/uploads/2019/09/IDP-template.pdf | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Pam mae dysgu gweithgar yn bwysig ar gyfer datblygiad cyfannol? Sut gall oedolion gefnogi plant trwy weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda?<br><br>Datblygu gwybodaeth am y cwricwlwm newydd ar sail adolygiad 'Dyfodol Llwyddiannus' Donaldson i gefnogi dilyniant dysgwyr yn y dyfodol mewn swyddi amrywiol yn gweithio gyda phlant. Nod y cwricwlwm newydd yw adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas a chreu amgylchedd dysgu pwrpasol.  Darparu trosolwg o'r pynciau sydd wedi'u grwpio'n chwe maes dysgu a phrofiad.<br>Cyswllt i wybodaeth: Llywodraeth Cymru – Cwricwlwm i Gymru<br>https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-newydd<br>Bydd y cyswllt hwn yn cynnig rhagor o wybodaeth am baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd – cyflwyniad<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i ymchwilio i bob maes dysgu a chyflwyno'u canfyddiadau i'r dosbarth.<br>• Celfyddydau Mynegiannol<br>• Iechyd a Llesiant<br>• Dyniaethau<br>• Ieithoedd<br>• Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Mathemateg a Rhifedd<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>Gall pob grŵp ganolbwyntio'u hymchwil ar nod, pwrpas a gwerth eu maes penodedig i'w rannu â'r dosbarth cyfan. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gellir dod o hyd i gyflwyniad a fideos am y cwricwlwm a meysydd dysgu a phrofiad trwy'r cyswllt i wybodaeth: Llywodraeth Cymru – Cwricwlwm i Gymru https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-newydd<br><br>Trafodwch werth y cwricwlwm newydd o ran ei nod i gynyddu cymorth i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol a datblygu hyfforddiant ac atebolrwydd i athrawon a gweithwyr gofal plant. Darparu hyblygrwydd i addysgu i gael y canlyniadau gorau ar gyfer eu dysgwyr trwy ddarparu mwy o ffocws ar asesiadau, dilyniant personol, herio plant a phobl ifanc i fod y gorau y gallant fod, cynnig cyfleoedd i ddatrys problemau, creadigrwydd a meddwl yn feirniadol ac ati.<br><br>Cyswllt i wybodaeth: Llywodraeth Cymru – Cwricwlwm i Gymru<br>https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-newydd<br>Bydd y cyswllt hwn yn cynnig rhagor o wybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru 2022 – cyflwyniad<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut gellir ystyried arddulliau dysgu gwahanol o fewn amgylcheddau gwahanol?<br>• Sut gall strategaethau gwahanol gael eu defnyddio i sicrhau gwahaniaethu a chynhwysiant mewn amrywiaeth o leoliadau gofal plant?<br>• Yn seiliedig ar brofiadau mewn gweithleoedd, gwybodaeth a dealltwriaeth, pa fathau o adnoddau dysgu all fod ar gael i sicrhau gwahaniaethu a chynhwysiant wrth weithio gyda phlant?<br><br>**Tasg asesu:** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafod yr ystod o strategaethau y gellir eu defnyddio i gefnogi amgylchedd dysgu cadarnhaol a sicrhau gwahaniaethu a chynhwysiant. Bydd pob dysgwr yn datblygu gweithgareddau manwl ac ysgogol gydag adnoddau priodol i gefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar. Datblygu'r gweithgaredd i fod yn gynhwysol ac wedi'i wahaniaethu i blant gydag angen dysgu neu ymddygiadol penodol e.e. syndrom Down, dyspracsia, dyslecsia, dyscalcwlia, nam synhwyrol, clywedol, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) a dysgwyr mwy abl a thalentog.<br><br>Amlinellu gwerth y cwricwlwm statudol i ddatblygu unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas a bod yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Nod cwricwlwm yr ysgol yw cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol i baratoi'r dysgwyr i fod yn effeithiol ar raddfa bersonol a chymdeithasol trwy ddarparu profiadau dysgu i ddatblygu a chymhwyso sgiliau wrth archwilio agweddau a gwerthoedd personol i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut mae'r cwricwlwm statudol yn datblygu hunan-barch y dysgwyr ac ymdeimlad o gyfrifoldeb personol?<br>• Sut gall ysgolion gefnogi a hyrwyddo llesiant y plant?<br>• Ym mha ffordd y mae'r cwricwlwm statudol yn bwriadu datblygu agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at ddatblygu cynaliadwy a chreu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang? | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg Asesu:**<br><br>Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau ffocws i lunio eu syniadau eu hunain ar gyfer y cwricwlwm newydd ar sail y pedwar pwrpas fel dyhead ar gyfer cynllun cwricwlwm ysgolion. Crëwch ystod o weithgareddau neu gynlluniau yn yr ysgol i gefnogi ac annog twf a datblygiad yn y meysydd sy'n cael eu nodi yn y pedwar diben. Bydd y gweithgareddau neu'r cynlluniau yn yr ysgol sy'n ymgorffori ac wrthi'n hyrwyddo camau cadarnhaol trwy nod cwricwlwm ysgol i gefnogi ei ddysgwyr i fod yn:<br><br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i barhau i ddysgu drwy gydol eu bywydau<br>• Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd<br>• Unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.<br><br>Bydd pob grŵp yn adrodd yn ôl ei syniadau dylunio o bob un o'r pedwar diben ac yn rhannu a datblygu syniadau trwy drafodaeth dosbarth cyfan ac awgrymiadau ganddynt. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330** | 5 | **Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.** | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Testun 4:**<br><br>**Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.**<br><br>**MPA 4.2** | | Datblygu trafodaethau ar gefnogi plant i weithio tuag at eu nodau a'u targedau. Trafod diben a gwerth monitro ac arsylwi plant er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch p'un a gaiff anghenion dysgu ychwanegol plant eu diwallu ai peidio. Canolbwyntio ar gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr ynghylch y mathau o gynlluniau a diben y cynlluniau y mae angen eu rhoi ar waith i sicrhau dysgu cynhwysol e.e. cynlluniau chwarae personol i reoli a chefnogi ymddygiad, cynlluniau unedig e.e. cynllun datblygu unigol i gefnogi gofal ac ADY i blant. Dod i ddeall y mathau o gynlluniau a dulliau adolygu a all newid gan ddibynnu ar newidiadau i ddeddfwriaeth.<br><br>Canolbwyntio trafodaeth y dosbarth cyfan ar rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a sut gall y rôl hon gefnogi dysgu a datblygiad cyfannol plant. Trafod rôl y Cydlynydd ADY o ran darparu cymorth proffesiynol i'r staff i alluogi adnabod, asesu a chynllunio'n gynnar ar gyfer dysgwyr gydag ADY wrth reoli gosod targedau ar yr un pryd trwy ddatblygiad ac adolygiadau'r cynllun datblygu unigol.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut mae rôl y Cydlynydd ADY yn sicrhau bod anghenion yr holl ddysgwyr gydag ADY yn y lleoliad addysgol yn cael eu diwallu?<br>• Sut mae rheoli gosod targedau trwy ddatblygiad y cynllun datblygu unigol yn cefnogi plant ag ADY?<br><br>Trafodwch y newidiadau a ddaeth i'r fei trwy'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Canolbwyntiwch y dysgu ar y ffordd y mae'r Ddeddf hon yn bwriadu creu fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oed ysgol gorfodol neu'n iau gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac i gefnogi pobl ifanc ag ADY sydd mewn addysg bellach (AB) yn yr ysgol. | | adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygwch ddealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i harwyddocâd a sut mae'n rhaid i leoliadau beidio â gwahaniaethu yn erbyn plant anabl a dylid dangos ymarfer cynhwysol ar hyd a lled y lleoliad, e.e. caniatáu i bob plentyn gael yr un cyfleoedd dysgu.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafod gwerth cynlluniau dysgu unigol i gefnogi'r holl blant sydd wedi cael addysg sy'n eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau addysgol gorau. Trafod y gefnogaeth y mae cynllun datblygu unigol yn bwriadu ei darparu i anghenion unigol plant gan gynnwys y rhai ag AAA neu anableddau e.e. canolbwyntio ar ddynodi cynnar fel dull hanfodol wrth helpu plant i gyflawni eu canlyniadau a sicrhau bod rhaid i leoliadau wneud addasiadau rhesymol i helpu i gefnogi plant ag AAA ac anableddau.<br><br>Darparu adnoddau ac enghreifftiau i ddysgwyr o strwythur cynllun datblygu unigol i ddatblygu eu meddyliau ymhellach i amrywiol ffyrdd y gall plant ag ADY gael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau, ac i sicrhau bod modd i'w hanghenion gael eu diwallu. Darparu ystod o astudiaethau achos er mwyn i'r dysgwr wella'r gweithgaredd hwn ar gyfer trafodaeth bellach.<br><br>Bydd y dysgwyr yn crynhoi diben a gwerth cynlluniau datblygu unigol ac yn creu bwrdd / arddangosfa ffeithiau fel dosbarth gyda nodiadau *Post-it* o liwiau amrywiol i ddisgrifio'r prif bwyntiau a gafwyd trwy'r drafodaeth.<br><br>**Adnoddau enghreifftiol:** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Enghraifft o Gynllun Datblygu Unigol: Snap Cymru<br>https://www.snapcymru.org/wp-content/uploads/2014/09/IDP-Booklet-CYF.pdf<br><br>Enghraifft o gynllun datblygu unigol<br>https://supportandprovision.pembsinclusionservice.wales/wp-content/uploads/2019/09/IDP-template.pdf<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Y Cydlynydd ADY sy'n gyfrifol am gydlynu ADY y disgybl o ddydd i ddydd ond beth yw'r rolau a chyfrifoldebau o fewn y ddeddfwriaeth newydd. Ymchwiliwch a chrynhowch rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar sail Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018<br><br>Senario: Rydych chi newydd dderbyn rôl y Cydlynydd ADY yn eich ysgol gynradd ac mae angen i chi gyflwyno eich hun a'r hyn y byddwch chi'n ei wneud i helpu'r staff a'r plant yn eich ysgol. Crëwch daflen ffeithiau i rieni/gofalwyr i'w gosod yn yr ysgol, gan nodi'r canlynol:<br><br>• Cyflwyniad ohonoch eich hun a'r hyn y byddwch yn ei wneud i helpu'r staff a'r plant yn eich ysgol<br>• Rôl y Cydlynydd ADY<br>• Cyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY<br>• Y ddeddfwriaeth newydd<br><br>Adroddwch yn ôl i'r dosbarth am drafodaeth bellach ac ychwanegwch daflenni ffeithiau wedi'u cwblhau at y bwrdd ffeithiau i gefnogi trafodaethau'r dosbarth ar gefnogi plant i weithio tuag at eu nodau a thargedau. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br><br>**MPA 4.3** | 6 | **Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br><br>Trafod sut mae pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd a bod eu datblygiad a'u profiadau mewn plentyndod a llencyndod yn gosod y sylfeini i fyw bywydau hapus, iach a chynhyrchiol. Canolbwyntio ar y ffordd y mae ymyrryd yn gynnar yn darparu cymorth effeithiol i blant a'r glasoed sydd mewn perygl o brofi canlyniadau gwael, fel cael trafferthion yn yr ysgol, problemau iechyd meddwl neu faterion cymdeithasol sy'n golygu eu bod mewn perthnasoedd negyddol a all fod yn niweidiol iddynt hwy neu i bobl eraill. Trafod arwyddocâd ymyrryd yn gynnar mewn modd effeithiol i atal problemau rhag digwydd neu i fynd i'r afael â phroblemau'n effeithlon cyn iddynt waethygu. Canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio i sefydlu mân ddatrysiadau yn gynnar yn hytrach na gorfod cael datrysiad mwy yn nes ymlaen. Mae ymyrryd yn gynnar yn gweithio i wella bywydau plant ac i roi help a chymorth i deuluoedd sydd ei angen trwy wahanol ddulliau a strategaethau.<br><br>Creu trafodaeth dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd ymyrryd yn gynnar, asesiadau amserol o anghenion e.e. sicrhau cynhwysiant mewn ystod eang o weithgareddau ystyrlon a phriodol a diagnosis o bryderon meddygol e.e. sicrhau y bydd y driniaeth a roddir naill ai'n atal dirywiad pellach neu'n arafu cyfradd y dirywiad e.e. ffibrosis systig i hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant. | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafod arwyddocâd cefnogi plant drwy ymyrryd ac asesu a all gefnogi iechyd, llesiant a datblygiad drwy<br><br>• sicrhau bod presenoldeb mewn lleoliadau/ysgolion a cholegau yn cael ei gynnal<br>• ymgysylltu'n llawn â'r dysgu/addysg a'r tu allan i'r amgylchedd ffurfiol<br>• sicrhau y ceir rhyngweithiad mor llawn â phosibl<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Beth allai fod y rhesymau dros bresenoldeb isel neu ysbeidiol?<br><br>• Sut gall cyfraddau presenoldeb negyddol effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad plentyn?<br>• Beth gall ysgolion ei wneud i wella problemau presenoldeb a chodi'r cyfraddau?<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafod yr ystod o broblemau presenoldeb a all gael effaith negyddol ar iechyd, llesiant a datblygiad plant e.e.<br><br>• Gwyliau yn ystod y tymor<br>• Materion teithio<br>• Pryderon ariannol<br>• Triwantiaeth<br><br>Dod i ddeall pwysigrwydd datblygu dull ysgol gyfan o annog a chefnogi presenoldeb rheolaidd a chysylltiadau cyfathrebu da gyda rhieni/gofalwyr.<br>Trafod y manteision o gefnogi a datblygu'r strategaethau canlynol: | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Mynd i'r afael yn gyson â phryderon presenoldeb ymhlith unigolion mewn cyfarfodydd staff a chreu cynlluniau datblygu ar gyfer eu gwella<br>• Mynd i'r afael â rhwystrau i bresenoldeb fel materion bwlio a chyfeillgarwch<br>• Sicrhau bod y plant yn gallu cael grantiau ar gyfer gwisg ysgol a lwfansau prydau bwyd<br>• Atgyfeiriadau fel y bo'n ofynnol i gefnogi gwasanaethau, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol, gwasanaethau cymdeithasol ac ati.<br>• Creu amgylchedd ysgol cadarnhaol<br>• Darparu rhwydwaith cefnogol i gynorthwyo wrth wella presenoldeb myfyrwyr<br>• Datblygu polisi presenoldeb cryf a chlir gyda thargedau clir a realistig<br>• Hyrwyddo ymwybyddiaeth fod absenoldeb yn arwain at golli amser a chyfleoedd dysgu<br>• Cyfathrebu â rhieni i gydweithio i wella presenoldeb<br>• Rhoi gwybod i'r rhieni am y cymorth llesiant sydd ar gael i blant sy'n pryderu am ddod i'r ysgol<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Darparu ystod o astudiaethau achos byr i ddysgwyr er mwyn datblygu eu meddyliau ymhellach i amrywiol resymau a allai effeithio ar resymau plant dros beidio â mynd i'r ysgol yn rheolaidd e.e.<br><br>• Materion ymddygiadol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | <ul><li>Diffyg ffiniau gan y rhieni</li><li>Gofalwyr ifanc neu gyfrifoldeb am frodyr a chwiorydd</li><li>Ymrwymiad y rhieni i oriau gwaith</li><li>Rheoli amser yn wael</li><li>Profi trawsnewid personol/teuluol</li><li>Cyflwr iechyd</li><li>Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Adverse Childhood Experiences: ACEs)</li><li>Materion bwlio neu gyfeillgarwch</li><li>Gorbryder a iechyd meddwl</li><li>Disgwyliadau diwylliannol neu grefyddol</li></ul>Bydd dysgwyr yn trafod mewn grwpiau y cymorth a allai gael ei ddarparu ar sail ystod o ymatebion priodol. Trafod mewn grŵp a rhannu gyda'r dosbarth cyfan am ystod o syniadau ar y cyd i godi cyfraddau presenoldeb. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3:**<br><br>**Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo** | 7 | **Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall effaith deddfwriaeth, mentrau, rhaglenni a meddylfryd presennol o ran ymyrraeth gynnar ac asesiadau o anghenion.<br><br>**Meysydd ffocws:**<br><ul><li>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018</li></ul> | Crynodeb o: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Mae'r grŵp yn ymchwilio i bob maes a drafodir ac yn gwneud cyflwyniad ohonynt yn y dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **dysgu ac iechyd a llesiant**<br><br>**MPA 4.3** | | • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodwch effaith y newidiadau a wnaed trwy ddeddfwriaeth trwy'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Amlinellwch sut mae'r Ddeddf yn gosod fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pobl ifanc ag ADY yn yr ysgol neu mewn addysg bellach (AB) trwy broses integredig, cydweithredol o asesu, cynllunio a monitro trwy ymyriadau amserol ac effeithiol.<br><br>Tynnwch sylw at arwyddocâd y ffordd y mae pob Angen Dysgu Ychwanegol yn cael effaith unigryw ar bob plentyn a thrwy Gynllun Datblygu Unigol statudol i bob dysgwr ag ADY ac yn sicrhau y caiff anghenion plant eu nodi'n gynnar a bod y cymorth iawn ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl trwy un cynllun statudol.<br><br>Ystyriwch ddysgu blaenorol sy'n gysylltiedig â'r ddeddf a sut mae'n gofyn am Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig ar gyfer ysgolion a gynhelir, meithrinfeydd a gynhelir, unedau atgyfeirio disgyblion, sefydliadau addysg bellach a cholegau ac mae'n gofyn am Swyddog Arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar i gydlynu gwasanaethau i blant dan oedran ysgol gorfodol.<br><br>Trafodwch effaith system well i ddarparu gwybodaeth a chyngor, i ddatrys pryderon ac apeliadau a gwneud trefniadau i ddatrys anghytundeb a darparu amryw hawliau i blant a phobl ifanc dderbyn gwybodaeth mewn perthynas ag ADY a phenderfyniadau sy'n cael eu | Crynodeb o: Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Trafodwch pob her mewn grwpiau bach a gwnewch awgrymiadau ar gyfer newid, yn awr ac yn y dyfordol<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwneud yn eu cylch ac yn cefnogi ffocws cryf ar gydweithredu a gwella rhannu gwybodaeth<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Pa newidiadau a wnaed i ymyrryd yn gynnar ac asesiadau o anghenion plant ar sail Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?<br>• Beth rydych chi'n ystyried yw gwerth cael Cynllun Datblygu Unigol i blant ag ADY?<br>• Sut mae'r Ddeddf yn ystyried safbwyntiau plant, rhieni a phobl ifanc fel rhan o'r broses gynllunio?<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i ysgrifennu araith llawn gwybodaeth ar yr effaith, gwerth a'r newidiadau y mae Deddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi esgor arnynt. Dylid clustnodi ei faes a'i rôl ei hun i bob dysgwr wrth greu'r araith er mwyn adrodd yn ôl ar ffurf cyflwyniad grŵp i'r dosbarth.<br><br>**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br><br>Trafodwch Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Canolbwyntiwch ar y ffordd y mae'r Ddeddf yn cefnogi newid i weithio ar y cyd â byrddau gwasanaethau cyhoeddus, awdurdodau lleol, bwrdd iechyd lleol, sefydliadau gwirfoddol ac ati. Trafodwch y ffordd y mae'r bwrdd gwasanaeth cyhoeddus yn bwriadu asesu amcanion penodedig, gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | amgylcheddol a diwylliannol ei faes trwy weithio i gyflawni'r nod llesiant. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw darparu ansawdd bywyd da i genedlaethau presennol ac i genedlaethau'r dyfodol trwy wella datblygiad cynaliadwy trwy lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd y bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus ei rhoi ar waith. Mae dyletswydd yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw wneud hyn yn ôl y gyfraith.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut byddech chi'n disgrifio beth yw ystyr datblygiad cynaliadwy?<br>• Sut gall y Ddeddf hon ein helpu ni i greu Cymru y mae pob un ohonom am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol?<br>• Sut gallwn wneud yn siŵr fod pob un ohonom yn gweithio tuag at yr un weledigaeth?<br>• Beth yw byrdwn y 7 nod llesiant?<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Mae Cymru yn wynebu heriau fel newid hinsawdd, tlodi, anghydraddolebau iechyd a swyddi a thwf. Sut gallwn ni fynd i'r afael â'r heriau hyn? Trafodwch pob her mewn grwpiau bach a gwnewch awgrymiadau ar gyfer newid, yn awr ac yn y dyfodol<br><br>**Tasg asesu:** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Canolbwyntiwch ar y set o saith nod y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i'w cyflawni<br><br>• Cymru lewyrchus e.e. Cymdeithas gynhyrchiol, carbon isel sy'n defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon<br>• Cymru gydnerth e.e. Cenedl sy'n gwella ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol<br>• Cymru iachach e.e. Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal e.e. Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau<br>• Cymru o gymunedau cydlynus e.e. Cymunedau atyniadol a diogel sydd â chysylltiadau da.<br>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu e.e. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg<br>• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang e.e. Cenedl sy'n ystyried a allai newidiadau gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.<br><br>Bydd y grŵp yn ymchwilio i bob maes a drafodir ac yn gwneud cyflwyniad ohonynt yn y dosbarth gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth priodol a pherthnasol ac enghreifftiau o'r prif bwyntiau. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau gan ddarparu cyfran gyfartal o'r nodau. Mae angen i bob grŵp fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd a sut i drin a thrafod yr heriau hyn drwy ymchwil i newidiadau sy'n gyfredol neu sydd wedi'u hawgrymu ar gyfer newid i'r dyfodol. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br><br>**MPA 4.3** | 8 | **Ymyrraeth gynnar i hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br>Trafodwch effaith deddfwriaeth, mentrau, rhaglenni a meddylfryd presennol o ran ymyrraeth gynnar ac asesiadau o anghenion e.e. Polisi Dechrau'n Ddeg, Rhaglen Plant Iach Cymru a sut gall ymyrryd yn gynnar hyrwyddo iechyd a llesiant e.e. Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf (Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br><br>**Rhaglen Dechrau'n Deg**<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodwch raglen Dechrau'n Deg – rhaglen darged Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd sydd â phlant o dan 4 blwydd oed ac sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Amlinellwch fanteision gofal plant am ddim, rhan-amser ac o safon a'r nod o wella canlyniadau plant yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru yn datgan 'Bydd rhaglen Dechrau'n Deg yn helpu i ddarparu'r sylfeini y bydd pob datblygiad i'r dyfodol yn cael ei adeiladu arno', disgrifiwch beth mae'r datganiad hwn yn ei olygu? | Crynodeb o'r: Rhaglen Dechrau'n Deg<br><br>Crynodeb o: Rhaglen Cydweithrediad y 1000 Diwrnod Cyntaf<br><br>**Dogfen ymchwil:**<br>https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/trosolwg-or-rhaglen-plant-iach-cymru.pdf | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sut gall rhaglen Dechrau'n Deg arwain at welliannau yn natblygiad plant yn y blynyddoedd diweddarach?<br>• Sut gall plant sy'n mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar o ansawdd fod yn fwy annibynnol ac yn llwyddo i gyd-chwarae?<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Crëwch daflen hyrwyddo i roi gwybodaeth i rieni a gofalwyr er mwyn iddynt ddod i ddeall gwerth amgylchedd meithrin Dechrau'n Deg i gefnogi'r ffordd y mae plant yn datblygu a dysgu mewn amgylchedd dysgu diogel sy'n ofalgar, yn ysgogol ac yn cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gynnar. Cofiwch gynnwys manteision y rhaglen Dechrau'n Deg i blant teuluoedd a gofalwyr ac arwyddocâd datblygu'r cysylltiadau agos hyn gydag asiantaethau sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd.<br><br>**Rhaglen Gydweithredol y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf**<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Trafodwch Raglen Gydweithredol y 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf ac amlinellwch nodau amryw feysydd penodol trwy ymyrryd yn gynnar i gefnogi llesiant y plentyn a'r teulu/gofalwyr. Dewch i ddeall arwyddocâd y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf – gan ddechrau ychydig cyn i fabi gael ei genhedlu, yn parhau yn ystod y beichiogrwydd a hyd at ddwy flwydd oed i sicrhau bod ymyrryd yn gynnar yn creu gwell canlyniadau. Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd | | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Crëwch daflen hyrwyddo i ddarparu gwybodaeth i rieni |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r teuluoedd a'r gofalwyr tlotaf mewn cymdeithas.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Mae rhoi dechrau iach mewn bywyd i bob plentyn yn ffocws allweddol. Sut gall y Rhaglen 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf leihau'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a welir gan deuluoedd/gofalwyr agored i niwed?<br><br>• Sut gall y Rhaglen 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn addysg a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r bobl dlotaf mewn cymdeithas?<br><br>• Sut mae Rhaglen Gydweithredol y 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf yn datblygu ymyriadau cynnar i gefnogi rhieni newydd?<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Lluniwch boster llawn gwybodaeth ar raglen Gydweithredol y 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf gyda ffocws ar ddarparu gwybodaeth ar ddechrau beichiogrwydd trwy'r Gwasanaeth Bydwreigiaeth, sy'n nodi sut mae'r rhaglen yn ceisio cyflawni asesiad cyfannol o anghenion, llwybrau atgyfeirio clir a chymorth ataliol da ar gyfer y canlyniadau gorau posib yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd a lleihau anghydraddoldebau. Tynnu sylw at arwyddocâd nodau'r rhaglenni i gyflawni'r canlynol: | | Lluniwch boster llawn gwybodaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Y canlyniad gorau posib ar gyfer pob beichiogrwydd<br>• Mae plant yng Nghymru yn cyflawni eu cerrig milltir datblygiadol yn ddwy flwydd oed<br>• Ni chaiff plant eu hamlygu i brofiadau niweidiol niferus yn ystod plentyndod na'u niweidio ganddynt yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf<br><br>**Rhaglen Plant Iach Cymru**<br><br>Trafodwch y Rhaglen Plant Iach a ffocws ei nod o ran cefnogi iechyd a llesiant pob plentyn 0-7 oed ac mae'n bwriadu cyflawni blaenoriaethau allweddol. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi pa gysylltiadau a gynlluniwyd y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan eu byrddau iechyd o gyfnod trosglwyddo'r gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf o addysg 0-7 oed. Mae'r cysylltiadau cyffredin hyn yn ymwneud â thri math o ymyriad: sgrinio; imiwneiddio; a monitro a chefnogi datblygiad plant a all wella'r plentyn a'r gymdeithas sy'n cyflwyno profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn eithafol.<br><br>**Cwestiwn dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut mae 'Rhaglen Plant Iach Cymru' yn cefnogi plant, teuluoedd a'r gymuned?<br><br>**Dogfen ymchwil:**<br>GIG Cymru: Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru | | Clustnodwch dasgau i bob grŵp eu trafod a'u cwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/trosolwg-or-rhaglen-plant-iach-cymru.pdf<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a chlustnodwch un o'r tasgau isod i bob grŵp ei drafod a'i gwblhau. Bydd pob grŵp yn gwneud nodiadau er mwyn adrodd yn ôl ar eu safbwyntiau a datblygu eu syniadau ymhellach trwy drafodaeth dosbarth cyfan. Pennwch amser i drafodaethau yna symudwch y myfyrwyr ymlaen i'r dasg nesaf er mwyn ymdrin â'r prif flaenoriaethau:<br><br>Nod Rhaglen Plant Iach Cymru yw darparu rhaglen genedlaethol strwythuredig i blant a'u teuluoedd er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn a'u cefnogi wrth fynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol o bosibl, trafod effaith y nodau a'r cysylltiadau canlynol:<br><br>• Cyflwyno negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol o adeg cenhedlu hyd 7 mlwydd oed e.e. bwydo ar y fron, iechyd deintyddol, fitaminau dechrau iach, maeth iach a hyrwyddo datblygiad babanod<br>• Sicrhau dynodi cynnar trwy raglen sgrinio gyffredinol e.e. Babi heb ei eni lle maent yn gwybod bod ganddo gyflwr meddygol, rhieni sy'n disgwyl sawl babi<br>• Cefnogi teuluoedd i ddarparu amgylchedd diogel, llawn anogaeth, e.e. rhieni gyda phryderon diogelu sydd eisoes yn bodoli neu gyfredol, gan gynnwys cam-drin domestig, rhieni mewn perygl uwch o feddu ar anghenion iechyd emosiynol/meddyliol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynorthwyo plant i fodloni'r holl nodau twf a datblygiad e.e. Bydd yr Ymwelydd Iechyd yn adolygu gwydnwch ac yn cefnogi'r teulu<br>• Cefnogi teuluoedd i wneud dewisiadau sy'n gwella iechyd hirdymor e.e. Cymorth a chyngor, y *Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd*.<br>• Hyrwyddo bondio ac ymlyniad i gefnogi cerrig milltir mewn perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a phlant e.e. hyrwyddo ymlyniad sicr a bondio rhwng y rhiant/gofalwr a'u baban<br>• Hyrwyddo llesiant emosiynol a chorfforol y fam a'r teulu e.e. helpu'r rhieni i ddeall ymddygiad y baban a'u galluogi i adeiladu ar eu sgiliau a'u gwybodaeth.<br>• Cefnogi'r broses o bontio i amgylchedd yr ysgol e.e. Rhaglen Dechrau'n Deg, Gwasanaeth Nyrs Iechyd Ysgolion<br>• Amddiffyn plant a hybu iechyd e.e. codi cyfraddau imiwneiddio, lleihau afiechydon mewn plentyndod, cyngor ar ddeiet, iechyd deintyddol, hyrwyddo diogelwch yn y cartref a'r gymuned.<br><br>Bydd dysgwyr yn gwneud nodiadau er mwyn adrodd yn ôl ar eu safbwyntiau ac i ddatblygu eu syniadau ymhellach trwy drafodaeth dosbarth cyfan | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br><br>**MPA 4.3** | 9 | **Ymyrryd yn gynnar er mwyn hyrwyddo dysgu ac iechyd a llesiant**<br>Datblygwch wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr trwy drafodaeth dosbarth cyfan ar ymyrryd yn gynnar a sut gall gefnogi pob agwedd ar ddatblygiad plant a gwella iechyd corfforol, datblygiad gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol.<br><br>Trafodwch sut mae'r dull plentyn-ganolog yn caniatáu plentyn i wneud ei ddewisiadau a'i syniadau ei hun tuag at hyrwyddo'i ddatblygiad, cyfathrebu a dysgu gan hyrwyddo dysgu, iechyd a llesiant.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Canolbwyntiwch drafodaethau dosbarth cyfan ar werth ac arwyddocâd defnyddio dulliau plentyn-ganolog mewn lleoliadau i sicrhau:<br>○ bod yr her yn amlwg e.e. profiadau uniongyrchol, datrys problemau, cymryd risgiau a gwneud penderfyniadau yn unigol ac mewn grwpiau<br>○ bod anghenion y plant (gan gynnwys anghenion ychwanegol) yn cael eu diwallu e.e. trwy gynlluniau ymyrryd yn gynnar i fodloni anghenion plant sydd wedi'u nodi fel rhai ag anghenion trwy wneud addasiadau a myfyrio<br>○ bod gwahaniaethu ar waith; bod gweithgareddau/dysgu o fewn cyrraedd pawb e.e. mae'r dysgu yn gynyddol ac yn gyflym i fodloni taith ddysgu unigol y plentyn | | Bydd pob grŵp yn trafod arwyddocâd ymyrryd yn gynnar a rhoi cymorth cyn gynted â phosibl i drafod y materion sy'n dod i'r amlwg i'r plant<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ○ amrywiaeth e.e. gwerthfawrogiad a pharch i blant a theuluoedd fel unigolion a gweithio gydag unigrywiaeth pob un<br>○ cydraddoldeb e.e. gwerthfawrogi'r hawl i gael eu trin yn deg a chael eu diogelu rhag gwahaniaethu<br>○ tegwch e.e. cydnabod unigrywiaeth ac unigoliaeth a pharu'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen<br>○ bod stereoteipiau yn cael eu goresgyn e.e. Ymwybyddiaeth o ddylanwadau mewn cymdeithas a myfyrio ar unigoliaeth ynom ein hunain ac mewn eraill<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Disgrifio ystyr y term 'dulliau plentyn-ganolog'.<br>• Rhoi enghraifft o'r ffordd y mae gweithio mewn ffordd plentyn-ganolog yn hyrwyddo:<br>○ Cydraddoldeb<br>○ Amrywiaeth<br>○ Cynhwysiant<br><br>Trafod ystod o wasanaethau iechyd ac addysg sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar. Canolbwyntio trafodaethau ar rôl y gwasanaethau iechyd, canolfannau plant ac ysgolion wrth gyflwyno a chefnogi ymyrryd yn gynnar effeithiol nad oes modd ei danbrisio. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o'r gwasanaethau cymorth amrywiol y gallai fod angen o ddechrau beichiogrwydd a rhoi cymorth amrywiol i deuluoedd gyda phlant ifanc, ar hyd plentyndod a glaslencyndod e.e. lleoliadau Dechrau'n Deg, gwasanaethau atgyfeirio lleol a chenedlaethol h.y. cydlynydd ADY, cymorth un i un a gwasanaethau sgrinio iechyd.<br><br>**Tasg asesu:** | | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Gall pob grŵp rannu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hyrwyddo dysgu, iechyd a llesiant o'r gweithgaredd. Adrodd yn ôl ar gyfraniad pob grŵp at y dasg a thrafod gwerth integreiddio, gwaith amlasiantaethol a sut i atgyfeirio at asiantaethau eraill. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp: pennu un gwasanaeth iechyd neu addysg fesul grŵp: darparu pennau lliw gwahanol i bob grŵp, symud ymlaen i bob grŵp, hyd nes i bob grŵp gylchdroi yn ôl i'w bwrdd gwreiddiol. Bydd pob grŵp yn trafod arwyddocâd ymyrryd yn gynnar a rhoi cymorth cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan ystyried yr angen i ymyrryd yn gynnar a allai ddigwydd unrhyw bryd ym mywyd plentyn neu berson ifanc. Bydd y dysgwyr yn cylchdroi yn eu grwpiau bob pum munud ac yn ailadrodd y broses gan ddefnyddio eu pen lliw eu hunain tan eu bod wedi trafod pob math o wasanaeth a bod syniadau wedi'u nodi<br><br>I gynnwys:<br><br>○ lleoliadau Dechrau'n Deg<br>○ gwasanaethau atgyfeirio lleol a chenedlaethol; yn ymarferol gall hyn fod drwy Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>○ cymorth un i un mewn lleoliadau<br>○ gwasanaethau sgrinio iechyd.<br><br>Gall pob grŵp rannu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hyrwyddo dysgu, iechyd a llesiant o'r gweithgaredd. Adrodd yn ôl ar gyfraniad pob grŵp at y dasg a thrafod gwerth integreiddio, gwaith amlasiantaethol a sut i atgyfeirio at asiantaethau eraill. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>**Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethau a myfyrio**<br><br>**MPA 4.4** | 10 | **Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethau a myfyrio**<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr trwy drafodaeth dosbarth cyfan o sut gall gweithwyr gofal plant wella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant trwy wahaniaethu a myfyrio. Trafod sut mae'r gweithwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus i addasu ymarfer gan sicrhau mai nod unrhyw newid sy'n cael ei argymell yw bod yn fanteisiol ac i fodloni anghenion y plant.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Datblygu trafodaeth dosbarth yn seiliedig ar adlewyrchu profiadau'r dysgwyr o ymarfer seiliedig ar waith o amryw feysydd ac amgylcheddau dysgu e.e. amrywiaeth o gyfleoedd i blant archwilio'u sgiliau datblygu trwy chwarae. Trafod pwysigrwydd creu gwahaniaethu trwy weithgareddau dysgu amrywiol er mwyn i blant gael gwahanol brofiadau o ddiwallu dewis ffyrdd plant unigol o ddysgu a darparu deunyddiau ac adnoddau y mae modd eu defnyddio mewn mwy nag un ffordd.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Amlinellwch bwysigrwydd newid y dull addysgu o flwyddyn i flwyddyn i fodloni anghenion plant unigol.<br><br>• Sut byddech chi'n disgrifio myfyrio ar ymarfer i fyfyriwr arall? | | Datblygu trafodaeth yn y dosbarth yn seiliedig ar adlewyrchu profiadau'r dysgwyr o ymarfer seiliedig ar waith o amryw feysydd ac amgylcheddau dysgu<br><br>Rhoi'r gweithgaredd ar waith a myfyrio arno a'i effeithiolrwydd wrth ddarparu dysgu wedi'i wahaniaethu. Trafod y broses o asesu dysgu ar sail dysgu'r plant.<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Dyluniwch weithgaredd wedi'i seilio ar weithgaredd dysgu dan do neu awyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Pam mae angen dewis deunyddiau ac adnoddau yn ofalus i weddu i lefelau datblygiadol penodol y plant?<br><br>• Sut byddech chi'n disgrifio gwahaniaethu i riant/gofalwr?<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Dyluniwch weithgaredd wedi'i seilio ar weithgaredd dysgu dan do neu awyr agored ar gyfer plant yn eich lleoliad gwaith. Ystyriwch y pwyntiau canlynol:<br><br>• Rheoli'r amgylchedd awyr agored i greu amgylchedd diogel a chefnogol<br>• Grwpio plant yn ôl diddordebau cyffredin, testun, gallu'r gweithgareddau ac arddull dysgu.<br>• Addasu lleferydd a chwestiynau i blant unigol<br>• Dangos pwrpas neu ddefnydd y deunyddiau/adnoddau ar sail galluoedd plant unigol<br><br>Rhoi'r gweithgaredd ar waith a myfyrio arno a'i effeithiolrwydd wrth ddarparu dysgu wedi'i wahaniaethu. Trafod y broses o asesu dysgu ar sail dysgu'r plant.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae gweithwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus i addasu ymarfer i wella'r canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant trwy wahaniaethu a myfyrio. Mae angen i'r newidiadau fod o fantais i'r | | agored ar gyfer plant yn eich lleoliad gwaith<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Mewn grwpiau bach, gall dysgwyr symud o gwmpas y dosbarth ac ychwanegu syniadau at daflenni A3 sydd wedi'u gosod ar bob bwrdd neu wedi'u hychwanegu at ddogfen ystafell sgwrsio rithwir.<br><br>Myfyrio a rhoi adborth i'r dosbarth ar y pwyntiau trafod cyffredinol i'w dadansoddi ymhellach ac asesiadau o wybodaeth a dealltwriaeth. |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
plant a bodloni anghenion y plant. Gellir seilio penderfyniadau sy'n seiliedig ar fyfyrio a gwahaniaethu a allai gael ei argymell ar y canlynol:
<ul>
<li>Asesiadau sylfaenol cyfannol e.e. Datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant ac amrywiaeth ddiwylliannol, sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – datblygiad mathemategol – datblygiad corfforol.</li>
<li>Asesiadau fframwaith cwricwlaidd e.e. Mae'n gosod y safonau cyflawniad disgwyliedig, elfennau pynciau'r cwricwlwm, profion penodol i bynciau</li>
<li>Arsylwadau a gwblhawyd e.e. Asesiadau ffurfiannol ar draws ystod eang o brofiadau</li>
<li>Myfyrio ar ymarfer personol e.e. Asesu meddyliau, hunanwelliant, myfyrio ar brofiadau yn y dosbarth, rhwystrau i chwarae plant, dysgu a chyfranogiad, hygyrchedd, dulliau addysgu, strategaethau ar gyfer amgylcheddau dysgu</li>
<li>Dadansoddiad risg a budd e.e. Rheoli ac asesu'r amgylchedd, manteision i blant trwy weithgareddau e.e. Safbwyntiau newydd, hyder, sgiliau cymdeithasol, iaith a chyfathrebu, sgiliau cymhellol a chanolbwyntio, sgiliau corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth.</li>
</ul>
Tasg asesu:<br><br>
Dysgwyr i drafod ystod o feysydd mewn grwpiau gyda'r nod o wella'r canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant trwy wahaniaethu a myfyrio. Mewn grwpiau bach, gall dysgwyr symud o gwmpas y dosbarth ac ychwanegu syniadau at daflenni A3 sydd wedi'u gosod ar bob bwrdd neu wedi'u hychwanegu at ddogfen ystafell sgwrsio rithwir. Bydd y dysgwr yn canolbwyntio ar sut gall gweithwyr gofal plant wella'r canlyniadau i blant ac addasu ymarfer yn seiliedig ar y meysydd ymarfer canlynol.
</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Asesiadau sylfaenol cyfannol<br>• Asesiadau fframwaith cwricwlaidd<br>• Arsylwadau wedi'u cwblhau<br>• Myfyrio ar ymarfer personol<br>• Dadansoddiad risg a budd<br><br>Myfyrio a rhoi adborth i'r dosbarth ar y pwyntiau trafod cyffredinol i'w dadansoddi ymhellach ac asesiadau o wybodaeth a dealltwriaeth. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 4:**<br><br>Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethau a myfyrio<br><br>**MPA 4.4** | 11 | **Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethau a myfyrio**<br><br>**Cylch dysgu KOLB**<br><br>Hoelio sylw'r dosbarth cyfan ar gylch Kolb o ymarfer adfyfyriol fel damcaniaeth sy'n dadlau ein bod yn dysgu o'n profiadau bywyd. Ystyrir bod myfyrdod yn rhan bwysig o'r broses ddysgu h.y. y pedwar cam – profiad, myfyrio, cysyniadu, cynllunio. Trafod effeithiolrwydd cylch Kolb fel arf defnyddiol i'w ddefnyddio i fyfyrio gyda phobl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu deuluoedd fel proses ddysgu i archwilio ymarfer a ffactorau sy'n dylanwadu ar ymarfer, i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r wybodaeth sy'n hysbysu dadansoddiad myfyriol a defnyddio'r ddealltwriaeth hon i hysbysu'r camau nesaf.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Arwain dysgwyr i ystyried a myfyrio ar y ffordd y gallent ddefnyddio damcaniaeth Kolb trwy'r cylch myfyriol. Yn unigol, gall dysgwyr | | Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Wrth gwblhau, bydd y dysgwyr yn adrodd yn ôl safbwyntiau unigol o werth damcaniaeth Kolb wrth weithio gyda phlant i nodi a deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymarfer ac yn llywio'r camau nesaf.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgrifennu disgrifiad o brofiad dysgu personol neu sefyllfa a fydd yn gosod gweddill y cylch at ddibenion dadansoddi.<br><br>Annog dysgwyr i ddwyn i gof sefyllfa neu brofiad o'u hymarfer seiliedig ar waith gyda phlant<br><br>• Beth ddigwyddodd cyn i'r digwyddiad/mater/sefyllfa ddechrau?<br>• Beth oedd eich rôl chi yn y sefyllfa?<br>• Beth oedd eich nod?<br>• Pa gynllunio wnaethoch chi?<br>• Beth oeddech yn disgwyl i ddigwydd?<br>• Beth ddigwyddodd?<br>• Beth aeth yn unol â'r cynlluniau?<br>• Beth na wnaeth ddigwydd? ac ati<br><br>Cefnogi dysgwyr wrth fyfyrio a chreu cysylltiadau rhwng y sefyllfa bresennol a'i brofiadau/phrofiadau blaenorol, sgiliau neu wybodaeth. Creu pwyslais ar ddwyn teimladau a phatrymau i gof. Gallai hyn dynnu rhagor o wybodaeth allan neu gallai ddatgelu'r agweddau sylfaenol.<br><br>• Sut roeddech yn teimlo ar ddechrau'r sefyllfa?<br>• Pa deimladau wnaethoch chi dynnu i mewn i'r sefyllfa hon?<br>• Pa waith, sgiliau a/neu wybodaeth flaenorol sy'n berthnasol?<br>• Disgrifio'r amrywiaeth o deimladau a gawsoch yn ystod y profiad?<br><br>Mynd ati i gysyniadu'r sefyllfa neu brofiad fan hyn, mae'r pwyslais ar ddadansoddi ac esbonio, holi ynghylch yr ystyron y mae'r sawl sy'n cael eu goruchwylio a'r lleill sydd ynghlwm yn eu priodoli i'r sefyllfa. Mae hyn yn cynnwys ystyried esboniadau posibl eraill, nodi'r hyn nad yw'n hysbys nac yn cael ei ddeall a meysydd i'w harchwilio ymhellach. | | cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Bydd y dysgwyr yn adrodd safbwyntiau unigol yn ôl o werth damcaniaeth Gibb o fyfyrdod wrth weithio gyda phlant i nodi a deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymarfer ac yn llywio'r camau nesaf. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Rhestru tair tybiaeth y gallech chi/y gallai pobl eraill fod wedi'u cyfrannu at y profiadau<br>• Ym mha ffordd arall y gallech chi fod wedi ymdopi â'r sefyllfa?<br>• Beth nad aeth cystal a pham?<br>• Beth oedd yr eiliad hollbwysig?<br>• Beth aeth yn dda a pham?<br>• Pa gasgliadau ydych chi'n eu tynnu o'r sefyllfa hon hyd yma?<br><br>Dadansoddi'r gwaith cynllunio, paratoi a gweithredu. Mae hyn yn cynnwys nodi canlyniadau a meini prawf llwyddiant yn ogystal ag ystyried y goblygiadau posibl a'r cynlluniau wrth gefn.<br><br>• Yr hyn y mae angen ei wneud nesaf?<br>• Pa anghenion hyfforddi, goruchwylio, mentora a chymorth sydd wedi'u codi i chi?<br>• Beth fyddai'n ganlyniad llwyddiannus i'r sefyllfa nesaf o'ch safbwynt chi?<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut gallech ddefnyddio Cylch Dysgu Arbrofol Kolb i fyfyrio ar eich ymarfer eich hun a'i ddatblygu?<br><br>• Pa gamau rydych yn bwriadu eu cymryd i wella eich ymarfer?<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Wrth gwblhau, bydd y dysgwyr yn adrodd safbwyntiau unigol yn ôl o werth damcaniaeth myfyrdod Kolb wrth weithio gyda phlant ac, ar | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | raddfa ymarferol, yn nodi a deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymarfer ac yn llywio'r camau nesaf.<br><br>**Cylch myfyriol Gibb.**<br><br>Fel dosbarth, trafodwch gylch myfyriol parhaus Gibb y gellir ei ddefnyddio fel myfyrdod o welliant ar gyfer profiad mynych neu gellir ei ddefnyddio hefyd i fyfyrio ar brofiad arunig. Trafodwch werth elfennau allweddol Gibb sy'n cydnabod pwysigrwydd teimladau wrth fyfyrio. Datblygwch wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o'r ffordd y mae Gibb yn gwahanu'r gwerthusiad o'r hyn aeth yn dda a beth nad aeth yn dda fel rhan o chwe cham ei ddamcaniaeth.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Crëwch yr olygfa ar gyfer trafodaeth a gadewch i'r dysgwyr ddewis myfyrdod penodol sy'n seiliedig ar brofiad/gweithgaredd o weithio gyda phlant/plentyn gan ystyried sut mae modd gwella canlyniadau i blant drwy wahaniaethu a myfyrio. Gallai hyn fod yn seiliedig ar brofiad pan fo'r dysgwr wedi cael ei arsylwi gan athro dosbarth/rheolwr/aseswr ac ati.<br><br>I ddechrau, hoeliwch y drafodaeth ar brofiad unigol ar gyfer camau 1-3, pan fydd disgrifiad wedi'i gwblhau, gellir rhannu'r profiad hwn a'i drafod fel rhan o ymarfer grŵp bach er mwyn cael safbwyntiau pobl eraill yn y grŵp i gefnogi ac arwain pob dysgwr trwy broses fyfyriol camau 4-6. Dylai'r canlyniadau adlewyrchu'r elfennau gwahaniaethu – cam 5 – a all gefnogi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol pan yn gweithio gyda phlant.<br><br>1. **Disgrifiad** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Beth ddigwyddodd, pryd y digwyddodd, pwy oedd yno, beth wnaethon nhw, beth oedd y canlyniad.<br><br>**2. Teimladau**<br>• Sut roeddech chi'n teimlo ar y pryd? Beth oedd eich barn chi ar y pryd? Beth oedd yr effaith ar eich emosiynau, credoau a gwerthoedd? Beth oedd y bobl eraill yn ei feddwl yn eich barn chi? Beth oedd eich barn chi ar y digwyddiad ar ôl hynny?<br><br>**3. Gwerthuso**<br>• Beth oedd yn dda a beth oedd yn wael am y profiad? Beth aeth yn dda? Beth na wnaeth fynd yn dda? Ai cadarnhaol neu negyddol oedd eich cyfraniadau. Oeddech yn teimlo bod y sefyllfa wedi'i datrys wedi hynny?<br><br>**4. Dadansoddiad**<br>• Pam aeth pethau'n dda, neu ddim cystal? Sut gall y ddamcaniaeth esbonio'r hyn a ddigwyddodd? Pa ymchwil/damcaniaethau/modelau all fy helpu i wneud synnwyr o hyn? A allwn i fod wedi ymateb mewn ffordd wahanol? Beth allai fod wedi helpu neu wella pethau?<br><br>**5. Casgliad**<br>• Beth rydych chi wedi'i ddysgu? Beth allwch chi ei wneud yn well erbyn hyn? Allech chi/dylech chi fod | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol? Pa sgiliau fydd eu hangen arnaf i drafod hyn yn well?<br><br>6. **Cynllun Gweithredu**<br>• Sut / ble gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth a phrofiad newydd? Sut byddaf yn addasu fy nghamau gweithredu neu'n gwella fy sgiliau? Petai'r un peth yn digwydd eto, beth fyddwn yn ei wneud yn wahanol?<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Amlinellwch werth rhannu'ch profiad myfyriol i gael safbwyntiau pobl eraill yn eich grŵp?<br><br>• Sut mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'r gwahaniaethu ar gyfer cynllunio i'r dyfodol?<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Wrth gwblhau, bydd y dysgwyr yn adrodd safbwyntiau unigol yn ôl o werth damcaniaeth myfyrdod Gibb wrth weithio gyda phlant ac, ar raddfa ymarferol, yn nodi a deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymarfer ac yn llywio'r camau nesaf. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330** | 12 | **Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant trwy wahaniaethu a myfyrio** Datblygu'r wybodaeth a'r | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Testun 4:**<br><br>**Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethu a myfyrio**<br><br>**MPA 4.4** | | ddealltwriaeth o bwrpas myfyrio er mwyn cael canlyniadau cadarnhaol i blant. Trafod sut i gefnogi ac annog newid cadarnhaol mewn gwahanol leoliadau, trwy gael ymwybyddiaeth o ran pryd y gallai fod angen newid a'r heriau a'r manteision o newid, yr angen i fyfyrio er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â newid ac ystyried gwahanol ddulliau o gychwyn newid.<br><br>**Tasg asesu :**<br><br>Bydd y dysgwyr yn creu crynodeb o'r meysydd trafod a gafodd eu cynnwys trwy drafodaethau a thasgau dosbarth o sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal trwy wahaniaethu a myfyrio<br><br>Bydd y dysgwyr yn darparu ymateb ysgrifenedig i bob un o'r cwestiynau canlynol fel rhan o dasg ac asesiad dosbarth.<br><br>• Disgrifio pwysigrwydd cael ymwybyddiaeth o ran pryd y gallai fod angen newid a heriau a manteision newid,<br>• Trafod yr angen i fyfyrio er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus o ran newid<br>• Crynhoi'r gwahanol ddulliau o wneud newid | | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Bydd y dysgwyr yn darparu ymateb ysgrifenedig i bob un o'r cwestiynau canlynol fel rhan o dasg ac asesiad dosbarth. |

## 4.2 Rhaglen Astudio (yn seiliedig ar tua 6 awr o addysgu yr wythnos)

Mae'r rhaglen astudio hon yn cynnig un dull posibl o ddysgu'r cwrs. Ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os oes mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gellir teilwra'r rhaglen i'w harbenigeddau unigol. Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn mabwysiadu dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

Uned orfodol 330: Yr egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

(Gellir defnyddio gweithgareddau ac asesiadau ar gyfer gwersi o bell neu wyneb yn wyneb trwy ddefnyddio'r cyfleusterau mewn rhaglenni ar-lein a phlatfformau addysgu - mae'r adran adnoddau wedi'i lleihau i adlewyrchu'r angen am y ddau fformat addysgu)

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br>**Testun 5:**<br><br>**Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer**<br><br>**MPA 5.1** | 1-7 | **Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer.**<br>Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o ddealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl o sut mae ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, deddfwriaeth a damcaniaethau'n llywio ymarfer, sut mae'r cwricwlwm statudol yn llywio ymarfer, pa ddeddfwriaethau, rheoliadau, polisïau a llywodraeth a mentrau'n effeithio ar ymarfer, sut mae modd defnyddio meddwl cyfoes yn ymarferol i wella canlyniadau i blant 0-19 oed, pan fo newid yn briodol mewn lleoliadau 0-19 oed a sut gellir gweithredu a chefnogi hyn.<br><br>Bydd y testun hwn hefyd yn cefnogi dysgwyr i wneud awgrymiadau damcaniaethol gwybodus ar gyfer newid y gellid ei roi ar waith mewn lleoliadau. Er na fydd dysgwyr yn gallu rhoi'r awgrymiadau hyn ar waith yn eu lleoliadau gwaith, bydd eu hawgrymiadau yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol. Mae angen i ddysgwyr | Cysylltau fideo i gefnogi'r drafodaeth a dealltwriaeth o wybodaeth ddamcaniaethol | Canolbwyntiwch y trafodaethau dosbarth ar bob un o'r damcaniaethau cyfoes a sefydledig canlynol dros nifer o sesiynau<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br>Ymchwilio a chyflwyno dadl berswadiol yn seiliedig ar effeithiau'r ddamcaniaeth ar ddatblygiad ac amgylcheddau dysgu'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | wybod a deall sut mae damcaniaethau a dulliau cyfoes a sefydledig yn llywio ymarfer a sut gellir eu defnyddio i wneud newid mewn lleoliadau.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Canolbwyntiwch y trafodaethau dosbarth ar bob un o'r damcaniaethau cyfoes a sefydledig canlynol dros nifer o sesiynau:<br><br>• **Bronfenbrenner – Damcaniaeth Systemau Ecolegol** – e.e. Rhannodd Bronfenbrenner amgylchedd y person yn bum system wahanol a phwysigrwydd nid dim ond canolbwyntio ar y plentyn a'r amgylchedd uniongyrchol ond hefyd yr amgylchedd mwy o faint. Gwnaeth Bronfenbrenner gydnabod bod sawl agwedd ar fywyd plentyn sy'n datblygu ac ati.<br>• **Bruner – Damcaniaeth Ddysgu mewn Addysg –** e.e. Cynigiodd Bruner dri dull cynrychioli trwy ei ddamcaniaeth luniadaethol. Gwnaeth Bruner gydnabod y dylai addysg ddatblygu sgiliau meddwl a datrys problemau mewn plant gan fod plant yn ddysgwyr gweithredol ac ati.<br>• **Elinor Goldschmied: Chwarae Hewristig a Basgedi Trysor** – e.e. – cyflwynodd Elinor syniadau bod chwarae hewristig yn fath o ddysgu 'gwyddonol a mathemategol' drwy chwarae arbrofol. Roedd basgedi trysor Elinor yn gwerthfawrogi dysgu synhwyraidd i fabanod trwy archwilio deunyddiau naturiol yn eu ffordd eu hunain ac ati.<br>• **Helen Bilton: Dysgu Awyr Agored yn y Blynyddoedd Cynnar** - e.e. Gwnaeth Helen gydnabod gwahanol fathau o amgylcheddau chwarae y mae angen iddynt fod ar gael ar gyfer dysgu dan do ac awyr agored, sy'n cynnig adnoddau naturiol a chyfleoedd synhwyraidd a phrofiadau sy'n dwysáu'r emosiynau. Mae Helen yn cydnabod yr egwyddorion ar gyfer addysgu yn y blynyddoedd | | plant. Bydd naill ai effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol damcaniaethau cyfoes a sefydledig yn cael eu pennu i bob grŵp<br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynnar a phwysigrwydd amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored wedi'u trefnu a'u rheoli'n da ar gyfer dysgu effeithiol ac ati.<br>• **Janet Moyles - Play Spiral** -e.e. Roedd Janet yn cydnabod pwysigrwydd chwarae'n rhydd i archwilio syniadau a symud i chwarae strwythuredig gyda chefnogaeth a modelu gan oedolion i ddatblygu a chwarae a dysgu'n uniongyrchol. Mae damcaniaeth Janet Moyles yn cefnogi datblygu dan arweiniad plant ar gyfer archwilio cychwynnol i fodelu dan arweiniad oedolion yna symud dysgu yn ôl i fod dan arweiniad plant gyda'r sgiliau newid wedi'u hennill a'u hailadrodd ar gyfer cronni gwybodaeth yn gynyddol ac ati.<br>• **Piaget: Pedwar Cam Datblygu** – e.e. Datblygodd Piaget gam damcaniaeth datblygiad deallusol, trwy brofiadau synhwyraidd, arbrofi a dysgu gweithredol. Roedd Piaget yn cydnabod bod plant yn dysgu trwy ryngweithio â'r byd o'u cwmpas, i adeiladu ar eu gwybodaeth a'i datblygu a gwneud lle am wybodaeth newydd ac ati<br>• **Vygotsky: Parth Datblygiad Procsimol** – Mae damcaniaeth Vygotsky yn cydnabod rôl sylfaenol rhyngweithio cymdeithasol wrth ddatblygu gwybyddiaeth. Trwy ganllawiau ac anogaeth person gwybodus, gall plant ddatblygu sgiliau sy'n rhy anodd i'w rheoli ar eu pen eu hunain ac ati.<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Beth yw byrdwn y ddamcaniaeth?<br>• Sut gall y ddamcaniaeth ddylanwadu ar ddealltwriaeth o ddatblygiad plant?<br>• Sut gall y ddamcaniaeth effeithio neu ddylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau?<br>• Pam mae damcaniaethau dysgu yn bwysig?<br>• Sut mae damcaniaethau dysgu'n effeithio ar arferion addysgu?<br>• Esbonio'r ddamcaniaeth ddysgu a drafodwyd heddiw | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | <ul><li>Datgan manteision ac anfanteision y ddamcaniaeth ddysgu</li><li>Ar y cyfan, pa ddamcaniaeth ddysgu sydd wedi effeithio fwyaf arnoch ac esboniwch pam?</li></ul><br>**Tasg asesu:**<br>Ymchwilio a chyflwyno dadl berswadiol yn seiliedig ar effeithiau'r ddamcaniaeth ar ddatblygiad ac amgylcheddau dysgu'r plant. Bydd naill ai effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol damcaniaethau cyfoes a sefydledig yn cael eu pennu i bob grŵp a sut dylai gwahanol ddulliau lywio ymarfer i esgor ar newid mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.<br><br>**Dadl tîm tagio:**<br><ul><li>Mae'r athro'n cyflwyno'r cwestiwn i'w ddadlau ar gyfer pob tîm tagio yn ei dro</li><li>Mae pob tîm yn cael cyfle i drafod y ddadl</li><li>Mae un llefarydd o bob tîm yn cymryd ei dro ac yn siarad am ddim mwy na thair munud i ddadlau ei bwynt gydag aelod o dîm y gwrthwynebwyr</li><li>Wedyn, rhaid i'r llefarydd dagio aelod arall o'r tîm i barhau â'r ddadl naill ai trwy ddewis rhywun neu drwy un ohonynt yn codi ei law</li><li>Dim ond dwywaith y gellir tagio pob aelod o'r tîm er mwyn rhoi cyfle i bob aelod siarad</li></ul><br>Ar ôl i bob aelod o'r tîm gyflwyno'u dadl, gall y dysgwyr bleidleisio am y tîm a roddodd y ddadl orau ac a wnaeth ddwyn y perswâd mwyaf mewn trafodaethau'n ymwneud â pha ddulliau damcaniaethol gwahanol ddylai lywio ymarfer i sicrhau newid mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 3: Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer. MPA 5.1** | 8-10 | **5.1 Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer.** Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o ddealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl o sut mae ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, deddfwriaeth a damcaniaethau'n llywio ymarfer, sut mae'r cwricwlwm statudol yn llywio ymarfer, pa ddeddfwriaethau, rheoliadau, polisïau a llywodraeth a mentrau'n effeithio ar ymarfer, sut mae modd defnyddio meddwl cyfoes yn ymarferol i wella canlyniadau i blant 0-19 oed, pan fo newid yn briodol mewn lleolliadau 0-19 oed a sut gellir gweithredu a chefnogi hyn. Cefnogi'r dysgwyr i wneud awgrymiadau damcaniaethol gwybodus ar gyfer newid y gellid eu rhoi ar waith mewn lleoliadau. Er na fydd dysgwyr yn gallu rhoi'r awgrymiadau hyn ar waith yn eu lleoliadau gwaith, bydd eu hawgrymiadau yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae damcaniaethau a dulliau cyfoes a sefydledig yn llywio ymarfer a sut gellir eu defnyddio i wneud newid mewn lleoliadau.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Canolbwyntiwch y trafodaethau dosbarth ar bob un o'r dulliau canlynol a newidiadau priodol dros nifer o sesiynau:<br><br>Dulliau i gynnwys:<br><br>• **Montessori** – e.e. Maria Montessori – Dull dan arweiniad plant sy'n rhoi plant mewn amgylcheddau dysgu parod i alluogi dewis a rhyddid i ddatblygu yn ôl eu cyflymder eu hunain. | Awgrymiadau o gysylltau fideo<br><br>Teachers TV – The Montessori Method - https://www.youtube.com/watch?v=NyMqSG98a8M<br><br>Waldolf 100 – Becoming - https://www.youtube.com/watch?v=2-mVPUzgWPY&t=26s | Canolbwyntiwch y trafodaethau dosbarth ar bob un o'r dulliau<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Ystyriwch a thrafodwch sut mae pob dull yn cefnogi datblygiad a dysgu'r plant.<br><br>At ei gilydd, trafodwch werth pob dull ar gyfer dysgu a datblygiad y plant<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyswllt fideo a awgrymir: Teachers TV – The Montessori Method - https://www.youtube.com/watch?v=NyMqSG98a8M<br><br>• **Steiner** – e.e. Mae dull Steiner Waldorf yn ystyried y plentyn cyfan ac mae'n seiliedig ar y ddealltwriaeth fod rôl dychmygu mewn dysgu yn annatod i ddatblygu meddwl creadigol a dadansoddol.<br><br>Cyswllt fideo a awgrymir: Waldolf 100 – Becoming - https://www.youtube.com/watch?v=2-mVPUzgWPY&t=26s<br><br>• **Reggio Emilia** – e.e. Mae'r dull yn ystyried plant fel unigolion chwilfrydig sydd â'r potensial i ddysgu o'u hamgylchedd eu hunain a thrwy eu perthnasoedd gyda phobl eraill. Mae plant yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu wrth iddynt ryngweithio gyda'u gwybodaeth a'i chyd-lunio.<br><br>Cyswllt fideo a awgrymir: Reggio Emilia Education - https://www.youtube.com/watch?v=7n2hCebmT4c<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Beth yw prif werthoedd y dull dysgu?<br>• Sut mae'r dull yn gweithio mewn lleoliadau meithrin?<br>• Sut mae'r dull yn cefnogi datblygiad plant?<br>• Beth yw rôl yr oedolyn wrth gefnogi dysgu a thwf plant?<br>• Beth sy'n arwyddocaol yn yr amgylchedd dysgu a'r adnoddau er mwyn i'r dull fod yn llwyddiannus?<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pan fydd newidiadau yn briodol er budd dysgu a datblygu plentyn | Reggio Emilia Education - https://www.youtube.com/watch?v=7n2hCebmT4c | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tasg asesu:**<br><br>Mewn grwpiau bach, trafodwch yr amrywiaeth o ddulliau sy'n cael eu defnyddio yn lleoliadau Montessori, Steiner a Reggio Emilia. Ystyriwch a thrafodwch sut mae'r dulliau hyn yn cefnogi datblygiad a dysgu'r plant. Trafodwch y newidiadau priodol sy'n gysylltiedig â'r dulliau sy'n cynnwys:<br><br>• Pwysigrwydd newid offer ac adnoddau<br>• Yr angen am amgylchedd priodol - dan do ac awyr agored<br>• Arwyddocâd ymdrin â phryderon a phroblemau ariannol<br>• Yr angen i addasu a/neu newid ymarfer<br><br>**Senario: Paratoi noson agored hyrwyddol ar gyfer meithrinfa**<br><br>Dyrannwch un dull i bob grŵp er mwyn datblygu taflen hyrwyddo a chyflwyniad gyda'r bwriad o ddarparu gwybodaeth i ddarpar rieni a phlant y feithrinfa. Dyrannwch amser paratoi ar gyfer y tasgau a chynghorwch bob grŵp i greu cwestiynau i'w grŵp cyfoedion ar sail gwerth y newidiadau priodol sy'n ofynnol a'r amgylchedd dysgu.<br><br>Bydd y dysgwyr yn gwneud nodiadau ar gyflwyniad pob grŵp ac ar ôl adborth, yn bwrw pleidlais unigol ar y canlynol:<br><br>• Pa ddull yw'r un mwyaf deniadol ac esboniwch pam?<br>• Pa grŵp wnaeth hyrwyddo'u meithrinfa yn y ffordd fwyaf effeithiol ac esboniwch pam?<br><br>Ar y cyfan, trafodwch werth pob dull ar gyfer dysgu a datblygiad y plant ac arwyddocâd y newidiadau priodol a wnaed i ddiwallu pob dull. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br>**Testun 5**<br><br>**Sut mae'r fframweithiau cwricwlwm statudol yng Nghymru yn ategu ymarfer**<br><br>**MPA 5.2** | 11-13 | **Sut mae'r fframweithiau cwricwlwm statudol yng Nghymru yn ategu ymarfer**<br><br>Mae'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o sut caiff fframweithiau cwricwlwm statudol eu defnyddio i lywio cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad cyfannol plant yn ymarferol.<br><br>**Fframweithiau statudol i gynnwys:**<br><br>• Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar e.e. dysgu arbrofol, dysgu trwy chwarae<br>• Cwricwlwm Cenedlaethol e.e. gweithgareddau ysgogol, dysgu ymarferol, profiadau, cyfleoedd yn yr ystafell ddosbarth a chyfleoedd allgyrsiol<br><br>Fel dosbarth cyfan, trafod arwyddocâd gweithwyr gofal plant yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae plant yn datblygu a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i fagu hyder a datblygu mewn modd cyfannol. Mae angen cydnabod llesiant emosiynol fel rhan o ddatblygiad cyfannol. Trafod pwysigrwydd cynllunio cwricwlwm priodol i fodloni anghenion plant ac ystyried unrhyw rwystrau i ddysgu a allai gael eu hachosi gan anawsterau synhwyraidd, cyfathrebu, corfforol neu ddysgu a chydnabyddiaeth o ddysgu a phrofiadau blaenorol. Ystyriaeth pan fo angen i gynllunio ddarparu adnoddau, amgylchedd a chyfleoedd priodol ar gyfer dysgu mewn ffordd bwrpasol ac ar wahanol gyfraddau, a lle i fyfyrio ac ymarfer sgiliau. | Canllawiau, deunyddiau ac adnoddau fframwaith perthnasol y cwricwlwm i gefnogi ymchwil | Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Trafod y chwe maes dysgu a phrofiad canlynol y mae'n rhaid eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm newydd<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Dysgwyr i greu map meddwl o'r ystod o weithgareddau a fyddai'n cefnogi'r pedwar diben.<br><br>Pob pâr i roi adborth a chrynodeb ar gyfer trafodaethau/syniadau pellach o gyfraniad y dosbarth cyfan.<br><br>Datblygu a chynllunio gweithgaredd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar**<br><br>Datblygu dealltwriaeth y dysgwr o'r meysydd dysgu a gafodd eu nodi'n gwricwlwm priodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac sy'n cefnogi datblygiad plant 3-7 oed a'u sgiliau trwy ddysgu gweithgar ac arbrofol. Trafod arwyddocâd canolbwyntio cynllunio trwy ddull trawsgwricwlaidd er mwyn ffurfio dull rhwydd sy'n ymgorffori sgiliau llythrennedd a rhifedd.<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy drafodaeth dosbarth cyfan o Gwricwlwm cyfredol y Blynyddoedd Cynnar ac arwyddocâd datblygu sgiliau plant ar draws meysydd dysgu'r cwricwlwm trwy ddysgu arbrofol a dysgu trwy chwarae. Canolbwyntio ar arwyddocâd datblygu amrywiaeth bersonol, gymdeithasol, llesiant a diwylliannol. Trafod cynllunio yn y blynyddoedd cynnar a bodloni anghenion plant ifanc drwy arsylwi, asesu a chynllunio ac arwyddocâd defnyddio'r dulliau hyn i lywio cynllunio i'r dyfodol.<br><br>**Y cwricwlwm cyfredol ar gyfer y blynyddoedd cynnar – Meysydd dysgu – Cyfnod Sylfaen (3-7 oed)**<br><br>• Datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• Datblygiad mathemategol<br>• Datblygiad y Gymraeg<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• Datblygiad corfforol<br>• Datblygiad creadigol | | trawsgwricwlaidd dan do neu awyr agored ar gyfer pob cwricwlwm<br><br>Canolbwyntio'r drafodaeth dosbarth a'r syniadau cynllunio ar y pedwar diben<br><br>Creu gweithgaredd yn seiledig ar ymchwil grŵp a chyflwyniad o bob maes a drafodir trwy wybodaeth berthnasol ac wedi'i chaffael yn dda i gefnogi datblygiad cyfannol plant. Rhannu'r grŵp yn dimau ymchwil bach gyda rolau penodol i gyflwyno canlyniad dysgu allweddol eu gweithgaredd cynlluniedig.<br><br>Pob tîm ymchwil i roi cyflwyniad llafar gan ddefnyddio delweddau gweledol. Pob aelod o'r grŵp i gael elfen gydradd i'w chyflwyno. Cynnig cyfleoedd mewn sesiwn holi ac ateb a thrafodaethau pellach o gyfraniad y dosbarth cyfan. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Y Cwricwlwm Cenedlaethol cyfredol - Rhaglenni astudio craidd a phenodedig – Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 – (7 – 16 oed)**<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o'r ffordd y mae'n rhaid i gynllunio fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyfredol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 gynnwys y pynciau sylfaen craidd a phenodedig eraill. Trafod arwyddocâd cynllunio effeithiol sy'n gorfod pennu'r rhaglenni astudio, targedau cyrhaeddiad a dulliau asesu mewn perthynas â'r pynciau ar gyfer pob cam. Trafod yr ystod oedran ar gyfer y cyfnodau allweddol e.e. Cyfnod allweddol 2 – 7-11 oed, cyfnod allweddol 3 – 11-14 oed a chyfnod allweddol 4 – 14-16 oed.<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Cefnogi'r dysgwyr i ddatblygu a chynllunio gweithgaredd trawsgwricwlaidd dan do neu awyr agored ar gyfer pob cwricwlwm. Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd a rhifedd. Cynllunio gweithgaredd ar gyfer grŵp oedran penodedig, blynyddoedd cynnar, 7-11 oed neu 11-16 oed yn seiliedig ar y meysydd dysgu’r rhaglenni astudio penodol cyfredol.<br><br>• Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar<br>• Y Cwricwlwm Cenedlaethol<br><br>**Cwricwlwm arfaethedig i Gymru i'r dyfodol – Meysydd dysgu a phrofiad**<br><br>Symud ymlaen i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r newid yng Nghymru i'r dyfodol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd. Bydd a wnelo rhan o'r broses hon â deall y pedwar diben a gafodd eu gosod gan yr Athro Donaldson yn 'Dyfodol Llwyddiannus', a ddylai gymell y cynllunio a'r dewisiadau wrth osod cynnwys, profiadau dysgu ac wrth ddatblygu sgiliau'r dysgwyr. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Sut gall cynllunio gweithgareddau gynnig cyfleoedd ar gyfer sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu?<br>• Sut gall cynllunio gweithgareddau gynnig cyfleoedd ar gyfer defnyddio rhifau?<br>• Trafod sut i gynnig cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth plant a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn.<br>• Sut gall y defnydd o ystod o dechnolegau gael eu hymgorffori mewn profiadau dysgu?<br>• Trafod cyfleoedd i blant ddysgu'r sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol.<br><br>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr bod angen i'r gweithgareddau a ddefnyddir mewn lleoliad fod yn ysgogol a chefnogi datblygiad cyfannol y plant. Canolbwyntio ar weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â dibenion y cwricwlwm a chanolbwyntio ar sut dylai plant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu o arbenigedd a phrofiad o'r tu allan i'r ysgol.  Datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o arwyddocâd cynllunio lle dylid cyfeirio ystyriaeth i'r holl addysgu a dysgu er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm a chymhwyso'r egwyddorion addysgegol wrth gynllunio addysgu a dysgu.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Canolbwyntio'r drafodaeth dosbarth a’r syniadau cynllunio ar y pedwar diben i gefnogi'r dysgwyr i fod yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i barhau i ddysgu drwy gydol eu bywydau<br>• Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.<br><br>Trafod mewn parau i ddatblygu syniadau'n ymwneud ag arwyddocâd pob diben. Bydd y dysgwyr yn creu map meddwl o'r ystod o weithgareddau a fyddai'n cefnogi'r pedwar diben. Bydd pob pâr yn rhoi adborth a chrynodeb ar gyfer trafodaethau/syniadau pellach o gyfraniad y dosbarth cyfan.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Mae datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae dysgwyr yn symud ymlaen yn hollbwysig i ddysgu ac addysgu a dylai lywio cynllunio ac asesu'r ystafell ddosbarth. Trafod y chwe maes dysgu a phrofiad canlynol y mae'n rhaid eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm newydd (3-16 oed).<br><br>• Celfyddydau Mynegiannol<br>• Iechyd a Llesiant<br>• Dyniaethau<br>• Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Mathemateg a Rhifedd<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>**Sgiliau trawsgwricwlaidd – Bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol ac mae'n rhaid iddynt gael eu hymgorffori mewn unrhyw gwricwlwm.**<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Creu gweithgaredd yn seiliedig ar ymchwil grŵp a chyflwyniad o bob maes a drafodir trwy wybodaeth berthnasol ac wedi'i chaffael yn dda i gefnogi datblygiad cyfannol plant. Rhannu'r grŵp yn dimau ymchwil | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bach gyda rolau penodol i gyflwyno canlyniad dysgu allweddol eu gweithgaredd cynlluniedig.<br><br>Pob tîm ymchwil i roi cyflwyniad llafar gan ddefnyddio delweddau gweledol. Bydd pob aelod o'r grŵp yn cael elfen gydradd i'w chyflwyno. Cynnig cyfleoedd mewn sesiwn holi ac ateb a thrafodaethau pellach o gyfraniad y dosbarth cyfan. | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 5:**<br><br>**Effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth.**<br><br>**MPA 5.3** | 14 | **Effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth.** Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth. Dod i ddeall pwysigrwydd ymchwil  ac astudiaethau o ddeunyddiau a ffynonellau er mwyn cadarnhau ffeithiau a dod i gasgliadau newydd.<br><br>Trafod effaith a sut bydd ymchwil yn helpu i ddod o hyd i atebion i angen neu broblem benodol, i helpu i gefnogi dysgu a gwybodaeth broffesiynol, sgiliau a dealltwriaeth a darparu canllawiau a chymorth.<br><br>Trafod sut mae ymchwil yn llywio polisi a deddfwriaeth newydd. Canolbwyntio ar y ffordd y tynnir polisi a deddfwriaeth o ymchwil a thystiolaeth i lunio polisïau a deddfwriaeth fwy effeithiol yn seiliedig ar wybodaeth ymchwil a ddysgwyd a chanfyddiadau sy'n gwella ansawdd ac effeithiolrwydd eu defnydd. | Darparu adnoddau a gwybodaeth i ddatblygu ymchwil bellach a thrafodaeth ar sail yr enghreifftiau canlynol o newidiadau deddfwriaethol a pholisi.<br><br>Deddf Cydraddoldeb 2010<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)<br><br>Deddf Gofal Plant 2006 | Datblygu ymchwil a thrafodaeth ar sail yr enghreifftiau o newidiadau deddfwriaethol a pholisi<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Bydd y dysgwyr yn darparu trosolwg o effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth sy'n nodi: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Awgrym o drafodaeth enghreifftiol:**<br><br>Gallai enghraifft o newid deddfwriaethol yn sgil ymchwil fod fel a ganlyn:<br><br>Deddf Plant 1989 a gyflwynwyd i ddiwygio ac egluro'r deddfau presennol sy'n effeithio ar blant ac a greodd ddarn cynhwysfawr o ddeddfwriaeth hawliau plant. Trafod y gyfraith amddiffyn plant bresennol sydd wedi esblygu yn sgil ymchwil a thystiolaeth gan fod y Llywodraeth wedi gofyn i'r Arglwydd Laming gynnal ymchwiliad i helpu i benderfynu a oedd angen deddfwriaeth amddiffyn plant i wella'r system amddiffyn plant bresennol. Arweiniodd Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié (Laming, 2003) at ddarparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Mae Pob Plentyn yn Bwysig, a arweiniodd at newid mewn amddiffyn plant yn seiledig ar yr adroddiadau a'r newid mewn deddfwriaeth i Ddeddf Plant 2004, gan alluogi'r gwasanaethau i ddilyn dull cyfannol ac ymateb integredig, nid yw Deddf Plant 2004 yn disodli na hyd yn oed yn diwygio llawer o Ddeddf Plant 1989. Yn lle hynny, mae'n gosod y broses ar gyfer integreiddio gwasanaethau i blant ac ati.<br><br>Trafodwch sut mae newid deddfwriaethol wedi arwain at ofyniad i newid polisi gan fod rhaid i leoliadau/sefydliadau gofal plant/addysgol feddu ar bolisïau priodol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant dros ystod eang o feysydd.<br>Er enghraifft, mae'r meysydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br><br>Bydd atal bwlio, delio â materion presenoldeb, bodloni anghenion plant sâl, diogelwch yn yr ysgol ac amddiffyn plant ei hun yn effeithio ar bob agwedd ar broffesiynoldeb wrth weithio gyda phlant mewn amrywiaeth eang o leoliadau.<br><br>**Gweithgaredd:** | Deddf Iechyd a Diogelwch 1974<br><br>Deddf Diogelu Data 2018<br><br>Darparu adnoddau a gwybodaeth bellach i gefnogi'r dysgwyr i ddatblygu syniadau drwy enghreifftiau o ymchwil a allai gynnwys y canlynol: Ymchwil Llywodraeth Cymru i addysg y blynyddoedd cynnar e.e.<br><br>• diwygio addysgol<br>• ymyrryd yn gynnar<br>• newidiadau i'r cwricwlwm<br>• cynaliadwyedd<br>• Dechrau'n Deg<br>• Rhaglen Plant Iach | • Sut mae ymchwil yn llywio polisi a deddfwriaeth newydd<br>• Sut caiff data eu defnyddio i lywio a diweddaru deddfwriaeth a mentrau Cymru<br>• Dylanwadu ar newidiadau i ymarfer proffesiynol<br><br>Darparu canfyddiadau a throsolwg i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu ymchwil a thrafodaeth ar sail yr enghreifftiau o newidiadau deddfwriaethol a pholisi canlynol.<br><br>• Deddf Cydraddoldeb 2010<br>• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)<br>• Deddf Gofal Plant 2006<br>• Deddf Iechyd a Diogelwch 1974<br>• Deddf Diogelu Data 2018<br><br>Trafod sut caiff data eu defnyddio i hysbysu a diweddaru deddfwriaeth a mentrau Cymru e.e. casglu data, dadansoddi data, enghreifftiau o arfer da, nodi mesurau, llunio canllawiau, gosod targedau, nodi buddiannau a nodi'r newidiadau gofynnol ac ati.<br><br>Trafod y dylanwadau a'r newidiadau i ymarfer proffesiynol e.e. cydnabod y cwmpas ar gyfer gwella, hwyluso newidiadau amgylcheddol i gefnogi ymarfer proffesiynol a'r nod o lunio ymarfer effeithiol ac ati.<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth. Gall dysgwyr ddatblygu syniadau drwy enghreifftiau o ymchwil a allai gynnwys ymchwil Llywodraeth Cymru i addysg y blynyddoedd cynnar ac adolygiad Donaldson a arweiniodd at ddiwygio addysgol. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dylanwadau a'r newidiadau i ymarfer seiliedig ar ymchwil e.e. ymyrryd yn gynnar, newidiadau i'r cwricwlwm, | • Cynllun Gwên ac ati | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynaliadwyedd, Dechrau'n Deg, y Rhaglen Plant Iach a Chynllun Gwên ac ati<br><br>**Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:**<br><br>• Beth oedd prif ffocws yr ymchwil?<br>• Beth oedd maes targed yr ymchwil?<br>• Allwch chi grynhoi canfyddiadau'r ymchwil?<br>• Beth mae'r canfyddiadau seiliedig ar ymchwil yn bwriadu ei wella?<br>• Sut mae'r newid mewn deddfwriaeth a pholisïau yn dylanwadu ar ymarfer?<br><br>**Tasg Asesu:**<br><br>Mae angen i ddysgwyr ddarparu trosolwg o effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth sy'n nodi:<br><br>1. Sut mae ymchwil yn llywio polisi a deddfwriaeth newydd<br>2. Sut caiff data eu defnyddio i lywio a diweddaru deddfwriaeth a mentrau Cymru<br>3. Dylanwadu ar newidiadau i ymarfer proffesiynol<br><br>Darparu canfyddiadau a throsolwg i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan | | |

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **Uned orfodol 330**<br><br>**Testun 5:**<br><br>**Effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, dulliau a mentrau cyfredol y llywodraeth ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**<br><br>**MPA 5.4** | 15 | **Effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, dulliau a mentrau cyfredol y llywodraeth ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.** Canolbwyntio'r dysgu a'r trafodaethau dosbarth cyfan ar gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o sut mae deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.<br><br>**Mentrau/canllawiau/dulliau dysgu:**<br><br>Trafod ystod o fentrau/canllawiau/dulliau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o'u nodau, egwyddorion a'r effaith ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant sy'n cynnwys:<br><br>• Dull moesegol, cynaliadwy, ecolegol<br>• Dechrau'n Deg<br>• Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy<br>• Ysgolion Iach<br>• Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae<br>• Ysgolion Coedwig/Ysgolion Traeth<br><br>**Gweithgaredd:**<br><br>Dysgwr i drafod a chreu siart wybodaeth o un maes yr un mewn grwpiau bach. Canolbwyntio ar nodau, egwyddorion ac effaith pob un o'r mentrau/canllawiau/dulliau dysgu a awgrymir ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Pob grŵp i gyflwyno'u siart wybodaeth i'r dosbarth sy'n dynodi nodau, egwyddorion a'r effaith ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan. | Deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, adnoddau a chysylltau fideo<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Yr hyn a wnawn \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Gwobrau Cenedlaethol y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy HSPSS-Doc(E).pdf (wales.nhs.uk/cym)<br><br>Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith | Trafodwch ystod o fentrau / canllawiau / dulliau dysgu<br><br>Pob dysgwr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn siarad i roi adborth i'r dosbarth i'w drafod.<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddysgwyr unigol ar y drafodaeth/canfyddiadau cyffredinol a chwestiynau'r dosbarth<br><br>Dysgwr i drafod a chreu siart wybodaeth o un maes yr un mewn grwpiau bach. Canolbwyntio ar nodau, egwyddorion ac effaith pob un o'r mentrau/canllawiau/dulliau dysgu a awgrymir<br><br>Dysgwyr i greu crynodeb o'r meysydd trafod sydd wedi'u cwmpasu trwy'r trafodaethau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau:**<br><br>**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)**<br><br>Trafodwch reoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Disgrifiwch yr hyn mae'n ei wneud o ran cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru. Trafodwch sut maent yn rheoleiddio gwasanaethau plant: cartrefi gofal i blant, gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau eiriolaeth a sicrhau gwasanaethau lletya, gwasanaethau gofal plant a chwarae: gwarchodwyr plant, crèches, gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:** Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Yr hyn a wnawn \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>**Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy**<br><br>Trafodwch gyfrifoldeb y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy wrth gefnogi datblygiad ysgolion sy'n hybu iechyd. Disgrifiwch yr ysgol sy'n hybu iechyd fel un sy'n 'mynd ati'n frwd i hybu, diogelu ac ymgorffori iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei chymuned drwy gymryd camau gweithredu cadarnhaol'. Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn **estyniad o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru**. Canolbwyntiwch ar y ffordd y mae'r cynllun yn hybu ymddygiad iechyd cadarnhaol pan fo pobl yn ifanc, gan gynnwys iechyd y geg da a phwysigrwydd bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol i gefnogi lleihau gordewdra yn y Blynyddoedd Cynnar.<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:** | Cymru \| Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Yr hyn a wnawn \| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk)<br><br>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir<br><br>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir \| LLYW.CYMRU<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi? - YouTube | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwobrau Cenedlaethol y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy<br>HSPSS-Doc(E).pdf (wales.nhs.uk/cym)<br><br>Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach<br>Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru \| Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>**Safonau Gofal Iechyd ac Arolygiaeth Iechyd Cymru**<br><br>Trafodwch Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sef arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Canolbwyntiwch ar yr hyn y maent yn ei reoleiddio a'i arolygu e.e. gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn seiliedig ar amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella.<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:** Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br><br>Yr hyn a wnawn \| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk)<br><br>**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant 0-12 oed**<br><br>Trafodwch y gofal plant a reoleiddir sy'n cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth, sy'n destun set o safonau gofynnol cenedlaethol. Canolbwyntiwch ar y ffordd y caiff gwarchodwyr plant, darpariaeth gofal dydd a chwarae i blant hyd at 12 oed eu rheoleiddio yng Nghymru gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Trafodwch fod rhai lleoliadau gofal cofrestredig sy'n cael eu hariannu gan Awdurdodau Lleol i ddarparu addysg i blant 3-4 oed ac i gyflwyno | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf (llyw.cymru)<br><br>Unicef UK<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – UNICEF UK<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau \| LLYW.CYMRU<br><br>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | addysg y Blynyddoedd Cynnar yn cael eu harolygu gan Estyn hefyd i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau addysgol.<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:**<br><br>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir<br><br>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir \| LLYW.CYMRU<br><br>**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**<br><br>Trafodwch sut mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol i wella llesiant y bobl y mae angen cymorth a gofal arnynt, ac i'r gofalwr sydd angen cymorth i drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i roi mwy o annibyniaeth, llais cryfach a rheolaeth i bobl. Canolbwyntio ar yr egwyddorion sy'n hollbwysig i'r Ddeddf: Llais a rheolaeth – rhoi unigolion wrth wraidd eu gofal. Rhoi llais iddynt a rheoli canlyniadau i helpu i gyflawni llesiant. Atal ac ymyrryd yn gynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned er mwyn lleihau angen difrifol. Llesiant – cynorthwyo pobl i greu eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant y gofal a'r cymorth hwn. Cydgynhyrchu – annog unigolion i chwarae mwy o ran yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.<br><br>**Cyswllt fideo a awgrymir:**<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi? - YouTube<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:** | Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)<br><br>Anghenion dysgu ychwanegol<br>Anghenion dysgu ychwanegol \| Is-destun \| LLYW.CYMRU<br><br>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)<br>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>[deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf (llyw.cymru)]<br><br>**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**<br><br>Trafodwch bwysigrwydd hawliau dynol, y rhyddid a'r diogelwch y mae gan bob un yr hawl iddynt. Trafodwch sut caiff hawliau dynol dysgwyr eu diogelu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Canolbwyntiwch ar ddatblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol, yn cymell gweithredu a grymuso cymdeithasol dinasyddiaeth weithgar i ddatblygu parch ar gyfer hawliau pawb.<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:** Unicef UK<br><br>[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – UNICEF UK]<br><br>**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br><br>Trafodwch y ffordd nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau penodol ar ysgolion ond ei bod yn gofyn i lywodraeth leol a chenedlaethol gyflawni datblygiad cynaliadwy, gweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn iddynt gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n cynnwys mabwysiadu ffyrdd o weithio a fydd yn helpu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Canolbwyntiwch ar ofynion Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, ymhlith eraill, i osod amcanion a ddyluniwyd i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant a | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | fyddai'n elwa ar drafodaeth bellach. Trafodwch werth llywodraethau lleol a chenedlaethol wrth annog ysgolion, lleoliadau meithrin ac ati i ystyried sut gallant ymgorffori'r ffyrdd o weithio a chyfrannu at y nodau llesiant drwy eu cwricwlwm a denu dysgwyr, rhieni/gofalwyr a hefyd y gymuned ehangach.<br><br>**Cyswllt i ymchwil a awgrymir:**<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau \| LLYW.CYMRU<br><br>**Cymraeg 2050; Miliwn o siaradwyr**<br><br>Trafodwch arwyddocâd a gwerth y Gymraeg fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r cwricwlwm newydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Trafodwch y ffordd y mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed, gyda hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau cynnydd y dysgwyr yn y Gymraeg.<br><br>**Cyswllt i adnodd a awgrymir:**<br><br>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr<br>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)<br><br>**Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodwch Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n creu fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a darparu dysgu ychwanegol. Trafodwch y ffordd y mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar ddull person-ganolog i nodi anghenion yn gynnar ac yn rhoi cymorth effeithiol ar waith, yn monitro wrth addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol gan sicrhau y caiff yr holl ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu llawn botensial.<br><br>**Cysylltau i adnoddau a awgrymir:**<br><br>Anghenion dysgu ychwanegol<br><br>Anghenion dysgu ychwanegol \| Is-destun \| LLYW.CYMRU<br><br>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)<br><br>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) \| LLYW.CYMRU<br><br>**Tasg asesu:**<br><br>Dysgwyr i greu crynodeb o'r meysydd trafod sydd wedi'u cwmpasu trwy'r trafodaethau. Ymchwilio i wybodaeth a chysylltau fideo o ddeddfwriaeth, rheoliadau, polisïau sy'n effeithio ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. | | |

# 5. Asesiadau Di-arholiad

Bydd cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cael ei asesu drwy asesiad mewnol (70%) ac asesiad allanol (30%).

Rhaid i'r ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth broffesiynol
- arholiad allanol
- ymchwiliad estynedig a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol.

**Asesiad Allanol (Unedau 330 a 331)**

Caiff unedau 330 a 331 eu hasesu drwy ddau asesiad allanol. Bydd y gwaith o asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn Unedau 330 a 331 yn targedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a ddynodir:

| Assessment Objectives | Requirements | Weighting | Unit 330 (Written Examination) | Unit 331 Extended Investigation |
|---|---|---|---|---|
| **AO1** | Demonstrate knowledge and understanding of a range of key concepts, values and issues that are relevant to children's care, play, learning and development settings and contexts. | Minimum 20% | 31-36% | 9% |
| **AO2** | Apply knowledge and understanding to analyse evidence-based practices (your own or those of others) within children's care, play, learning and development. | Minimum 25% | 31-36% | 42% |
| **AO3** | Research, and evaluate theories and practice that relate to children's care, play, learning and development and reflect on how they can influence practice. | Minimum 35% | 33-38% | 49% |

© WJEC CBAC Ltd.

**Arholiad allanol (Uned 330)**

Bydd yr arholiad allanol yn cynnwys un papur 2 awr o hyd (i'w sefyll ar bapur neu ar sgrin) a fydd:

- yn cael ei osod a'i farcio gan CBAC.
- yn asesu cynnwys o fewn meysydd testun 1-5
- yn cynnwys uchafswm o 100 marc
- yn cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- yn asesu tri Amcan Asesu pob cyfres
- yn asesu maes testun (1-5) pob cyfres
- yn asesu holl adrannau pob maes testun allweddol dros rychwant oes y fanyleb
- yn cyd-fynd â'r ystodau marciau canrannol a gytunwyd ar gyfer pob amcan asesu ym mhob fersiwn o'r arholiad
- dim ond yn defnyddio'r berfau gorchymyn sydd ar y rhestr
- yn cael eu marcio ar ffurf llwyddo/teilyngdod ac anrhydedd
- ar gael ym mis Ionawr a Mai/Mehefin o 2022 ymlaen.

Bydd y dyraniad marciau fesul Amcan Asesu ar gyfer pob papur arholiad byw fel a ganlyn:

| | AO1 | AO2 | AO3 |
|---|---|---|---|
| % | 31-36% | 31-36% | 33-38% |
| Mark | 31-36 | 31-36 | 33-38 |

Cwestiwn ac atebion enghreifftiol ar gyfer Uned 330:

| Cwestiynau enghreifftiol |
|---|

1. Mae Huw yn 2 oed ac yn mynychu meithrinfa ddydd. Mae ymarfer arsylwi a gwblhawyd yn ddiweddar wedi nodi bod Huw yn hoffi cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

(a) Amlinellwch sut y gallai gweithgaredd adeiladu ffau (den) yn yr awyr agored helpu Huw i ddatblygu **dwy** sgil gorfforol. [4]

(i) ..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

© WJEC CBAC Ltd.

(ii) ……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

(b) Dadansoddwch sut y gallai mynd ati i adeiladu ffau gydag eraill hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol Huw hefyd.[5]

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

© WJEC CBAC Ltd.

# Enghraifft o AA1 (1)

## Disgrifiwch gwestiwn...

## Trafodwch a marciwch ansawdd yr ymateb

Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i'r dysgwr er mwyn ei helpu i wella ei radd?

2. "Mae'n hanfodol cefnogi ysgolion a meithrinfeydd er mwyn i'r Cynllun Gwên lwyddo a gwella iechyd y geg i blant yng Nghymru".

(http://www.designedtosmile.org/information-for-professionals/information-for-schools-and-nurseries/?lang=cy/)
Disgrifiwch sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed. [5]

A yw'r ateb hwn yn diwallu anghenion y cwestiwn?

designed to smile helps children look after their teeth and brush them the correct way by maybe making it easier do their teeth in school after dinner for example they will do sharks first then they would do lions snakes then to finish it off by brushing their tounge this would help the children have positive health by looking after their mouth and teeth keeping them healthy.

Marciau a ddyfarnwyd 2

© WJEC CBAC Ltd.

A yw'r cwestiwn yn cwmpasu'r meini prawf disgrifio yn llawn?

Sut gellir gwella'r ateb hwn ymhellach?

# Enghraifft o AA1 (2)

## Disgrifiwch gwestiwn...

## Trafodwch a marciwch ansawdd yr ymateb

2. "Mae'n hanfodol cefnogi ysgolion a meithrinfeydd er mwyn i'r Cynllun Gwên lwyddo a gwella iechyd y geg i blant yng Nghymru".

(http://www.designedtosmile.org/information-for-professionals/information-for-schools-and-nurseries/?lang=cy/)

Marciau a ddyfarnwyd 3

Disgrifiwch sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.[5]

It helps to support health and well-being because it
educates children and young people on how to have good oral
hygeine and promotes positive habits from an early age.
The programme also provides information for children and
carers which will give them a better understanding of how
to look after their teeth. The programme also provides
brushes and toothpaste so that disadvantaged children
aren't excluded, and everybody has equal opportunity to
achieve good oral health. Overall, these factors help to
support childrens health, confidence and self-esteem.

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | 1.2 | Disgrifiwch sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.<br><br>Dyfarnwch hyd at **5 marc**.<br><br>**Rhowch 0 marc** am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.<br><br>**Rhowch 1-2 farc** am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.<br><br>**Rhowch 3-4 marc** am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.<br><br>**Rhowch 5 marc** am ddisgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br><br>• mae'n rhaglen ataliol i wella iechyd y geg i blant<br>• mae'n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi sy'n cydweithio i hybu iechyd – amlasiantaethol<br>• mae'n rhoi cyngor i rieni – eu hannog i hybu hylendid y geg da gartref<br>• mae'n rhoi cyngor i leoliadau – fel y gallant gysylltu â bwyta'n iach amser byrbryd<br>• darparu brwshys dannedd a phast dannedd am ddim i blant<br>• darparu hyfforddiant gorfodol i staff/gweithwyr i roi'r rhaglen ar waith yn y lleoliad<br>• cynllun yn darparu gweithgareddau sy'n annog brwsio dannedd fel mater o drefn | 5 | 5 | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • staff yn annog modelau rôl, arferion da ac yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir i gefnogi'r rhaglen<br>• mae'r rhaglen yn hyrwyddo canu caneuon, bydd taflenni gweithgareddau ac ati sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd yn darparu profiadau dysgu ystyrlon<br>• galluogi lleoliadau i weithio gyda theuluoedd/gofalwyr – felly'n atgyfnerthu iechyd y geg cadarnhaol.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb addas arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

# Enghraifft o AA3 (1)

## Aseswch gwestiwn...

## Trafodwch a marciwch ansawdd yr ymateb

A yw'r ateb hwn yn asesu'r newid mewn amgylchiadau a all effeithio ar iechyd a llesiant Jayne?

Pa dechnegau paratoi ar gyfer arholiad a allai gael eu defnyddio er mwyn gwella'r arddull ysgrifennu hon?

Marciau a ddyfarnwyd 4

3 Mae Jayne yn 14 oed ac mae ganddi frawd iau sy'n 6 oed. Yn ddiweddar, mae Jayne wedi cymryd mwy o gyfrifoldeb yn y cartref gan fod ei mam yn methu â symud mwyach ar ôl damwain.

Aseswch sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne. [6]

Jayne's health and well-being will be effected a lot. She has now taken on the responsibility of caring for her younger brother and carrying out house hold tasks. This effects Jayne Emotionaly as she has had to grow up fast. It effect's her Socially as she wont have time to Socialise. It can also effect her Schooling as she might be missing School to help out home She might not have time to carry out home work tasks as she has other responsibilitys at home. She will also have the worry of her mother being unwell.

© WJEC CBAC Ltd.

Enghraifft o AA3 (2)

Aseswch gwestiwn...

Trafodwch a marciwch ansawdd yr ymateb

Pa dechnegau paratoi ar gyfer arholiad a allai gael eu defnyddio yma?

A yw'r ateb hwn yn asesu?

3. Mae Jayne yn 14 oed ac mae ganddi frawd iau sy'n 6 oed. Yn ddiweddar, mae Jayne wedi cymryd mwy o gyfrifoldeb yn y cartref gan fod ei mam yn methu â symud mwyach ar ôl damwain.

Aseswch sut gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne. [6]

Firstly, Jayne's social life is likely to decrease because she would be spending more time at home, this could impact her emotional development also, because of the pressure and responsibility she now has. This could also effect her health because she would be putting strain on her body by looking after her brother and mother. Jayne's well-being would be impacted by this, as her cognitive development will suffer as she may miss school, therefore she would fall behind her peers, and this could cause stress, anxiety and depression, which would have a negative effect on her mental health.

Marciau a ddyfernir :

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marciau | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | 1.3 | Mae Jayne yn 14 oed ac mae ganddi frawd iau sy'n 6 oed. Yn ddiweddar, mae Jayne wedi cymryd mwy o gyfrifoldeb yn y cartref gan fod ei mam yn methu â symud mwyach ar ôl damwain.<br>Aseswch sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.<br>Dyfarnwch hyd at **6 marc**.<br>**Rhowch 0 marc** am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.<br>**Rhowch 1-2 farc** am asesiad sylfaenol o sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.<br>**Rhowch 3-4 marc** am asesiad da o sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.<br>**Rhowch 5-6 marc** am asesiad da iawno sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.<br>Rhowch farciau am ymatebion sy'n gadarnhaol neu'n negyddol, nid oes rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y ddau i ennill marciau llawn.<br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• gallai'r cyfrifoldeb ychwanegol olygu bod yn rhaid iddi dreulio mwy o amser gartref a fydd yn atgyfnerthu ei chydberthynas â'i mam a'i brawd<br>• helpu o amgylch y tŷ – bydd Jayne yn dysgu sgiliau bywyd gwerthfawr newydd<br>• efallai y bydd Jayne yn mwynhau rôl oedolyn yn helpu i ofalu am ei brawd<br>• gallai Jayne feithrin cydberthnasau newydd ag eraill a all fod yn helpu i ofalu am y teulu – gwasanaethau cymdeithasol, ffrindiau, aelodau eraill o'r teulu<br>• allai Jayne wneud yn well mewn addysg os yw'n aros gartref mwy gyda'r nos –– mwy o amser i adolygu ac ati<br>• gallai Jayne ddatblygu ei hunan-barch, yn falch o'r hyn mae'n ei wneud<br>• efallai y bydd Jayne yn teimlo bod ei theulu yn ei gwerthfawrogi'n fwy am ei bod yn helpu i ofalu amdanynt<br>• gallai Jayne deimlo dan bwysau gyda'r gwaith ychwanegol gartref<br>• gallai Jayne brofi iselder/teimlo'n unig/blinder<br>• gallai Jayne gael anaf corfforol wrth godi ac ati<br>• efallai na fydd Jayne a'i theulu yn bwyta'n briodol – prydau rheolaidd neu gytbwys<br>• efallai y bydd Jayne yn gweld eisiau ei ffrindiau<br>• efallai y bydd Jayne ar ei hôl hi mewn addysg<br>• efallai y bydd Jayne yn datblygu problemau hunan-barch<br>• gallai colli'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith (gwaith tŷ/gofalu) effeithio ar Jayne<br>• dim amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, clybiau ac ati<br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | 6 | | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

Enghraifft o AA1 (1)

Awgrymwch gwestiwn...

Trafodwch a marciwch ansawdd yr ymateb

5. Mae Rhiannon yn byw gyda'i gŵr, Tomos, sydd wedi dychwelyd o'r lluoedd arfog yn ddiweddar, a'u mab, Dewi, sy'n 2 ½ oed. Yn ystod sgwrs ddiweddar â'r ymwelydd iechyd, mynegodd y ddau riant bryderon mewn perthynas â newidiadau yn ymddygiad Dewi yn y cartref ac yn y Cylch Meithrin, lle mae'n dawelach nag arfer ac nid yw am ymuno mewn gweithgareddau.

(a) Awgrymwch resymau posibl dros y newid o ran ymddygiad Dewi.[5]

His father just came back from the armed force and that is a big change for a 2½ year old as he hasn't hardly seen his father and he may not feel as close to his mother now as his father is home and that may be upsetting him.

Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i'r dysgwr er mwyn ei helpu i wella ei radd?

Marciau a ddyfarnwyd 1

© WJEC CBAC Ltd.

A yw'r ateb hwn yn awgrymu rhesymau?

A yw'r ateb yn ateb y cwestiwn yn llawn?

## Enghraifft o AA1 (2)

## Awgrymwch gwestiwn...

## Trafodwch a marciwch ansawdd yr ymateb

5. Mae Rhiannon yn byw gyda'i gŵr, Tomos, sydd wedi dychwelyd o'r lluoedd arfog yn ddiweddar, a'u mab, Dewi, sy'n 2 ½ oed. Yn ystod sgwrs ddiweddar â'r ymwelydd iechyd, mynegodd y ddau riant bryderon mewn perthynas â newidiadau yn ymddygiad Dewi yn y cartref ac yn y Cylch Meithrin, lle mae'n dawelach nag arfer ac nid yw am ymuno mewn gweithgareddau.

Marciau a ddyfernir 2

(a) Awgrymwch resymau posibl dros y newid o ran ymddygiad Dewi.[5]

> One of the possible reasons is that the son may not have been around the father often. Another reason could be that that the mother may not be spending as much time with the son. The sons behaviour may have changed in school because he may want to spend more time with his father or he is upset that his father is home. Tomos also feels confused

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm Marc | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | (a) 2.1 | Mae Rhiannon yn byw gyda'i gŵr, Tomos, sydd wedi dychwelyd o'r lluoedd arfog yn ddiweddar, a'u mab, Dewi, sy'n 2 ½ oed. Yn ystod sgwrs ddiweddar â'r ymwelydd iechyd, mynegodd y ddau riant bryderon mewn perthynas â newidiadau yn ymddygiad Dewi yn y cartref ac yn y Cylch Meithrin, lle mae'n dawelach nag arfer ac nid yw am ymuno mewn gweithgareddau.<br><br>Awgrymwch y rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.<br><br>Dyfarnwch hyd at 5 marc.<br><br>**Rhowch 0 marc** am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.<br><br>**Rhowch 1-2 farc** am awgrymiadau sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.<br><br>**Rhowch 3-4 marc** am awgrymiadau da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.<br><br>**Rhowch 5 marc** am awgrymiadau da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• Mae Dewi yn profi newid annisgwyl – dad yn ôl<br>• efallai ei fod yn dawelach yn yr ysgol oherwydd bod ei dad gartref – felly nid yw am fynd i'r ysgol, mae am fod gartref gyda dad<br>• efallai ei fod yn flinedig oherwydd efallai ei fod yn gwneud mwy o weithgareddau gyda'i dad neu gyda'r teulu am fod ei dad yno bellach<br>• efallai ei fod eisiau mwy o sylw nawr bod ganddo ddau riant gartref a gallai ei ddatblygiad/ymddygiad lithro'n ôl<br>• efallai fod Rhiannon am dreulio amser gyda'i gŵr hefyd felly efallai fod llai o amser ganddi i Dewi, gallai hyn ei wneud yn genfigennus o'i dad | 5 | 5 | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • efallai ei fod yn ofnus neu'n bryderus y bydd ei dad yn gadael eto<br>• gall ei dad fod yn fwy dieithr i Dewi – efallai fod diffyg bondio ac ymlyniad.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**Ymchwiliad Estynedig (Uned 331)**

Mae disgwyl i ymgeiswyr gynnal ymchwiliad estynedig yn seiliedig ar destun penodol. Diben yr ymchwiliad hwn yw galluogi dysgwyr i gynnal a dadansoddi tystiolaeth a gesglir drwy'r ymchwiliad a fydd yn cefnogi dysgu o uned 330, yn gwneud cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer ac yn helpu i baratoi ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (os yw'n gymwys).

Mae'r Ymchwiliad Estynedig yn fath o asesiad diarholiad a rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau a nodir yn nogfen JCQ 'Instructions for conducting non-examination assessment'. Mae copi ar gael ar wefan JCQ (www.jcq.org.uk).

Bydd angen i ganolfannau gael polisi ar asesiadau diarholiad a gaiff ei wirio fel rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Mae tri cham asesu diarholiad a gaiff eu rheoli:

- gosod yr ymchwiliad
- cwblhau'r ymchwiliad
- marcio'r ymchwiliad.

Gosod yr ymchwiliad

Caiff dau destun eu gosod gan CBAC bob blwyddyn a'u rhyddhau i ganolfannau drwy wefan ddiogel CBAC ar y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth (o 2022 ymlaen). Bydd dysgwyr yn gallu dewis pa un o'r testunau hyn i ymchwilio iddo. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ei fod wedi cyhoeddi'r testunau cywir ar gyfer y flwyddyn academaidd y cofrestrir dysgwyr ynddi.

Cwblhau'r ymchwiliad

Bydd rhywfaint o hyblygrwydd i ganolfannau ddewis pryd i drefnu'r asesiad diarholiad. Mae angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno Uned 330 cyn rhoi cynnig ar yr Ymchwiliad Estynedig. Gan y bydd yr ymchwiliad yn seiliedig ar brofiad yr ymgeisydd yn ei leoliad gwaith, argymhellir na ddylid rhoi cynnig ar yr Ymchwiliad Estynedig tan ar ôl, neu'n agos at ddiwedd, y 700 awr gorfodol o leoliad. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gallu cael y marciau sydd ar gael a ddyrennir i bob agwedd ar yr ymchwiliad. Gofynnir i'r ymgeiswyr ddewis pa un o'r ddau destun maent yn bwriadu ymchwilio iddo, a bydd angen iddynt gynllunio a chyflawni ymchwil annibynnol. Mae'n ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen y CGC: Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau diarholiad.

Mae pum agwedd ar yr ymchwiliad sy'n cael eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio a threfniadau ailsefyll.

© WJEC CBAC Ltd.

<u>Amser</u>

Dylai ymgeiswyr dreulio 15 awr ar yr Ymchwiliad Estynedig. Mae'r amser hwn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau o dan oruchwyliaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflawni ymchwil annibynnol nad oes angen iddi gael ei goruchwylio.

<u>Adnoddau</u>

Caiff ymgeiswyr ddefnyddio unrhyw adnoddau sy'n briodol yn eu barn nhw, gan gynnwys y rhyngrwyd, wrth gyflawni eu hymchwil annibynnol. Wrth gwblhau'r dasg a reolir dan oruchwyliaeth, dim ond yr ymchwil maent wedi'i chyflawni y caiff ymgeiswyr ei defnyddio.

Yr athro/aseswr sy'n gyfrifol am sicrhau nad eir ag unrhyw ymchwil ychwanegol i mewn i'r amgylchedd a oruchwylir ar ôl i'r dasg ddechrau. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael mwy na'r 15 awr a ddynodir. Bydd angen llofnodi ffurflen yn datgan bod y gofyniad hwn wedi'i fodloni. Rhaid i'r holl ymchwil a ddefnyddir gan yr ymgeisydd gael ei chadw gan y ganolfan tan ddiwedd y cyfnod asesu a gall CBAC ofyn amdani yn ystod y cyfnod hwn. Dylai canolfannau gyfeirio at ddogfen CBAC Camymddwyn – Canllaw i Ganolfannau a dogfen y CGC Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: polisïau a gweithdrefnau os nad ydynt yn siŵr sut i fwrw ati.

<u>Goruchwyliaeth</u>

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a rhaid iddo gael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion yr ymchwiliad asesu di-arholiad, yr asesiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig. Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad a/neu fod yr holl amser sydd ar gael wedi'i ddefnyddio'n llawn, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith. Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar yr ymchwiliad asesu di-arholiad fel log ac mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â gwaith yr ymgeisydd. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio 15 awr fan bellaf yn cwblhau'r dasg.

<u>Dilysu</u>

Mae'r athro'n gyfrifol am hysbysu ymgeiswyr o reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer y cymhwyster hwn. Rhaid i'r ymgeiswyr ddeall y bydd copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol.

Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu. Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan ar ôl i'r dystiolaeth (h.y. yr adroddiad a'r dystiolaeth ategol) gael eu cyflwyno
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol. Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw ran o'r ymchwiliad asesu di-arholiad.

<u>Marcio'r Ymchwiliad</u>

Caiff yr ymchwiliad hwn ei farcio'n allanol. Cyflwynir gwaith ymgeiswyr i CBAC i'w farcio'n allanol erbyn 15 Mai bob blwyddyn o fis Mai 2022 ymlaen.

Mae fformat a chynnwys y dasg ar gyfer Uned 331 fel a ganlyn:

**<u>Uned 331 Ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru Ymchwiliad Estynedig</u>**

**<u>Strwythur tasgau – Nid yw'r rhain wedi newid. Caiff y testunau eu rhyddhau ar ddydd Llun cyntaf mis Mawrth.</u>**

## Tasg 1

Ysgrifennwch gyflwyniad i'ch ymchwiliad estynedig.

Amlinelliad:

- y prif ganolbwynt; meysydd rydych wedi dewis ymchwilio iddynt mewn perthynas â'r testun rydych wedi'i ddewis
- pam rydych wedi dewis y testun a'r meysydd penodol; efallai y byddwch am gyfeirio at ddiddordebau personol, cynnwys a addysgwyd, ymgysylltiad â'r sector a lleoliad gwaith wrth nodi'r dulliau ymchwil rydych wedi eu defnyddio
- ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd penodol.

[9 marc]

Dylech anelu at ysgrifennu tua 450 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

## Tasg 2

Trafodwch y ffordd mae eich testun a'r meysydd penodol yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- y ffordd mae'r meysydd penodol yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys eich rhai chi a/neu eraill
- enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- y ffordd mae theori/deddfwriaeth neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd penodol
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau y gellir eu holrhain i gefnogi tystiolaeth.

[30 marc]

© WJEC CBAC Ltd.

Dylech anelu at ysgrifennu tua 1,500 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

## Tasg 3

Trafodwch y ffordd mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'ch testun a'ch meysydd penodol yn cael eu defnyddio'n ymarferol i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Dylai eich tystiolaeth gyfeirio at y canlynol:

- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a chydweithio
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- y rhyddid i gymryd rhan
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw sgiliau eraill fel sy'n briodol.

[15 marc]

Dylech anelu at ysgrifennu tua 750 o eiriau ar gyfer yr adran hon

## Tasg 4

Ystyriwch y ffordd mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel sy'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â'r ffordd mae'r damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych wedi eu profi.

[14 marc]

Dylech anelu at ysgrifennu tua 700 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

## Tasg 5

Aseswch y ffordd y gall gwybodaeth am eich testun a'r damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig gael ei defnyddio i newid darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Rhaid i'ch tystiolaeth:

- ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd ac sy'n datblygu
- cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau yn y sector
- rhoi barn sy'n cysylltu ymarfer a theori (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig)
- awgrymu newidiadau yn y dyfodol a allai gael eu mabwysiadu ar lefel ymarferol i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- rhaid i'r dystiolaeth gyfeirio at yr ymchwil a wnaed a bod yn gysylltiedig â phrofiadau ymarferol.

[20 marc]

Dylech anelu at ysgrifennu tua 1,000 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

© WJEC CBAC Ltd.

## Tasg 6

Trafodwch y ffordd y bydd eich ymchwil a'r hyn a ddysgir gennych yn cefnogi eich ymarfer unigol wrth symud ymlaen. Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- myfyrio ar werth neu fanteision yr hyn rydych wedi'i ddysgu fel rhan o'r gwaith o ymchwilio i'r testun hwn a'r meysydd penodol
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar eich canfyddiadau, i wella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeirio at unrhyw effaith y gallai newidiadau i'ch ymarfer eich hun ei chael ar ymarfer pobl eraill.

[12 marc]

Dylech anelu at ysgrifennu tua 600 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Uned 331 – Cyngor Defnyddiol**

Dylai pawb sy'n ymwneud â'r gwaith sicrhau eu bod yn deall yn union beth sydd yn y pecyn asesu ac yn cynllunio'n drwyadl er mwyn cynnal yr asesiad hwn o fewn yr amserlen a'r cyfnod asesu a bennwyd.

Bydd y wybodaeth ganlynol yn ategu'r wybodaeth yn y pecyn asesu.

Mae'r pecyn gwybodaeth ar gyfer canolfannau ac ymgeiswyr yn darparu :

Dewis o 2 destun – dylai ymgeiswyr ddewis un testun a datblygu hwn yn unol â'r tasgau a amlinellir yn y Fanyleb ar dudalennau 238-239.

**Pwyntiau i'w hystyried/cofio:**

Dylai'r ymchwiliad estynedig;

- ddangos lled a dyfnder y dysgu
- bod yn benodol i'r testun dewisol a'r meysydd ffocws ym mhob tasg, fel y nodwyd ar dudalennau 8-10
- cael ei drefnu'n rhesymegol i ddatblygu ehangder a dyfnder y drafodaeth a chwmpasu pwyntiau hanfodol
- ystyried safbwynt gweithiwr gofal plant
- sicrhau bod cyfeiriadau wedi eu nodi a'u dyfynnu'n briodol er mwyn osgoi'r perygl o lên-ladrad
- cyflwyno gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau.

**Gallai ymgeiswyr ddatblygu sgiliau lefel uwch ac ennill marciau uwch drwy**:

- sicrhau bod yr ymchwiliad yn briodol i'r testun dewisol a bod tystiolaeth yn cael ei chymhwyso drwy feysydd ffocws perthnasol
- ystyried cryfderau a gwendidau gwybodaeth a gyflwynir ar gyfer trafodaeth
- gwerthuso tystiolaeth a gyflwynir mewn perthynas â'r testun a'r meysydd ffocws a nodwyd
- dadansoddi pam mae pwyntiau a wneir yn berthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Dylai ymgeiswyr ddangos y gallu i:**

- ystyried y cysylltiad rhwng theori ac ymarfer
- rhoi barn resymegol mewn perthynas â'r testun dewisol a'r meysydd ffocws
- myfyrio ar eu dysgu eu hunain ar gyfer ymarfer yn y dyfodol
- gwerthuso sut mae gwerthoedd ac egwyddorion perthnasol yn sail i'r testun a ddewiswyd a'r meysydd ffocws sydd ar waith
- gwneud digon o ddefnydd o'r cyfrif geiriau a argymhellir er mwyn dangos ehangder a dyfnder yr ymchwiliad
- sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gyflwynir yn parhau i ganolbwyntio ar ofynion penodol y dasg
- cyflwyno tystiolaeth yn unol â chyfarwyddyd y berfau gorchymyn a roddir
- gweithio'n annibynnol a dehongli gofynion y dasg yn ôl eu profiad ymarferol yn y gweithle a dysgu o'r cynnwys a gyflwynir yn yr amgylchedd addysgu.

**<u>Enghraifft o waith:</u>**

**<u>Uned 331 Canllawiau ac Ymatebion enghreifftiol ar gyfer Tasgau 1-6 (o'r hen fanyleb)</u>**

## Tasg 1

Ysgrifennwch gyflwyniad i'ch ymchwiliad estynedig.
Amlinelliad:

- y prif ganolbwynt; meysydd rydych wedi dewis ymchwilio iddynt mewn perthynas â'r testun rydych wedi'i ddewis
- pam rydych wedi dewis y testun a'r meysydd penodol; efallai y byddwch am gyfeirio at ddiddordebau personol, cynnwys a addysgwyd, ymgysylltiad â'r sector a lleoliad gwaith wrth nodi'r dulliau ymchwil rydych wedi eu defnyddio
- ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd penodol. **[9 marc]**

Dylech anelu at ysgrifennu tua 450 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Awgrymiadau Arfer Da**

- dylid nodi meysydd penodol yn glir a dylent fod yn ganolog i'r testun dewisol
- dylid nodi mwy nag un maes penodol
- gallai'r rhesymau dros eu dewis fod yn seiliedig ar brofiad personol/ymarferol mewn lleoliad gwaith neu amgylchedd dysgu sydd wedi ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth i ysgogi ymchwiliad pellach.
- dylid nodi tystiolaeth o waith ymchwil a darllen yn glir.

Enghraifft:

*Ar gyfer yr ymchwiliad hwn rwyf wedi dewis y testun "Gweithio gydag eraill". Y nod yw trafod y meysydd penodol canlynol sef Cyfathrebu/Cyfrinachedd/Pwysigrwydd gweithio gyda Rhieni/a sut mae'r rhain yn cefnogi gofal dysgu a datblygiad plant.*

*Mae'r testun wedi bod o ddiddordeb arbennig i mi yn ystod gwersi dosbarth ac rwyf wedi gallu gweld rhai o'r materion hyn yn fy lleoliad gwaith.*
*Mae'r materion hyn yn bwysig mewn amgylchedd gofal plant oherwydd dylai gweithwyr bob amser fod yn ymwybodol o anghenion y rhai maent yn gofalu amdanynt. Drwy ymchwilio ymhellach i'r testun hwn a'r materion penodol, bydd yn fy ngalluogi ac yn fy annog i ddeall arferion gorau wrth weithio gydag eraill.*

© WJEC CBAC Ltd.

*Mae'r ymchwil a wnaed wedi cefnogi fy nysgu ac mae'r ddeddfwriaeth a astudiwyd yn yr ystafell ddosbarth wedi fy helpu i ddeall yn well pam mae'n bwysig bod yn ymwybodol o faterion fel y rhai a nodwyd.*

*Mae'r ymchwiliad wedi fy annog i ddarllen llyfrau ac erthyglau mewn cylchgronau, ac rwyf wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Mae rhaglenni teledu diweddar hefyd wedi cefnogi fy nghanfyddiadau.*

*Bydd yr ymchwiliad hwn yn trafod pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol wrth sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda'i gilydd yn deall yr hyn sydd ei angen i ddarparu gofal da. Dewiswyd cyfrinachedd fel maes penodol am ei bod yn hanfodol i gadw gwybodaeth yn briodol fel bod plant a theuluoedd yn ddiogel. Fel gweithwyr gofal plant, rhaid inni ddeall mai rhieni/gofalwyr yw prif addysgwyr plant, a nhw sy'n adnabod eu plant orau.*

## Tasg 2

Trafodwch y ffordd mae eich testun a'r meysydd penodol yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys:
- y ffordd mae'r meysydd penodol yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a
- datblygiad plant
- amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys eich rhai chi a/neu eraill
- enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- y ffordd mae theori/deddfwriaeth neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd penodol
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau y gellir eu holrhain i gefnogi tystiolaeth. **[30 marc]**

Dylech anelu at ysgrifennu tua 1,500 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Awgrymiadau Arfer Da**

- dylai'r adran hon ddatblygu trafodaeth a chymhwyso gwybodaeth am y meysydd penodol sy'n berthnasol i'r testun
- dylai ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o theori/fframweithiau neu ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r meysydd penodol a chymhwyso hyn at ymarfer
- gellid ystyried pwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol
- yn ogystal â'u safbwynt eu hunain, gallai ymgeiswyr ystyried meddyliau pobl eraill. Gallai hyn gynnwys goruchwylwyr lleoliadau gwaith/athrawon yn yr amgylchedd addysg/cyfoedion
- gellid defnyddio ymarfer a arsylwyd yn ystod profiad lleoliad gwaith i gefnogi safbwyntiau
- dylai theori/deddfwriaeth neu fframweithiau priodol/perthnasol gefnogi'r drafodaeth
- dylai defnydd effeithiol o gyfeirio perthnasol fod ar waith

Enghraifft – Cysylltu â thasg 1 uchod

*Dylai'r tri maes penodol a nodir yn nhasg un bob amser gael eu hystyried wrth weithio gydag eraill am y rhesymau canlynol.*

*Yn gyntaf, bydd cyfathrebu da rhwng y rhai sy'n gofalu am blant yn helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal priodol. Pan oeddwn i ar leoliad y llynedd mewn meithrinfa gwnaeth aelod o staff anghofio dweud wrth y gweithiwr allweddol nad oedd plentyn wedi bwyta ei frecwast. Roedd y plentyn wedi*

© WJEC CBAC Ltd.

*treulio cryn dipyn o'r bore yn crio, a allai fod wedi bod am ei fod yn llwgu, ond oherwydd cyfathrebu gwael ni wnaeth y gweithiwr allweddol ddiwallu ei anghenion.*

© WJEC CBAC Ltd.

*Yr ail faes penodol yw cyfrinachedd, sy'n bwysig iawn yn fy marn i. Mae'r maes hwn hefyd yn cysylltu â'm trydydd dewis, gweithio gyda rhieni, oherwydd efallai y byddant am ddweud rhywbeth wrthym am eu plentyn ond mae angen iddynt wybod y gallant ymddiried ynom.*

*Gwnaeth fy ngoruchwylydd yn y gweithle egluro pwysigrwydd hyn imi, a'r ffaith y bydd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i aros gyda ni os bydd rhieni a gofalwyr yn ymddiried ynom.*

*Ar sail y profiad hwn y penderfynais ymchwilio ymhellach i bwysigrwydd y meysydd penodol hyn a'r ffordd maent yn cefnogi gweithio gydag eraill.*

*Dysgais y gall cyfathrebu da gefnogi plant drwy gyfnodau pontio, er enghraifft bydd cyfathrebu dieiriau fel gwenu a chyswllt llygad wrth i blant gyrraedd lleoliad am y tro cyntaf yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol.*

*Ymchwiliais i bwysigrwydd cyfathrebu cadarnhaol a'i drafod â rheolwr y feithrinfa a gytunodd ei bod yn bwysig i staff feddu ar sgiliau cyfathrebu cadarnhaol er mwyn helpu'r plant i setlo ac annog ymddiriedaeth.*

*Yn ystod fy ymchwil fe lwyddais i ganfod peth tystiolaeth ddamcaniaethol i ategu'r syniad hwn. Cred Bandura y bydd plant yn modelu agweddau'r rheini o'u hamgylch felly os bydd staff yn hapus ac yn gwenu bydd yn helpu'r plant i deimlo'n dda.*

(McLeod, S. A. (2016, Chwefror 05). *Bandura* – damcaniaeth dysgu cymdeithasol (social learning theory). Simply Psychology. https://www.simplypsychology.org/bandura.html)

## Tasg 3

Gwerthuswch y ffordd mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'ch testun a'r meysydd penodol a ddewiswyd
yn cael eu defnyddio'n ymarferol i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Dylai eich tystiolaeth gyfeirio at y canlynol:
- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a chydweithio
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- y rhyddid i gymryd rhan
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol

neu unrhyw sgiliau priodol eraill. **[15 marc]**

Dylech anelu at ysgrifennu tua 750 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Awgrymiadau Arfer Da**

- dylid gwerthuso amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion
- rydym yn awgrymu bod dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried rhif y dasg maent yn ei dewis yn ddoeth gan fod angen canolbwyntio drwy'r amser
- gellid datblygu'r gwerthusiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth a enillir fel rhan o'r cynnwys a addysgir ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer.

© WJEC CBAC Ltd.

Enghraifft – Cysylltu â thasg 1 uchod

*Er mwyn cefnogi plant yn effeithiol mae'n bwysig cynnal rhai gwerthoedd ac egwyddorion.*

*Mae gweithio gydag eraill, yn enwedig rhieni a gofalwyr, yn hanfodol wrth ofalu am blant.*

*E.e. dylai polisïau a gweithdrefnau fod ar waith ym mhob lleoliad gofal plant i sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn gyfartal. Daw plant o amrywiaeth o gefndiroedd a dylai hyn gael ei ystyried wrth ddarparu gwasanaethau i deuluoedd. Bydd y polisïau sydd ar waith yn ein helpu i weithio gydag eraill heb eu barnu.*

*Pan ddilynwn bolisïau a gweithdrefnau, bydd yn ein helpu i ddiwallu anghenion y rhai yn ein gofal a sicrhau bod cymorth yn berthnasol yn unol ag amgylchiadau.*

*Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn hyblyg oherwydd nid oes un ateb i bawb.*

*Mae cyfathrebu, sef un o'm meysydd penodol, hefyd yn hanfodol i ddarparu gofal da ac mae'n cysylltu â chyfle cyfartal.*

*Yn fy lleoliad blaenorol daeth plentyn newydd atom hanner ffordd drwy'r tymor. Roedd y teulu wedi symud o Wlad Pwyl yn ddiweddar ac nid oedd y plentyn yn siarad fawr ddim Saesneg. Rhoddwyd strategaethau ar waith i helpu o ran y cyfathrebu, a phenodwyd cynorthwyydd a oedd yn siarad Pwyleg i weithio gydag ef unwaith neu ddwy yr wythnos. Trefnwyd gweithgareddau amrywiol i gefnogi ei ddatblygiad iaith. Fel rhan o weithio gyda rhieni, sefydlwyd sesiynau i deuluoedd a gwahoddwyd rhieni i'r ysgol i gwrdd â theuluoedd eraill. Gwnaeth hyn helpu'r plentyn a'i deulu i ymgartrefu a gwneud ffrindiau. Mae sgiliau cyfathrebu yn cefnogi sgiliau cymdeithasol plant sy'n bwysig iawn o ran gwneud ffrindiau.*

*Mae'r math hwn o ymagwedd ymlaciol nad yw'n beirniadu yn helpu teuluoedd i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a gweithio gyda staff i gefnogi addysg a datblygiad eu plant.*

© WJEC CBAC Ltd.

## Tasg 4

Ystyriwch y ffordd mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel sy'n briodol) wedi dylanwadu
ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â'r ffordd mae'r damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi
dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych wedi eu profi.**[14 marc]**

Dylech anelu at ysgrifennu tua 700 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Awgrymiadau Arfer Da**

- gellid ystyried cynnwys cryfderau a gwendidau amlwg o ran theori/deddfwriaeth a fframwaith perthnasol er mwyn dangos dyfnder ac ehangder dealltwriaeth
- dylid datblygu tystiolaeth i wneud cysylltiadau clir â lleoliad gwaith yr ymgeisydd neu'r ymgysylltiad â'r sector.

B1- Winnicot's transition objects has many strengths but it also has its weaknesses. One strength includes that it takes a lot of anxiety off the child's shoulders when they are about the enter the setting as they have a sense of their home, but on the other hand if the child has the object taken off them they may not want to go to school as they feel a sense of loss. These objects can also be a distraction to the child's learning. During morning sessions within nursery's, all the children gather around the mat, when children have these object they usually become a distraction to other children which leads to the object being taken off the child (http://changingminds.org) obviously this will impact the child in a negative way as they will feel a sense of loss and may begin to cry. As the child as reacted within this way they may begin to cry for their mothers, we must always reassure them that everything will be okay as practitioner in order to cool them down. One strength of Winnicot's transitional objects is that it is a good calming method for the child to be less anxious when entering the school. Transitions can be such a daunting experience for children, especially when starting nursery as this will be the first time that the chid would be away from their mother.

© WJEC CBAC Ltd.

## Tasg 5

Aseswch y ffordd y gall gwybodaeth am eich testun a'r damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig gael ei defnyddio i newid darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth:

- ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd ac sy'n datblygu
- cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau yn y sector
- rhoi barn sy'n cysylltu ymarfer a theori (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig)
- awgrymu newidiadau ar gyfer y dyfodol a allai gael eu mabwysiadu ar lefel ymarferol er mwyn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'r dystiolaeth gyfeirio at yr ymchwil a wnaed a bod yn gysylltiedig â phrofiadau ymarferol.

**[20 marc]**

Dylech anelu at ysgrifennu tua 1,000 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Awgrymiadau Arfer Da**

Dylai dysgwyr ddatblygu asesiad manwl ynghylch sut bydd y testun dewisol a'r theori/deddfwriaeth/fframwaith yn dylanwadu ar ddarpariaeth.

Enghraifft – y testun yw trawsnewidiad – y fframwaith yw'r cyfnod sylfaen:

The Welsh Assembly Government, who developed the Foundation Phase Framework, believes that transitioning from Foundation Phase to Key Stage 2 is difficult as children have never experienced the type of practice that is displayed in Key Stage 2. This is relevant as it would encourage practitioners to prepare children for transitions like this one, so that they've had some experience before the transition begins to ensure, that the transition does not lead disengagement. The Foundation Phase Framework states that "settings/schools must work to reduce environmental and social barriers to inclusion and offer opportunities for all children to achieve their full potential". This quote shows that settings need to ensure that children feel included in order to achieve their full potential through education. This means that practitioners and settings will need to support children through barriers linked to transitions, so that children are consistently included within learning and social activities. For example, if a child who has cerebral palsy, (and needs a wheelchair to be mobile) is moving to new school that doesn't have tables suitable for a wheelchair to fit underneath, the child will feel anxious about the transition as they will worry about how they're going to get work done. They may even fear that they'll be separated from the rest of the class to work in a suitable environment, which can make a child feel lonely. To overcome these barriers for inclusion, the setting would need to have tables that the child can easily access. This will make the child feel more at ease about the transition as they'll no longer need to worry about the classroom environment.
Although there are positive points I can collect from the Foundation Phase Framework and link them to transitions, the Framework doesn't necessarily provide advice for practitioners or information about transitions, although there are additional sources of support and advice as highlighted above. As I am writing an essay on transitions, I am able to find key quotes from the Foundation Phase Framework to evaluate its effectiveness of supporting children through transitions.

© WJEC CBAC Ltd.

## Tasg 6

Trafodwch y ffordd y bydd eich ymchwil a'r hyn a ddysgir gennych yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud
ymlaen.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys:

- myfyrio ar werth neu fanteision yr hyn rydych wedi'i ddysgu fel rhan o'r gwaith o ymchwilio i'r
  testun a'r meysydd penodol
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar eich canfyddiadau, i wella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeirio at unrhyw effaith y gallai newidiadau i'ch ymarfer eich hun ei chael ar ymarfer pobl eraill.

**[12 marc]**

Dylech anelu at ysgrifennu tua 600 o eiriau ar gyfer yr adran hon.

**Awgrymiadau Arfer Da**

- dylai dysgwyr fyfyrio ar eu dysgu personol eu hunain o'r testun a'r meysydd penodol dewisol
- dylai ymgeiswyr drafod sut gallai'r dysgu hwn ddylanwadu ar eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol
- dylai'r drafodaeth gynnwys dylanwad y newidiadau a awgrymir ar eraill.

Enghraifft – y testun yw trawsnewidiad

*Rwyf wedi dysgu bod pob plentyn yn delio â thrawsnewidiad yn wahanol ac rwyf nawr yn deall bod gan weithwyr gofal plant ran bwysig iawn i'w chwarae o ran sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn ystod pob math o drawsnewidiad.*

*Mae hyn yn bwysig oherwydd rhaid inni sicrhau ein bod yn cefnogi plant ac yn eu paratoi ar gyfer newidiadau.*

*Drwy'r ymchwiliad hwn rwyf wedi darganfod bod ymddygiad plant yn newid yn ystod rhai trawsnewidiadau. Bydd rhai plant yn ymddwyn yn ymosodol yn y lleoliad os nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd. Mae'r dull person allweddol yn ddefnyddiol i ddeall hynny yn y dyfodol. Rhaid imi ddod i adnabod plant unigol a deall beth allai eu helpu.*

*Yn fy ngweithle rwyf wedi gweld y ffordd mae gweithwyr allweddol yn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus pan fyddant yn newydd i'r grŵp, felly hoffem weld mwy o hyn yn digwydd er mwyn gwella fy ymarfer i ac ymarfer eraill.*

*Rwy'n holi eraill yn y lleoliad yn aml am strategaethau i gefnogi plant ac rwy'n mynychu hyfforddiant gyda'r staff. Yn dilyn un cyfarfod tîm gwnaethom benderfynu edrych ar y garfan newydd o blant o'r tymor nesaf a gyda'n gilydd byddwn yn cyfarfod â'r rhieni er mwyn dysgu am yr hyn y mae'r plant yn hoffi ei wneud er mwyn eu helpu i drawsnewid.*

**Pwyntiau Allweddol**

- mae'r dyfyniadau hyn yn un ffordd o ddehongli ac ymateb i'r dasg osod

© WJEC CBAC Ltd.

- nid oes ffordd anghywir na chywir cyhyd â'u bod yn mynd i'r afael â'r meini prawf hanfodol – mae'r canolbwyntio ar ddewis a dehongliad y dysgwr yn seiliedig ar ei ddysgu a'i brofiad ei hun
- rhoddir marciau hyd yn oed os ceir tystiolaeth mewn adran wahanol gan fod marcio yn gyfannol
- bydd marcwyr yn safoni ac yn trafod mathau gwahanol o ymatebion yn y gynhadledd
- bydd enghreifftiau ychwanegol o waith byw yn cael eu rhyddhau ar ôl y dyfarniad cyntaf yn 2022.

© WJEC CBAC Ltd.

# 6. ADNODDAU

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Cam-drin | Diffinnir cam-drin fel unrhyw weithred sy'n niweidio neu'n anafu person arall yn fwriadol. Gall cam-drin plant fod ar sawl ffurf gan gynnwys: cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, esgeuluso a cham-drin emosiynol. |
| Atebolrwydd | Pan fydd person neu sefydliad yn gyfrifol am yr hyn mae'n ei wneud ac y disgwylir iddo roi rheswm boddhaol neu dderbyniol dros ei weithredoedd. |
| Damwain (iechyd a diogelwch) | Digwyddiad heb ei gynllunio neu annisgwyl a all arwain at anaf neu sefyllfa ddieisiau. |
| Caffael iaith | Dysgu neu ddatblygu sgil neu allu. |
| Gweithgareddau a phrofiadau | Gweithgareddau chwarae, hamdden a dysgu sy'n addas o ran dewisiadau, anghenion a galluoedd y plentyn. |
| Gofal acíwt (iechyd) | Gofal iechyd yw lle mae claf yn cael triniaeth weithredol a byrdymor yn dilyn salwch, anaf neu wrth wella ar ôl llawdriniaeth. |
| Rhoi meddyginiaeth | Rhoi a dogfennu meddyginiaeth gan ddefnyddio'r 'pum hawl', er mwyn lleihau gwallau a niwed. Y claf iawn, y cyffur iawn, y dos iawn, y llwybr iawn a'r amser iawn. |
| Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) | Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cyfeirio at ddigwyddiadau negyddol neu brofiadau trawmatig sydd wedi digwydd ac a all arwain at effeithiau hirdymor ac effaith ar iechyd a llesiant plant. |
| Eiriolaeth | Bydd eiriolwr plant yn cefnogi plentyn ac yn cynnig cyngor iddo. Diben eiriolaeth yw galluogi plant i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau yn deg a chynnal eu hawliau dynol. |
| Honedig | Cyhuddo rhywun o fod yn euog neu honni bod digwyddiad wedi bod, heb ddangos tystiolaeth i gadarnhau bod yr hyn a gaiff ei ddatgan yn wir. |
| Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cynnwys ystod eang o rolau gofal iechyd proffesiynol e.e. ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol ac ati |
| Cydlynydd ADY | Mae cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith beunyddiol o gyflawni polisi AAAA a chydlynu darpariaeth plant ag AAAA (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau). |
| Gwerthuso | Y broses o asesu rhywun neu rywbeth; gwneud dyfarniad neu werthusiad. |
| Dull (cyfathrebu) | Ffordd o ddelio â sefyllfa neu broblem. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Asesu angen | Y broses o bennu anghenion unigolyn. |
| Damcaniaeth ymlyniad | Damcaniaeth wedi'i datblygu gan seicolegwyr i egluro'r ffordd mae plentyn yn rhyngweithio ag oedolion ac yn ffurfio perthnasoedd. Mae'n ymwneud â sefydlu perthnasoedd emosiynol, cadarn a chyson. |
| Agwedd | Ffordd o feddwl neu deimlo am rywbeth a all fod yn gred neu'r ffordd y caiff barn ei lleisio. |
| Rhwystrau i ddysgu | Unrhyw beth sy'n atal plentyn rhag gallu dysgu i'w lawn botensial. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â thlodi, camdriniaeth, cyfleoedd, yr amgylchedd ac ati. |
| Ymddygiad | Y ffordd mae rhywun yn gweithredu neu'n ymddwyn, yn enwedig tuag at eraill. |
| Bondio | Mae'r bond rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn yn hanfodol o ran twf a datblygiad plentyn drwy wella ansawdd bywyd y plentyn, a'i ryngweithio cadarnhaol a chyfathrebu. |
| Ffiniau (ymddygiad) | Y ffiniau o ran rheoli ymddygiad yw rheolau, canllawiau neu ddisgwyliadau derbyniol sy'n gwneud i berson ymddwyn mewn ffordd benodol a rhesymol. |
| CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y GIG) | Gwasanaethau arbenigol gan y GIG i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n profi problemau emosiynol neu ymddygiadol, fel iselder, anawsterau bwyta a gorbryder. |
| Gofalu am blant | Goruchwylio plentyn neu blant sy'n cynnwys diwallu eu hanghenion cyfannol ym mhob maes o ran eu twf a'u datblygiad. |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru. |
| Dull plentyn-ganolog | Mae'n annog y plant i gymryd yr awenau o ran eu dysgu drwy chwarae gweithredol ac arbrofi. Bydd plant yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn maent yn ei archwilio ac yn dysgu amdano. |
| Cod ymarfer ym maes gofal plant | Cod proffesiynol i ofalwyr plant er mwyn amddiffyn plant rhag cam-fanteisio a cham-drin, a gwerthfawrogi a pharchu pob plentyn fel unigolyn. |
| Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol | Y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd, gweithwyr nyrsio cyswllt a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill eu cyrraedd er mwyn cofrestru i ymarfer yn y DU. |
| Pryder am les plentyn | Mae'n rhaid rhoi gwybod i'ch tîm gofal cymdeithasol plant lleol os bydd sail resymol dros boeni neu amau bod plentyn yn cael ei niweidio, a all fod yn gyson â chamdriniaeth. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Cyfrinachedd | Diogelu gwybodaeth bersonol. Dim ond ar sail 'angen gwybod' y rhennir gwybodaeth. Mae cyfrifoldeb moesegol a chyfreithiol sy'n hanfodol wrth weithio gyda phlant a'u teuluoedd i gynnal a diogelu gwybodaeth unigolion. |
| Cydsyniad | Rhoi caniatâd i rywbeth ddigwydd neu gytuno i wneud rhywbeth. |
| Ymataliaeth mewn plant | Y gallu i reoli'r bledren a'r coluddyn. Gall problemau ymataliaeth arwain at golli wrin, gwlychu'r gwely a rhwymedd. |
| Diwylliant | Syniadau, arferion, credoau ac ymddygiad cymdeithasol pobl neu gymdeithas benodol. |
| Datblygiad plant | Twf neu ddatblygiad penodol sy'n dilyn trefn newidiadau cymdeithasol, corfforol, ieithyddol, deallusol ac emosiynol mewn plant o'u cenhedlu i'r glasoed i ddechrau oedolaeth. |
| Datgelu gwybodaeth | Hysbysu rhywun am rywbeth, datgelu neu agor i fyny. |
| Gwahaniaethu | Trin person arall yn wahanol yn seiliedig ar liw ei groen, ei grefydd, rhywioldeb, cefndir ac ati. |
| Amrywiaeth | Amrywiaeth o bethau gwahanol neu wahaniaethau. |
| Dyletswydd gofal | Cyfrifoldeb moesol neu gyfreithiol i sicrhau diogelwch neu lesiant plant yn eich gofal. |
| E-ddiogelwch | Diogelwch ar y rhyngrwyd, seiberddiogelwch neu ddiogelwch ar-lein er mwyn diogelu gwybodaeth breifat a diogelwch personol rhag cam-fanteisio neu drosedd. |
| Adnabod yn gynnar | Mae hyn yn cynnwys gwerthuso ac ymateb i oedi o ran datblygiad plentyn sydd mewn perygl o AAAA (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau). |
| Addysg y blynyddoedd cynnar | Dysgu plant 3-5 oed. |
| Dangos empathi i eraill | Y gallu i ddeall teimladau eraill. |
| Mynd ati i ddysgu | Bydd plant yn ymddiddori fwyaf pan fyddan nhw eu hunain yn rhan o'r broses ddysgu, ac yn creu eu hystyr eu hunain, drwy ddysgu gweithredol, ysgogol, heriol a diddorol. |
| Amgylcheddau mewn lleoliadau gofal plant | Trefnu ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored, yr amrywiaeth o adnoddau ac ysgogi dysgu. |
| Cydraddoldeb | Bod yn gyfartal ag eraill o ran statws, tegwch, cyfleoedd a hawliau dynol. |
| Moesegol | Egwyddorion a gwerthoedd moesol sy'n ymwneud â gwybod beth sy'n iawn neu'n gywir. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Ethos | Cymeriad neu werthoedd hanfodol person, diwylliant neu strwythur. |
| Fframwaith dysgu | Cwricwlwm neu gynllun dysgu wedi'i drefnu sy'n diffinio cynnwys a safonau'r hyn a gwmpesir gan y deilliannau dysgu a'r dulliau asesu neu gyflawni. |
| Peryglon iechyd a diogelwch | Rhywbeth a allai niweidio person e.e. ysgol, sŵn, llawr gwlyb ac ati. |
| Gofal iechyd | Rhaglen sy'n darparu cymorth o ran llesiant corfforol, cymdeithasol a meddyliol. |
| Iechyd a diogelwch | Gweithdrefnau a rheoliadau a fwriedir i atal damweiniau mewn mannau cyhoeddus. |
| Datblygiad hewristig | Galluogi person i ddarganfod neu ddysgu rhywbeth drosto'i hun. |
| Datblygiad cyfannol | Mae datblygiad cyfannol plant yn cyfeirio at y plentyn cyfan ac yn mynd i'r afael ag agweddau corfforol, emosiynol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol datblygiad y plentyn. |
| Hydradiad | Mae'n bwysig hydradu â hylifau er mwyn rheoleiddio tymheredd y corff, treulio bwyd a gwaredu gwastraff, a disodli'r dŵr a gollir drwy chwysu a throethi. |
| Imiwneiddiad | Un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn plant rhag clefydau niweidiol fel y frech goch, llid yr ymennydd ac ati yw eu himiwneiddio drwy raglen o frechiadau oedran benodol er mwyn atal clefydau rhag lledaenu ymhlith plant. |
| Effaith | Effaith neu ddylanwad nodedig. |
| Digwyddiad (iechyd a diogelwch) | Digwyddiad anrhagweladwy/achos o rywbeth yn digwydd, a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. |
| Haint (iechyd) | Mae'r mathau o heintiau yn cynnwys rhai ffwngaidd, bacterol, feirws ac ati. Bydd organebau nad ydynt i'w gweld yn y corff fel arfer yn ymosod ac yn lluosi. |
| Pla (iechyd a diogelwch) | Nifer anarferol o fawr o bryfed neu anifeiliaid. Clefyd parasitig (organeb byw) a achosir gan anifeiliaid e.e. llygod, llau, trogod ac ati. |
| Mentrau | Rhaglenni neu brojectau penodol a ddilynir i gyflawni canlyniadau penodol. Mae'n ddechrau rhywbeth i wneud gwelliannau. |
| Gweithiwr allweddol | Mae gweithiwr allweddol yn cyflawni rôl prif ofalwr ac mae'n gyfrifol am blant penodol yn y lleoliad gofal plant, a bydd yn gweithio gyda phlant unigol a'u rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod anghenion gofal ac addysg penodol y plentyn yn cael eu bodloni. |
| Trochi ieithyddol | Techneg a ddefnyddir mewn addysg ddwyieithog lle defnyddir dwy iaith at ddiben rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Dysgu | Y broses o gaffael gwybodaeth, ymddygiad, sgiliau newydd ac ati. Gwneud synnwyr o wrthrych, digwyddiad neu deimlad. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Deddfwriaeth | Cyfraith neu set o gyfreithiau a awgrymir gan y llywodraeth ac a wneir yn swyddogol gan y senedd. |
| Dewisiadau o ran ffordd o fyw | Penderfyniad personol neu gydwybodol ynghylch sut i fyw ac ymddwyn yn seiliedig ar agwedd, chwaeth, gwerthoedd a diddordebau. |
| Monitro | Y broses o arsylwi ar gynnydd a'i wirio dros gyfnod o amser. |
| Symud a chodi a chario | Y broses o godi, gwthio, tynnu a symud cyfarpar neu bobl. |
| Gweithio amlasiantaethol | Cydweithio ag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill o wahanol sectorau er mwyn darparu ffordd integredig o weithio er mwyn ymyrryd yn gynnar a chefnogi plant a theuluoedd e.e. addysg, gwaith ieuenctid, yr heddlu ac ati. |
| Gweithio amlddisgyblaethol | Tîm o staff o wahanol gefndiroedd a meysydd arbenigol e.e. seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol ac ati sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau wedi'u cydlynu i gydweithio tuag at set o nodau penodol. |
| Maeth | Y broses o ddarparu neu gael maeth egni o fwyd sydd ei angen er ein hiechyd, tyfiant a datblygiad. |
| Partneriaeth | Cysylltiad dau neu fwy o bobl sy'n rhannu nodau ac yn cydweithio mewn partneriaeth. |
| Chwarae | Cymryd rhan mewn gweithgaredd er mwynhad a hamdden a all fod yn ddigymell neu wedi'i gynllunio. |
| Polisi | Camau gweithredu neu egwyddor a nodir gan sefydliad. |
| Ymagwedd bositif | Galluogi unigolion i ddelio'n effeithiol â gofynion a heriau sefyllfaoedd neu amgylcheddau. |
| Atal | Atal rhywbeth rhag digwydd. |
| Egwyddorion | Y rheol, ffordd o ymddwyn neu ffordd o weithredu a dderbynnir ar gyfer unigolion. |
| Gweithdrefn | Cyfres gytûn o gamau i gyflawni nod neu dasg benodol. |
| Ymarfer proffesiynol | Meddu ar wybodaeth o fewn proffesiwn penodol a chymryd camau sy'n ymwneud â dyletswyddau proffesiynol. |
| Cofnodi gwybodaeth | Y dull o gofnodi gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus. |
| Atgyfeiriadau | Cyfeirio rhywun at le neu berson gwahanol am wybodaeth, help neu gam gweithredu. |
| Myfyrdod | Archwilio profiadau ac ystyried newidiadau neu gamau gweithredu er mwyn mynd ati i ddysgu'n barhaus. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Gwaith sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd | Pwysigrwydd perthnasoedd rhyngbersonol sy'n bodoli rhwng y persona ac eraill o'i amgylch, meddu ar ymagwedd bersonol a chydweithredol ac ati. |
| Gwydnwch | Y gallu i adfer yn gyflym yn dilyn anawsterau, fel amgylchiadau emosiynol neu gysylltiedig ag iechyd. |
| Cyfrifoldebau | Yr hawliau, dyletswyddau a phwerau cyfreithiol i wneud penderfyniadau gwybodus a gweithredu |
| Dull gweithredu seiliedig ar hawliau | Parchu, amddiffyn a chyflawni egwyddorion hawliau dynol. |
| Risg | Y tebygolrwydd y gallai perygl a nodwyd achosi niwed. |
| Asesiad risg a budd | Cydbwyso manteision gweithgaredd sydd ag unrhyw risg bosibl. |
| Rôl | Swydd a chyfrifoldeb penodol. |
| Arferion | Arferion addysgol, personol, gofal corfforol ac ati sy'n cynnig cyfleoedd am amrywiaeth a chysondeb. |
| Diogelu | Mesurau i amddiffyn iechyd, llesiant a hawliau dynol plant ac oedolion i fyw heb gamdriniaeth, niwed nac esgeulustod. |
| Cofnod o Sgiliau Tyfu | Adnodd sgrinio i asesu cerrig milltir datblygiadol ymhlith plant. |
| Cyfnodau datblygiad | Oedrannau a chyfnodau datblygiad plant. Bydd plant yn datblygu mewn ffyrdd nodedig wrth iddynt dyfu o fod yn fabanod i oedolion ifanc e.e. geni i 2 oed. |
| Cyfnodau chwarae | Damcaniaeth a nodweddir gan gyfnodau chwarae unigol, gwylio, cyfochrog, cysylltiadol a chydweithredol. |
| Straen | Teimlo neu fod o dan ormod o bwysau emosiynol neu feddyliol/teimlo na ellir ymdopi. |
| Gwaith tîm | Camau cyfunol grŵp. |
| Y Cyfnod Sylfaen | Cwricwlwm i blant yng Nghymru yn seiliedig ar ddarparu deilliannau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad. |
| Damcaniaeth | System o syniadau y bwriedir iddi greu esboniad yn seiliedig ar ymchwil neu ragdybiaeth. |
| Trawsnewidiadau | Newid o un ffurf neu fath i un arall. |
| Mathau o chwarae | Caiff mathau o chwarae eu creu drwy wahanol amgylcheddau a mannau chwarae e.e. creadigol, archwiliadol, dychmygol ac ati. |
| Gwerthoedd | Pwysigrwydd, a'r gred mewn delfrydau a rennir o ran yr hyn sy'n ddymunol neu'n annymunol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Llesiant | Bod yn gysurus, yn hapus neu'n iach. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Pan fyddant yn gwneud penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallai'r penderfyniadau hynny ei chael ar fywydau pobl yng Nghymru yn y dyfodol. |
| Chwythu'r chwiban | Term a ddefnyddir pan fydd gweithiwr yn trosglwyddo gwybodaeth am gamwedd neu arfer anfoesegol. |
| Gofalwr ifanc | Person ifanc 18 oed neu'n iau sy'n gyfrifol am ofalu am rywun. Gall fod yn gyfrifol am waith tŷ a gofal personol ac ati. |

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth:

Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth **sylfaenol** o ddeddfwriaeth allweddol a sut mae hyn yn sail i waith gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau a fframweithiau cenedlaethol yn cynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru
  Y Saith Nod Craidd:
  - cael dechrau teg mewn bywyd (y blynyddoedd cynnar)
  - sicrhau eu bod yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
  - sicrhau eu bod yn mwynhau'r iechyd gorau posibl a'u bod yn rhydd rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio
  - sicrhau eu bod yn cael mynediad i gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
  - cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod (yn gallu cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau)
  - sicrhau bod ganddyn nhw gartref a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol
  - peidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi.
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- cynllun datblygu 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae
- Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae (Llywodraeth Cymru 2014)
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y dyfodol; mae'n hysbysu'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf am eu rhwymedigaeth gyfreithiol i:
  - ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau
  - ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd unedig
  - cydweithio ag unigolion, cymunedau a'i gilydd.
- Am y tro cyntaf, mae'n sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn gorfod gweithio mewn ffordd gynaliadwy, sy'n cynnwys:
  - cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy
  - gosod a chyhoeddi amcanion llesiant
  - gweithio i gyflawni'r saith nod llesiant yn y Ddeddf.
- Mae rhagor o wybodaeth, animeiddiadau a dogfennau yn amlinellu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gael yn https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy.

Dylai dysgwyr wybod a deall diben deddfwriaeth a pholisïau diogelu a sut maent yn dylanwadu ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys:

- https://diogelu.cymru/

Mae rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth a pholisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/.



© WJEC CBAC Ltd.